sicrhau bod cyfathrebiadau'n
**gweithio i bawb**

# Adroddiad blynyddol

## Ofcom ar y **BBC**



Dyddiad Cyhoeddi 24 Hydref 2019

# Trosolwg

Dyma ail adroddiad blynyddol Ofcom ar y BBC,[1] ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2018 a mis Mawrth 2019. Mae gan y BBC gylch gwaith eang yn ei Siarter Frenhinol[2] i hysbysu, i addysgu ac i ddiddanu'r cyhoedd, ac i gefnogi'r economi greadigol ar draws y Deyrnas Unedig. Rôl Ofcom yw cefnogi sector darlledu amrywiol a llwyddiannus yn y Deyrnas Unedig drwy sicrhau bod pob un o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus – gan gynnwys y BBC – yn cyflawni eu cylch gwaith, bod y system darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn parhau i ddarparu buddion i gynulleidfaoedd yn y Deyrnas Unedig, a'i bod yn gallu datblygu mewn ffordd hyblyg a chynaliadwy.

Mae Bwrdd y BBC yn gyfrifol am sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus a nodwyd yn y Siarter Frenhinol. Rôl Ofcom yw dal y BBC i gyfrif ar ran cynulleidfaoedd drwy ddarparu prosesau rheoleiddio cadarn, teg ac annibynnol. Rydym yn gwneud hyn drwy asesu perfformiad y BBC o ran cyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus, diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol yn y meysydd y mae'n gweithredu ynddynt, a sicrhau safonau golygyddol yn rhaglenni'r BBC. 2018/19 yw ein blwyddyn lawn gyntaf[3] o adrodd ar sut mae'r BBC wedi bodloni ei ofynion yn ei Drwydded Weithredu.

Mae'r adroddiad hwn yn datgelu bod y BBC yn cyflawni ei gylch gwaith yn gyffredinol. Yn benodol, mae'n dal i ddarparu llawer iawn o gynnwys newyddion a materion cyfoes, amrywiaeth eang o gynnwys dysgu ac addysgol, yn ogystal â chynnwys creadigol ac unigryw o ansawdd uchel i bawb ar draws ei wasanaethau prif ffrwd ac arbenigol. Mae'r BBC yn parhau i gynhyrchu cynnwys sy'n denu cynulleidfaoedd mawr, gyda nifer fawr o bobl yn manteisio ar y ddarpariaeth o Gwpan y Byd FIFA 2018, a darllediadau byw BBC Parliament wrth i Senedd y Deyrnas Unedig gynnal pleidleisiau ystyrlon ynghylch Brexit. Roedd *Bodyguard* wedi gosod sawl record newydd ar gyfer BBC iPlayer, gyda chynulleidfaoedd mawr yn defnyddio BBC iPlayer i ddal i fyny ar y rhaglen. Mae lefel bodlonrwydd cynulleidfaoedd yn dal yn gymharol uchel, ac yn cymharu'n dda â darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill a gorsafoedd radio masnachol, gydag oddeutu tri chwarter o'r cynulleidfaoedd yn fodlon â gwasanaethau radio ac ar-lein y BBC, a dwy ran o dair yn fodlon â gwasanaethau teledu'r BBC.

Y llynedd, roeddem wedi mynegi nifer o bryderon ar ran cynulleidfaoedd: y dylai'r BBC gymryd rhagor o gamau pwysig i ennyn diddordeb pobl ifanc; y dylai barhau i wella'r ffordd mae'n cynrychioli ac yn portreadu cymdeithas y Deyrnas Unedig i gyd; y dylai sicrhau bod ei arferion gwaith yn dryloyw, ac y dylai gynnal ei ymrwymiad i raglenni gwreiddiol yn y Deyrnas Unedig. Mae canfyddiadau ein hail adroddiad, a'r hyn mae cynulleidfaoedd wedi'i ddweud wrthym, yn dangos bod y pryderon hyn yn parhau.

Rydym ni o'r farn bod y BBC wedi cymryd rhywfaint o gamau i fynd i'r afael â'r materion hyn, er enghraifft, lansio BBC Sounds, gwneud newidiadau i BBC iPlayer, ac arbrofi â'r ffordd mae'n rhyddhau ei gynnwys, er mwyn helpu i gyrraedd cynulleidfaoedd iau. Mae ganddo nifer o gynlluniau cadarnhaol ar waith i wella amrywiaeth. Mae hyn yn cynnwys penodi June Sarpong yn ddiweddar i

fod yn Gyfarwyddwr Amrywiaeth Ddiwylliannol cyntaf y BBC – gyda chylch gwaith i wella portread y BBC o dalent ar yr awyr a chomisiynu talent o’r fath – a’r cynllun 50:50 i gynyddu cyfran y gwesteion, y cyfranwyr a’r arbenigwyr sy’n fenywod ar raglenni newyddion, materion cyfoes a rhaglenni eraill sy’n trafod pynciau amserol. Rydym yn nodi bod y gwariant ar gynnwys gwreiddiol wedi cynyddu rhywfaint ar ôl blynyddoedd lawer o ddirywio. Fodd bynnag nid yw’n glir i ni, ac ni fydd yn glir i’r cyhoedd chwaith, sut mae’r holl gynlluniau hyn yn cydblethu i greu cynllun cydlynol i fynd i’r afael â’r pryderon rydym wedi’u codi, yn enwedig pan fydd yn cymryd amser i gynulleidfaoedd weld unrhyw effeithiau cadarnhaol a fydd yn deillio o’r cynlluniau hyn. Er enghraifft, yn achos yr iPlayer, nid yw’r broses o’i newid i fod yn wasanaeth ffrydio, yn hytrach nag yn wasanaeth dal i fyny yn bennaf, wedi digwydd eto ac rydym yn deall bod y trafodaethau’n parhau â’r rheini sy’n berchen ar yr hawliau.

Heb gynllun tryloyw a chlir, mae’n anodd i ni fesur faint o gynnydd sy’n cael ei wneud, ac a fydd y camau hyn yn ddigon pellgyrhaeddol i sicrhau cynnydd sylweddol i gynulleidfaoedd yn yr elfennau allweddol hyn. Rydym yn disgwyl i’r BBC ddatgan yn gyhoeddus ei gynllun ar gyfer mynd i’r afael â’r themâu cyson hyn: ymgysylltu â phobl ifanc; cynrychiolaeth a phortreadu; ymrwymiad i dryloywder; ac ymrwymiad i raglenni gwreiddiol newydd yn y Deyrnas Unedig, yn ogystal â sut bydd yn delio ag argymhellion yr adolygiad o gynnwys newyddion a materion cyfoes. Bydd hyn yn rhoi cyfle i gynulleidfaoedd weld drostynt eu hunain, ac i ni ystyried, a yw’r BBC yn cymryd camau priodol. Bydd hyn o fudd i’r BBC hefyd, gan na fydd angen i ni ychwanegu amodau at Drwydded Weithredu’r BBC er mwyn sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud.

Felly rydym wedi ysgrifennu at y Cyfarwyddwr Cyffredinol ochr yn ochr â'r adroddiad hwn, yn galw arno i wneud yn glir yng nghynllun blynyddol nesaf y BBC a’r broses sefydlu cyllideb sut mae'r BBC yn bwriadu ymateb i'r pryderon hyn, a'r materion penodol rydym ni wedi’u codi. Rydym wedi gofyn i'r BBC gyflwyno cynllun clir i’r cyhoedd ynghylch gwneud cynnydd yn yr elfennau hyn a chadw golwg ar y cynnydd hwnnw erbyn diwedd Mawrth 2020. Os na fyddwn yn gweld arwyddion amlwg o gynnydd, byddwn yn camu i mewn ac yn gosod amodau ychwanegol ar y BBC.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi’n gyntaf yr heriau sy'n wynebu'r BBC a'r system darlledu gwasanaeth cyhoeddus ehangach yn wyneb arferion defnyddio sy'n newid yn gyflym, yn enwedig ymysg cynulleidfaoedd iau, a newidiadau sylweddol yn y farchnad. Mae'r adroddiad hwn yn rhagflaenu ein hadolygiad eang o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus (Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr). Yna rydym yn canolbwyntio ar ein prif ganfyddiadau, a sut mae'r BBC wedi ymateb i'r pedair elfen o bryder yr oeddem wedi’u hamlinellu y llynedd, yn ogystal â phrif gasgliadau ein hadolygiad o gynnwys newyddion a materion cyfoes y BBC. Mae gweddill yr adroddiad yn asesu perfformiad y BBC o ran cyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus, a sut rydym wedi cyflawni ein dyletswyddau i warchod cystadleuaeth deg ac effeithiol, ac i ddiogelu safonau golygyddol yn rhaglenni'r BBC.

## Ein prif gasgliadau

**Mae'r BBC yn cyrraedd llai o bobl drwy ei wasanaethau teledu a radio a'i brif wasanaethau ar-lein, ond mae'n dal yn rhan ganolog o'r cyfryngau a'r gwasanaethau newyddion y mae cynulleidfaoedd yn eu defnyddio.** Yn gyffredinol, mae'r BBC yn cyflawni ei gylch gwaith ar gyfer cynulleidfaoedd, drwy amrywiaeth ac ansawdd ei arlwy ar draws ei wasanaethau niferus. Mae'n darparu llawer iawn o gynnwys newyddion a materion cyfoes, amrywiaeth eang o gynnwys dysgu ac addysgol, yn ogystal â chynnwys creadigol ac unigryw o ansawdd uchel i bawb ar draws ei wasanaethau prif ffrwd ac arbenigol.

**Fel pob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus, mae'r amgylchedd cyfryngau sy'n newid yn gyflym yn effeithio ar y BBC, yn enwedig wrth iddo gael trafferth denu a dal gafael ar gynulleidfaoedd iau. Os na all fynd i'r afael â hynny, bydd mewn perygl o fethu cyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus i'r un lefel yn y dyfodol.** Mae'r BBC wedi gwneud newidiadau i'w wasanaethau a'i gynnwys er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r mater. Mae'r rhain yn cynnwys lansio BBC Sounds, gwneud newidiadau i BBC iPlayer a rhoi mwy o gynnwys BBC Three ar BBC One. Fodd bynnag, mae'r amser y mae cynulleidfaoedd iau yn ei dreulio gyda'r BBC ar draws ei wasanaethau teledu a radio a'i brif safleoedd ar-lein, wedi gostwng ymhellach yn 2018/19. Mae ein hadolygiad o gynnwys newyddion a materion cyfoes y BBC hefyd yn awgrymu bod y BBC yn ei chael hi'n anodd ennyn diddordeb cynulleidfaoedd iau yn ei gynnwys newyddion a materion cyfoes, yn enwedig ar-lein. Os na all y BBC ennyn diddordeb pobl ifanc yn ei gynnwys, mae mewn perygl o golli cenhedlaeth o wylwyr. Os nad yw pobl ifanc yn ystyried y BBC yn rhan ganolog o'u harferion gwylio, mae'n bosibl y bydd yn anodd eu hannog i dalu ffi'r drwydded. Bydd hynny'n arwain at oblygiadau sylweddol i refeniw'r BBC, a'i allu i gyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus.

**Rydym yn poeni am sut mae'r BBC yn cyflawni ei ofynion amrywiaeth. Mae hyn yn elfen allweddol i lwyddiant y BBC. Mae gofyn cael cynllun cadarn er mwyn cadw golwg ar y ffordd mae gwelliannau'n cael eu gwneud.** Rydym yn cydnabod bod y BBC yn arwain y ffordd o ran casglu data am amrywiaeth y gweithlu, ac mae ganddo nifer o gynlluniau ar waith i wella amrywiaeth. Fodd bynnag, mae ein gwaith ymchwil yn dangos bod rhai grwpiau yn dal yn anfodlon â'r ffordd maen nhw'n cael eu cynrychioli a'u portreadu gan y BBC. Dylai'r BBC amlinellu beth mae'n ei wneud er mwyn cyrraedd y grwpiau hyn. Mae angen i'r BBC amlinellu'n fanylach beth yw ei gynllun ar gyfer sicrhau bod cymdeithas y Deyrnas Unedig i gyd yn cael ei chynrychioli a'i phortreadu'n well, gan gynnwys sut mae'n ymateb i ganfyddiadau penodol ein hadolygiad a gynhaliwyd y llynedd. Rydym yn poeni am ansawdd a manylder proses y BBC ar gyfer adrodd yn ôl i ni ar amrywiaeth. Byddwn hefyd yn edrych ar sut gallwn ni gynnig mwy o eglurder ynghylch amlygrwydd amrywiaeth mewn cynyrchiadau yn dilyn uno BBC Worldwide a BBC Studios.

**Mae diffyg tryloywder ym mhroses cwynion golygyddol y BBC.** Rydym o'r farn bod y ffordd mae'r BBC wedi delio ag achos Naga Munchetty yn ddiweddar yn dangos pam y dylai fod yn fwy tryloyw ynghylch y rhesymau dros ei ganfyddiadau ar gydymffurfio â'i Ganllawiau Golygyddol sy'n adlewyrchu Cod Darlledu Ofcom. Byddwn yn rhoi sylw i ddiffyg tryloywder y BBC yn yr elfen hon fel mater brys.

**Mae angen i'r BBC fod yn llawer mwy agored i ymgysylltu â thrydydd partïon sydd, o bosib, yn teimlo effeithiau'r newidiadau i wasanaethau a ariennir gan ffi'r drwydded.** Unwaith eto eleni, rydym wedi gweld enghreifftiau o achosion lle nad yw'r BBC wedi rhoi digon o ystyriaeth i'r angen i ymgysylltu'n allanol er mwyn asesu'n llawn oblygiadau ei newidiadau i'r sector darlledu. Bydd ymgysylltu'n frwd â'r diwydiant ynghylch newidiadau arfaethedig i wasanaethau'r BBC yn galluogi'r BBC i gyflawni ei ddyletswydd i geisio osgoi effeithiau niweidiol ar gystadleuaeth sydd ddim yn angenrheidiol er mwyn cyflawni'r Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus yn effeithiol. Bydd hyn yn ei helpu i ddeall yn well effaith bosibl ei weithgareddau ar gystadleuaeth a chynulleidfaoedd.

**Rydym wedi cynnal adolygiad manwl o gynnwys newyddion a materion cyfoes y BBC, ac wedi gwneud argymhellion sy'n seiliedig ar yr hyn mae cynulleidfaoedd wedi'i ddweud wrthym**. Er bod y sefyllfa wleidyddol yn ansicr, y BBC yw'r brif ffynhonnell newyddion o hyd yn y Deyrnas Unedig, ac mae wedi cynnal ei enw da am ohebu'n gywir ac yn ddibynadwy. O ran didueddrwydd y BBC, mae amrywiaeth o ffactorau yn siapio safbwyntiau pobl, a dim ond rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chynnwys newyddion a materion cyfoes y BBC. Fodd bynnag, mae cynulleidfaoedd yn gwerthfawrogi safon newyddiaduraeth y BBC, a dylai hyn roi hyder i'r BBC fod yn fwy beiddgar yn ei ffordd o weithio. Gyda'i adnoddau heb eu hail ar gyfer casglu newyddion, dylai'r BBC hefyd fod yn cynrychioli'r Deyrnas Unedig i gyd yn well, gyda chynnwys newyddion a materion cyfoes go iawn sy'n teimlo'n berthnasol ac yn ddifyr i bawb. Yn olaf, mewn perthynas â'r ddarpariaeth ar-lein, mae angen i BBC News wneud mwy i sefyll allan neu bydd mewn perygl o golli ei enw da a'i statws fel llais dibynadwy. Dylai gyhoeddi'r camau mae'n eu cymryd i helpu pob cynulleidfa – yn enwedig pobl iau – i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas.

**Byddwn yn lansio adolygiad o BBC Studios.** Byddwn yn edrych ar y ffin rhwng gwasanaethau masnachol a chyhoeddus y BBC. Fel rhan o'r adolygiad, byddwn yn ystyried a yw newidiadau'r BBC i'w linellau busnes yn BBC Studios yn ddigon tryloyw i randdeiliaid ac i Ofcom.

# Cynnwys

Trosolwg ........................................................................................ 1
Y BBC a darlledu gwasanaeth cyhoeddus ........................................................ 6
Y prif ganfyddiadau ........................................................................................ 9
Perfformiad y BBC ........................................................................................ 29
Effaith y BBC ar gystadleuaeth ........................................................................ 44
Safonau Cynnwys y BBC .................................................................................. 50
Ôl-nodiadau .................................................................................................. 56



# Y BBC a darlledu gwasanaeth cyhoeddus

## Cadernid darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol

Mae'r BBC a darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill yn wynebu heriau a allai danseilio eu gallu i gyflawni eu cylch gwaith. Fel rydym wedi dweud yn ystod y blynyddoedd diwethaf,[4] mae'r heriau hyn yn deillio o gyfuniad o ffactorau – cyrraedd llai o gynulleidfa, yn enwedig pobl iau, mwy o gystadleuaeth gan ddarlledwyr ar-alw sy'n cael eu hariannu'n dda, a mwy o bwysau ar refeniw.

Ym mis Gorffennaf[5] fe wnaethom amlinellu ein hasesiad, er bod rhaglenni darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn dal yn boblogaidd ymysg cynulleidfaoedd ac yn dal i gyfrif am tua hanner yr holl oriau gwylio ar set deledu, mae'r byd darlledu yn newid yn strwythurol ar raddfa gyflym. Mae'r newid hwn wedi bod o fudd mawr i gynulleidfaoedd: mae ganddyn nhw lawer mwy o ddewis o gynnwys safonol iawn, ac maen nhw'n gallu cael gafael ar y cynnwys hwnnw gan set lawer ehangach o ffynonellau. Fodd bynnag, ar yr un pryd, mae wedi creu her i'r system darlledu gwasanaeth cyhoeddus bresennol a'i chadernid yn y dyfodol. Os bydd y tueddiadau presennol yn parhau, bydd angen i'r system newid er mwyn goroesi.

### Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr

Rydym yn cychwyn trafodaeth genedlaethol ynghylch dyfodol cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus – **Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr**

Rydym yn cychwyn trafodaeth genedlaethol ynghylch dyfodol cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus – Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr

- Sut bydd marchnadoedd cyfryngau'r Deyrnas Unedig yn datblygu dros y 5-10 mlynedd nesaf?
- Beth mae ar gynulleidfaoedd ei eisiau gan gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus?
- A yw darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn gynaliadwy ar ei ffurf bresennol?
- Sut dylai prosesau rheoleiddio gefnogi hyn?

Rydym yn siarad â'r diwydiant am eu safbwyntiau cychwynnol ynghylch y cwestiynau hyn, ond rydym eisiau gwrando ar ystod amrywiol o leisiau a syniadau newydd, yn enwedig gan wylwyr a gwrandawyr. Byddwn yn rhannu rhagor o fanylion ochr yn ochr â'r asesiad o berfformiad. Yna byddwn yn ymgynghori ar ein casgliadau yn ystod haf nesaf, cyn cyflwyno argymhellion i'r Llywodraeth.

Mae rhagor o wybodaeth am ein cynlluniau ar gyfer rhaglen waith Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr, a chyfle i roi adborth, ar gael ar ein gwefan.

Er bod y BBC yn cael ei warchod yn rhannol rhag y datblygiadau hyn oherwydd ei fod yn sicr o gael incwm o ffi trwydded y BBC, mae'r incwm hwn yn is eleni gan fod y BBC yn dechrau ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros ariannu consesiwn ffi'r drwydded i bobl dros 75 oed. Roedd y BBC hefyd wedi gwerthu 37,000 yn llai o drwyddedau teledu yn 2018/19 – y gostyngiad cyntaf mewn degawd.[6] Mae'r gost o wneud rhaglenni hefyd yn cynyddu, gyda'r gwariant byd-eang ar rai genres – yn enwedig dramâu wedi'u sgriptio – yn codi i lefelau nas gwelwyd o'r blaen.

Dydy rhai o'r heriau sy'n wynebu'r BBC ddim yn unigryw i'r BBC, ac maen nhw'n berthnasol i'r holl ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Fodd bynnag, mae'r BBC yn rhan ganolog o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig, a'r BBC sydd â'r nifer mwyaf o wasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus, y gwariant mwyaf a'r cyrhaeddiad ehangaf.[7] Mae ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus (darllenwch y crynodeb yn y blwch ar y dde) yn cyd-fynd â dibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Er bod cyrhaeddiad y BBC a'r defnydd ohono wedi bod yn gostwng ar bob un o'i brif wasanaethau teledu, radio ac ar-lein, mae teimladau pobl am bwysigrwydd y BBC wedi cryfhau. Mae ein gwaith ymchwil yn dangos bod bron i dri chwarter o oedolion yn teimlo ei bod yn bwysig i gymdeithas bod y BBC yn cyflawni pob diben.[8] Mae gennym gyfrifoldeb i edrych ar sut mae'r BBC yn addasu i'r farchnad wrth iddi newid, ac yn parhau i fod yn berthnasol i bawb, yn enwedig o ran ennyn diddordeb a dal gafael ar bobl ifanc.

Rhaid i'r BBC roi blaenoriaeth i sicrhau ei fod yn dal i gyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus yn wyneb arferion defnyddio sy'n newid yn gyflym. Bydd angen iddo sicrhau ei fod yn parhau i wneud cynnwys difyr ac adloniadol y mae pobl eisiau ei wylio ac, yn bwysig iawn, ei fod yn darparu'r cynnwys hwnnw mewn mannau lle mae pobl eisiau ei wylio – nid dim ond yn y mannau lle mae'r BBC wedi bod yn darlledu yn draddodiadol neu yn y gorffennol. Bydd llwyddiant BBC iPlayer a BBC Sounds, a'r ffordd mae'r BBC yn eu defnyddio, yn allweddol i hyn. Bydd strategaeth dosbarthu arloesol i ddarparu cynnwys i bobl pryd bynnag a lle bynnag maen nhw eisiau'r cynnwys hefyd yn allweddol. I ategu hyn, rydym wedi mynnu bod y BBC yn gosod mesurau perfformiad i asesu perfformiad BBC iPlayer o ran cyflawni'r Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus. Bydd adroddiad blynyddol y BBC yn adrodd yn ôl ar hynny.

## Dibenion Cyhoeddus y BBC

Mae'r Siarter yn cyflwyno'r Dibenion Cyhoeddus y mae'r BBC yn eu hyrwyddo:

**Diben Cyhoeddus 1:** Darparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd i helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas.

**Diben Cyhoeddus 2:** Cefnogi dysgu ar gyfer pobl o bob oed.

**Diben Cyhoeddus 3:** Dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol, unigryw ac o'r ansawdd gorau.

Diben Cyhoeddus 4: Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig, a chefnogi'r economi greadigol ledled y Deyrnas Unedig wrth wneud hynny.

Sylwer: Mae pumed Diben Cyhoeddus y BBC, sef adlewyrchu'r Deyrnas Unedig, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd y tu hwnt i rôl reoleiddiol Ofcom. Mater i'r BBC yw pennu'r drwydded ar gyfer y BBC World Service (cymal 32 o'r Cytundeb).

## Mae cyrraedd a dal gafael ar gynulleidfaoedd iau yn allweddol i gynaliadwyedd

Fe ddywedom y llynedd, ac rydym yn dweud eto yn yr adroddiad hwn (yn benodol, darllenwch dudalen 10), bod yr her y mae'r BBC yn ei hwynebu ar draws pob llwyfan yn arbennig o amlwg ymysg pobl ifanc.

I sicrhau y bydd y BBC yn gadarn yn y dyfodol wrth i gynulleidfaoedd gael mwy o ddewis nag erioed o'r blaen, mae angen i'r BBC ddarparu cynnwys sy'n berthnasol ac sy'n apelio at gynulleidfaoedd iau, er mwyn iddyn nhw feithrin cysylltiad â gwasanaethau'r BBC. Os nad yw pobl yn ystyried y BBC yn rhan ganolog o'u harferion gwylio, bydd yn anodd eu hannog i dalu ffi'r drwydded mewn blynyddoedd i ddod, a gallai hynny erydu cefnogaeth y cyhoedd i ffi’r drwydded. Mae hyn yn fygythiad uniongyrchol i allu'r BBC i barhau i gyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus.

Mae ein gwaith parhaus (gan gynnwys ein hadolygiad o gynnwys newyddion a materion cyfoes y BBC, ein hadolygiad o gynrychiolaeth a phortreadu, a'n hasesiad o gynigion y BBC ar gyfer BBC iPlayer) yn amlygu rhai o'r heriau y mae'r BBC yn eu hwynebu o ran ennyn diddordeb pobl iau. Wrth ddatblygu ei gynigion ar gyfer BBC iPlayer, cyflwynodd y BBC ymchwil a oedd yn dangos bod pobl rhwng 16 a 34 oed - gan gynnwys defnyddwyr cyson - yn teimlo’n aml nad yw BBC iPlayer yn wasanaeth ‘iddyn nhw’, mai cynnwys ‘ar gyfer cynulleidfaoedd hŷn’ mae’n ei ddarparu, a bod ‘diffyg amrywiaeth’ arno.[9] Wrth gael eu holi fel rhan o'n hadolygiad o gynnwys newyddion a materion cyfoes y BBC, roedd pobl ifanc yn cwestiynu i ba raddau mae darpariaeth newyddion y BBC yn ‘siarad â fi’. Yn nodweddiadol, roeddent yn gweld darpariaeth newyddion y BBC fel rhywbeth ‘sych a diflas’ sydd ddim bob amser yn adlewyrchu eu diddordebau. Dywedodd rhai wrthym hefyd fod newyddion ar-lein y BBC yn cael trafferth bod yn wahanol i’r amrywiaeth o opsiynau newyddion sydd ar gael iddynt.

Mae’r broblem o fod yn berthnasol i gynulleidfaoedd iau yn broblem gyffredin i’r holl ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.  Mae pob un ohonyn nhw’n cyrraedd llai o bobl rhwng 16 a 24 oed, ac mae Channel 4 a Channel 5 yn colli gwylwyr ar raddfa gyflymach na BBC ac ITV.[10] Felly, byddwn yn comisiynu ymchwil benodol fel rhan o Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr er mwyn deall beth yw barn cynulleidfaoedd yn yr ystod oedran yma am wahanol fath o gynnwys a sefydliadau, a pha agweddau sy’n bwysig iddyn nhw.

## Mae rhai cynulleidfaoedd yn troi eu cefnau oherwydd nad ydynt yn gweld eu hunain ar y BBC

Roedd adroddiad y llynedd ar gynrychiolaeth a phortreadu yn dangos bod rhai grwpiau yn teimlo nad ydynt yn cael eu cynrychioli ddigon, neu eu bod yn cael eu portreadu mewn ffordd annilys, gan y BBC. Roedd ganddyn nhw deimladau tebyg am y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill hefyd.[11] Eleni, mae ein gwaith ymchwil wedi canfod safbwyntiau tebyg. Mae cynulleidfaoedd yn tueddu i deimlo mwy o gysylltiad â rhaglenni sy'n adlewyrchu agweddau ar eu hunaniaeth neu eu bywydau, ac maen nhw’n dod o hyd i fwy o’r math hwnnw o gynnwys y tu hwnt i’r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus: ar-lein, ar wasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio (SVoD) a gan ddarlledwyr eraill.[12]



# Y prif ganfyddiadau

## Rydym eisiau i Fwrdd y BBC ddatgan yn glir sut bydd yn mynd i'r afael â'r materion rydym wedi'u nodi yn yr adroddiad hwn

Ochr yn ochr ag adroddiad y llynedd, fe wnaethom ysgrifennu at y BBC yn amlinellu pedair elfen lle’r oedd angen iddo wneud yn well.[13] Rydym wedi bod yn adolygu'r pedair elfen hyn yn ofalus, yn ogystal ag edrych ar berfformiad ehangach y BBC o ran ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus ynghyd â’i ofynion rheoleiddio yn 2018/19. Rydym wedi nodi ein barn ni am gynnydd y BBC yn yr adran hon, yn ogystal â chrynhoi prif ganfyddiadau ein hadolygiad o gynnwys newyddion a materion cyfoes y BBC.

### Rydym yn disgwyl i'r BBC egluro sut bydd yn ymateb i'r canfyddiadau hyn:

Dydy’r BBC ddim wedi egluro yn glir sut mae wedi ymateb yn foddhaol i’r pryderon a godwyd gennym ni ar ran cynulleidfaoedd y llynedd. Mae hyn yn ei gwneud hi’n anodd i ni fesur cyfraniad y mesurau y mae’r BBC wedi’u rhoi ar waith. Rydym nawr eisiau i’r BBC sefydlu cynllun clir ac uchelgeisiol ar gyfer mynd i’r afael â’r materion hyn, a sut bydd y mesurau mae eisoes wedi’u rhoi ar waith neu y bydd yn eu rhoi ar waith yn y dyfodol, yn sicrhau cynnydd.

Rydym wedi datgan yr wybodaeth isod:

- **Bydd cynaliadwyedd y BBC yn y dyfodol mewn perygl os na fydd yn gallu ennyn diddordeb pobl ifanc ddigon. Bydd hyn yn tanseilio gallu'r BBC i dalu am gynnwys i gyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus.**
- **Rydym yn poeni’n gyffredinol ynghylch y ffordd mae'r BBC yn bodloni gofynion amrywiaeth, a’r ffordd mae'n adrodd yn ôl i ni. Mae hyn yn elfen allweddol i lwyddiant y BBC. Mae angen cynllun cadarn a thryloyw ar y BBC, sy’n egluro sut mae’n bwriadu sicrhau’r gwelliannau hyn.**
- **Dylai egluro sut bydd yn sicrhau bod cymdeithas y Deyrnas Unedig i gyd yn cael ei chynrychioli a’i phortreadu’n well ganddo, gan gynnwys sut mae'n ymateb i ganfyddiadau penodol ein hadolygiad a gynhaliwyd y llynedd. Dylai hefyd fod yn gliriach ynghylch nodi grwpiau sy’n llai bodlon, ac egluro beth mae’n ei wneud iddyn nhw.**
- **Mae diffyg tryloywder yn y ffordd mae'r BBC yn rhyddhau ac yn esbonio ei benderfyniadau am gydymffurfio â'r Cod Darlledu.**

- **Dylai’r BBC fod yn llawer mwy agored i ymgysylltu â thrydydd partïon sydd, o bosib, yn teimlo effeithiau’r newidiadau i wasanaethau a ariennir gan ffi'r drwydded. Bydd hyn yn sicrhau bod y broses reoleiddio yn fwy effeithlon ac, os bydd angen, yn galluogi'r BBC i addasu cynigion er mwyn ystyried yr effaith ar gystadleuaeth.**
- **Byddwn yn gofyn i'r BBC esbonio'r camau mae'n eu cymryd i ymateb i'r argymhellion yn ein hadolygiad o gynnwys newyddion a materion cyfoes y BBC.**

Rydym wedi ysgrifennu at y Cyfarwyddwr Cyffredinol heddiw, i egluro ein prif ganfyddiadau fel y maen nhw wedi’u nodi yn yr adroddiad hwn. Byddwn yn ymgysylltu gydag ef dros y misoedd nesaf am ein pryderon er mwyn ei fod yn gallu sicrhau eu bod yn cael eu hystyried yn llawn gan Fwrdd y BBC. Byddwn yn disgwyl gweld cynllun clir i fynd i'r afael â'r elfennau hynny sy'n dal i beri pryder yng nghynllun blynyddol y BBC a’r broses sefydlu cyllideb ar gyfer 2020/21, a gyhoeddwyd ar ddiwedd Mawrth 2020. I atgyfnerthu hyn ar gyfer y blynyddoedd nesaf, byddwn yn ymgynghori ar amod Trwydded Weithredu newydd fydd yn ei gwneud yn ofynnol i’r BBC i ymateb yn ffurfiol i’r adroddiad blynyddol drwy ei broses cynllun blynyddol.

## Cymryd rhagor o gamau pwysig i ennyn diddordeb pobl ifanc

**Mae’r BBC yn dal yn cael trafferth dal gafael ar gynulleidfaoedd iau. Yn 2018/19 roedd cyrhaeddiad y BBC yn dal i ostwng ar draws ei wasanaethau teledu a radio a’i brif safleoedd ar-lein. Mae’n hanfodol bod y BBC yn cynhyrchu cynnwys unigryw ac arloesol sy’n cyrraedd cynulleidfaoedd iau ac sy’n apelio atynt, a’i fod yn darparu’r cynnwys hwnnw yn y mannau lle mae cynulleidfaoedd iau eisiau cael gafael arno.**

**Os na fydd cynulleidfaoedd iau yn defnyddio'r BBC, mae’n bosibl y bydd cefnogaeth y cyhoedd i ffi’r drwydded yn lleihau yn y dyfodol. Bydd hyn yn tanseilio gallu'r BBC i dalu am gynnwys i gyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus. Rydym yn credu bod hyn yn risg sylweddol i gynaliadwyedd y BBC yn y dyfodol. Byddwn yn edrych yn benodol ar y mater hwn yn y cynllun Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr.**

**Y llynedd, fe ddywedom fod pobl ifanc yn hollbwysig i lwyddiant y BBC yn y dyfodol, ond eu bod yn gwylio llai a llai o deledu byw. Fel y disgrifir uchod, mae’r duedd hon wedi’i hen sefydlu erbyn hyn, ac mae’n duedd y mae pob darparwr cynnwys yn ei hwynebu wrth geisio ennyn diddordeb pobl ifanc. Mae denu a dal gafael ar gynulleidfaoedd iau bellach yn her hollbwysig i gynaliadwyedd yr holl ddarlledwyr gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol. Mae’r BBC mewn perygl o golli cenhedlaeth o wylwyr os na all wrthdroi’r dirywiad hwn.**

### Mae’r BBC yn cydnabod ei fod yn wynebu her ac mae’n gwneud newidiadau i'w wasanaethau a’i gynnwys er mwyn ceisio rhoi sylw i’r mater

Y llynedd, fe wnaethom ni ddweud bod angen i’r BBC ganfod ffyrdd newydd o gyrraedd pobl ifanc, mewn ffyrdd sy’n adlewyrchu eu harferion defnyddio.[14] Roedd y BBC wedi cydnabod ym Mhrawf Budd y Cyhoedd ynghylch y newidiadau i BBC iPlayer (gweler isod), ei fod yn cael trafferth ennyn diddordeb cynulleidfaoedd iau a dal gafael arnynt. Yn wahanol i genedlaethau blaenorol, nid yw’r BBC yn gweld cynulleidfaoedd iau yn

dychwelyd ato mwyach, ac maen nhw'n defnyddio gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio yn lle hynny.

Dywedodd, oni bai ei fod yn gallu 'gwneud rhywbeth i wneud yr hyn rydym yn ei gynnig yn fwy perthnasol i'n cynulleidfaoedd, dros amser, gallai hyn arwain at bobl yn troi oddi wrth y BBC am byth, gan herio diben craidd y BBC i ddarparu gwasanaeth cyffredinol'.[15]


Mewn ymateb i hyn mae'r BBC, a phob darlledwr arall, yn gosod mentrau cynnwys y neu lle ac yn gwneud newidiadau i'w wasanaethau er mwyn addasu i ymddygiad gwylio sy'n newid ac er mwyn denu gwylwyr iau sy'n defnyddio gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio. Rydym wedi cymeradwyo cynigion y BBC i ddarparu cynnwys ar BBC iPlayer am gyfnod hirach. Mae wedi lansio ap BBC Sounds fel ffordd o wasanaethu gwrandawyr iau yn well gyda chynnwys sain.[16] Mae hefyd yn arloesi gyda'r ffordd mae'n rhyddhau ei gynnwys, ac mae'n gwneud cynnwys BBC Three yn fwy amlwg ar BBC iPlayer. Er enghraifft, roedd yr holl benodau yng nghyfres 1 (2018) a chyfres 2 (2019) *Killing Eve* ar gael ar BBC iPlayer yn syth ar ôl i raglen gyntaf y gyfres gael ei dangos ar BBC One. Mae wedi ychwanegu *Ru Paul's Drag Race UK* at BBC Three ar amser penodol bob wythnos er mwyn helpu i ddenu pobl ifanc at BBC iPlayer, ac er mwyn i bobl gael cyfle i rannu'r profiad â'i gilydd ar-lein. Hefyd fel rhan o hyn mae'r BBC wedi cyflwyno 'reilen' arbennig ar gyfer BBC Three i'r iPlayer.

Yn ogystal â chomisiynu rhaglenni penodol wedi'u hanelu at bobl ifanc, mae'r BBC hefyd yn ceisio gwneud ei raglenni hirsefydlog yn fwy deniadol i bobl ifanc drwy gyfrwng y straeon y mae'n credu fydd yn taro tant gyda nhw, a drwy sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu cynrychioli'n well ar y sgrin. Hefyd, dechreuodd y BBC ddarlledu rhaglenni BBC Three am 10.35pm ar BBC One dair noson yr wythnos. Ond, yn 2018/19 dim ond un rhaglen BBC Three am 10:35pm, *Abused by My Girlfriend,* lwyddodd i ddenu cyfran uwch na chyfartaledd yr amser ar gyfer pobl 16-24 oed (25% o gyfran wylio pobl ifanc 16-24 oed; o'i gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer yr amser, sef 16%). Roedd cyfran y gynulleidfa ymhlith pobl 16-34 oed yn 29%.[17]

Mae cynnwys unigryw sy'n apelio yn allweddol er mwyn ennyn diddordeb pobl ifanc. Mae *Doctor Who, The Apprentice, Bodyguard* a *Dynasties* i gyd yn enghreifftiau o raglenni yr oedd nifer fawr o bobl 16-24 oed wedi eu gwylio ar BBC One.[18]


Mae cynllun blynyddol 2019/20 y BBC hefyd yn gosod targedau ar gyfer mesur lefelau ymgysylltu a bodlonrwydd. Mae'r rhain yn cynnwys targed newydd i bobl 16-34 oed dreulio 6-7 awr gyda'r BBC bob wythnos ac i 90% o'r rhai dan 35 oed i fewngofnodi i un o'u cynnyrch ar-lein o leiaf unwaith yyr wythnos erbyn 2021/22. Byddwn yn monitro ei adroddiadau ar gynnydd o'i gymharu â'r targedau hyn. Er mwyn deall beth mae pobl ifanc sy'n ymwneud llai â'r BBC yn dymuno ei gael, mae'r BBC yn edrych yn rheolaidd ar ddata teledu, sain ac ar-lein ac yn gofyn am farn y gynulleidfa. Mae hefyd yn defnyddio'i is-bwyllgor 'Y Genhedlaeth Nesaf', sy'n cynnwys gweithwyr ifanc y BBC, i helpu i gyfrannu at gamau gweithredu a syniadau'r BBC er mwyn cyrraedd pobl ifanc.

**Amcangyfrif o gyfanswm munudau’r BBC bob dydd, pob unigolyn: 2017 v 2018**




Ffynonellau a modelau gan BARB, adroddiadau BARB TV player, RAJAR, comScore, data GfK SVOD a Touchpoints ar gyfer modelu PVR yn erbyn BBC iPlayer ac amcangyfrifon o bodlediadau’r BBC

**Amcangyfrif o gyfanswm munudau’r BBC bob dydd, pob unigolyn: 2017 v 2018**




Ffynonellau a modelau gan BARB, adroddiadau BARB TV player, RAJAR, comScore, data GfK SVOD a Touchpoints ar gyfer modelu PVR yn erbyn BBC iPlayer ac amcangyfrifon o bodlediadau’r BBC

## Mae’r amser y mae cynulleidfaoedd iau yn ei dreulio gyda'r BBC wedi gostwng eto

Roedd cyrhaeddiad y BBC ymhlith pobl ifanc wedi parhau i ostwng yn 2018, ac roedden nhw hefyd yn dal i dreulio llai o amser gyda’r BBC. Mae pobl 16-34 oed bellach yn treulio awr a 12 munud gyda'r BBC bob dydd (edrychwch ar y siart ar dudalen 11), sydd tua hanner yr amser y mae’r holl unigolion yn ei dreulio gyda’r BBC, sef dwy awr 33 munud bob dydd.[19] Am y tro cyntaf, gostyngodd cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog holl sianeli teledu’r BBC o dan 50% ymhlith pobl 16-24 oed. Mae’n hyd yn oed is ar gyfer dynion 16-24 oed, sef 46%.

Sianel y BBC sydd wedi’i hanelu at bobl ifanc yw BBC Three, ac mae ei chyrhaeddiad wedi haneru ers iddi symud ar-lein, wrth gymharu â’i blwyddyn lawn olaf o ddarlledu.[20] I’r gwrthwyneb i hynny, mae ITV wedi cael rhywfaint o lwyddiant yn dal gafael ar gynulleidfaoedd ifanc, yn enwedig drwy gynnwys ar ei sianel ddarlledu, ITV2.[21] Fodd

bynnag, mae'r BBC wedi dweud y bu cynnydd yn nifer y ceisiadau am raglenni BBC Three ar BBC iPlayer ar gyfer yr holl gynulleidfaoedd, o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd.[22]

Mae data hefyd yn dangos (edrychwch ar y siart ar dudalen 11) bod pobl rhwng 16 a 34 oed yn fwy tebygol o wylio cynnwys y BBC ar wasanaethau SVoD yn hytrach nag ar BBC iPlayer (4.7 munud y dydd o gynnwys y BBC ar SVoD, o'i gymharu â 2.5 munud y dydd ar BBC iPlayer ymhlith pobl 16-34 oed).

Mae hynny'n awgrymu bod sicrhau bod cynnwys y BBC ar gael yn eang ar wasanaethau maent eisoes yn eu defnyddio yn hollbwysig er mwyn cyrraedd y grŵp hwn.[23]

Mae Netflix yn cyrraedd bron i ddwy ran o dair o bobl ifanc 15-24 oed bob wythnos, mae YouTube yn cyrraedd 42%, ond dim ond 26% o'r grŵp oedran hwn mae BBC iPlayer yn eu cyrraedd, i lawr o 28% yn 2017. Mae proffil y gynulleidfa o'r 10 gwasanaeth fideo ar-alw sy'n cael eu defnyddio fwyaf yn dangos mai YouTube sydd â'r gynulleidfa ieuengaf (27% rhwng 15 a 24 oed), wedyn Netflix (23%) ac yna All4 (20%). Mae gogwydd hŷn i gynulleidfa wythnosol BBC iPlayer – dim ond 12% sydd rhwng 15 a 24 oed.

Mae cynnwys byw radio'r BBC yn cyrraedd tua hanner y bobl ifanc 15-24 oed, o'i gymharu ag wyth o bob deg ar gyfer yr holl gynnwys radio.[24] I'w gwrthwyneb i hynny, mae gorsafoedd masnachol cenedlaethol yn dod yn fwy poblogaidd ymhlith gwrandawyr iau, drwy fanteisio i'r eithaf ar frandiau sy'n bodoli'n barod a dilyn ffurf ar arddull rhestr chwarae.[25]

Lansiwyd BBC Sounds gyda'r nod o ddenu cynulleidfa iau at radio byw ac ar-alw yn ogystal â phodlediadau. Ym mis Mawrth 2019, fe ymwelodd 622k o oedolion â BBC Sounds. Roedd data ComScore ym mis Mawrth 2019 yn dangos bod 85% o ddefnyddwyr sy'n defnyddio BBC Sounds yn 35 oed neu'n hŷn.[26] Roedd ymchwil a gomisiynwyd gennym yn yr un mis ynghylch gwrandawyr podlediadau wythnosol wedi canfod bod y rheini sy'n defnyddio BBC Sounds ar gyfer podlediadau yn debygol o fod yn iau, gyda 44% ohonynt o dan 35 oed.[27]

Er bod cyrhaeddiad holl safleoedd ar-lein y BBC ymhlith pobl ifanc 18-24 oed yn sefydlog, mae'r amser mae pob ymwelydd yn ei dreulio bob dydd ar y safleoedd hynny wedi gostwng o 2 funud 43 eiliad i 2 funud. Mae gostyngiad wedi bod hefyd yn y nifer cyfartalog sy'n defnyddio'r prif safleoedd bob mis, fel BBC Sport a BBC iPlayer[28], a bellach llai na hanner y bobl ifanc rhwng 18 a 24 oed sy'n defnyddio safleoedd BBC News bob mis.

Ymhlith plant 12-15 oed, mae brand y BBC yn llai adnabyddus na Netflix a YouTube.[29]

### Mae'r BBC yn cael trafferth ennyn diddordeb cynulleidfaoedd iau mewn cynnwys newyddion, yn enwedig ar-lein

Er bod gwasanaethau newyddion ar-lein y BBC yn cyrraedd cynulleidfa eang ar hyn o bryd, mae'r dystiolaeth yn dangos mai pobl yn y grwpiau hŷn sy'n defnyddio'r gwasanaethau ar-lein fwyaf yn gyffredinol. Mae BBC News yn ymwybodol ers tro o'r her mae'n ei hwynebu o ran ennyn diddordeb pobl iau, sy'n cael gafael ar newyddion fwy a mwy drwy gyfryngau cymdeithasol a gwasanaethau cyd-gasglu newyddion, fel Apple News.

Canfu ein hadolygiad o gynnwys newyddion a materion cyfoes y BBC, pan fydd pobl yn cael gafael ar newyddion yn y ffordd yma, dim ond am gyfnod byr y byddan nhw'n ymgysylltu â'r cynnwys fel arfer. Mae hynny'n golygu mai dim ond pennawd neu baragraff byr y byddan

nhw'n ei ddarllen o bosibl cyn symud ymlaen. Maen nhw hefyd yn llai tebygol o fod yn ymwybodol o ffynhonnell y cynnwys newyddion.

Doedd gan rai o'r bobl ifanc roeddem ni wedi siarad â nhw ddim cysylltiad agos â'r BBC – dim ond "un o blith nifer" o ddarparwyr newyddion ar-lein oedd y BBC iddyn nhw.

Daeth ein hadolygiad i'r casgliad bod angen i gynnwys newyddion ar-lein y BBC wneud mwy i sefyll allan – neu bydd mewn perygl o golli ei enw da a'i statws fel llais dibynadwy. Bydd bod yn dryloyw am y ffordd mae'n delio â'r elfen hon yn helpu i ennyn ymddiriedaeth yn y BBC, felly rydym wedi argymell y dylai'r BBC gyhoeddi'r camau y mae'n eu cymryd i helpu pawb – yn enwedig pobl iau – i ddeall ac i ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas.

### Mae'r tueddiadau hyn yn her uniongyrchol i gynaliadwyedd hirdymor y BBC a'i allu i barhau i gyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus

Mae'n bosibl y bydd newidiadau'r BBC i'r llwyfannau a'r amserlenni yn cael effaith ar wella'r ymgysylltu â phobl ifanc, ond nid yw'n amlwg i ni eto fod hynny wedi cael llawer o effaith. Mae'n ymddangos bod yr her yn cynyddu, ac rydym yn pryderu y bydd cynaliadwyedd y BBC mewn perygl os na fydd ei strategaeth yn ddigon uchelgeisiol a ddim yn llwyddiannus, bydd ei gynaladwyedd o dan fygythiad. Mewn ymateb i'r adroddiad hwn, rydym wedi gofyn i'r BBC ddweud yn glir sut bydd yn cadw golwg ar y cynnydd yn yr elfen hon.

Oherwydd bod mwy o ddewis a chystadleuaeth gref yn y farchnad, mae risg amlwg na fydd plant a phobl ifanc yn ymgysylltu â'r BBC wrth iddynt fynd yn hŷn, yn wahanol i genedlaethau blaenorol. Fel rydym yn ei amlygu uchod, os nad yw pobl o'r farn bod y BBC yn rhan ganolog o'u harferion gwylio, mae'n bosibl y bydd yn anodd eu hannog i dalu ffi'r drwydded yn y dyfodol, a bydd hynny'n arwain at oblygiadau sylweddol i refeniw'r BBC. Er mwyn i'r BBC barhau i allu cyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus a thalu am gynnwys ar yr un lefel â heddiw, mae'n her y mae'n rhaid iddo roi sylw iddi ar unwaith.

Mae angen i'r BBC weithio'n galetach i gyrraedd pobl ifanc drwy greu cynnwys sy'n apelio iddynt, gan ei gwneud hi'n haws i bobl ifanc ddod o hyd i'r cynnwys hwnnw, a sicrhau ei fod ar gael yn syth ble bynnag maen nhw'n dymuno cael gafael arno. Mae cynulleidfaoedd iau bellach yn gallu cael gafael ar amrywiaeth eang o gynnwys ar sawl llwyfan a dyfais. Gall rhaglenni unigol ddenu cynulleidfaoedd, ond dydy'r gynulleidfa ddim o reidrwydd yn ffyddlon nac yn arbennig o hoff o set fechan o ddarparwyr fel yr oedd cenedlaethau blaenorol. Rydym yn bwriadu monitro'r elfen hon yn ofalus dros y 12 mis nesaf, a byddwn yn cysylltu â'r BBC i weld sut mae ei strategaeth yn dod yn ei blaen.

Er bod pobl 16-34 oed yn treulio llai o amser yn gwylio ac yn gwrando ar y BBC, maent yn dal i ganmol ei wasanaethau. Canfu ein gwaith ymchwil parhaus fod pobl ifanc 16-24 oed a phobl 25-34 oed yn rhoi sgôr debyg i gynulleidfaoedd eraill ar gyfer perfformiad y BBC. Mae argraff pobl 25-34 oed o berfformiad y BBC wedi gwella'n sylweddol ers 2017/18, yn arbennig o ran didueddrwydd y BBC a'i natur unigryw yn y maes teledu. Felly, yn ogystal â sicrhau ei gynaliadwyedd yn y dyfodol, mae'n hollbwysig ei fod yn ehangu ei apêl i bobl ifanc i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn wasanaeth cyffredinol a bod yr holl gynulleidfaoedd ar draws y wlad yn elwa o'r gwerth cyhoeddus y dylai cynnwys y BBC fod

yn ei ddarparu iddynt, a'i fod yn cyflawni ei gylch gwaith i wasanaethu pob cynulleidfa.

Rydym yn edrych ar y mater hwn yn ofalus drwy'r cynllun Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr. Yn amlwg, nid yw gwylwyr 16-24 oed yn grŵp homogenaidd. Maen nhw mewn gwahanol gamau yn eu bywyd, mae eu harferion gwylio yn wahanol, ac mae ganddyn nhw ddymuniadau gwahanol o ran cynnwys. Rydym yn bwriadu ystyried sut mae hyn yn berthnasol i'r math o gynnwys sy'n bwysig iddyn nhw, a beth mae ar gynulleidfaoedd iau ei eisiau gan ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus ar hyn o bryd, ac yn y dyfodol. Bydd ein gwaith ymchwil ar ddyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn ystyried yn benodol sut mae anghenion a buddiannau gwahanol oedrannau a grwpiau o gynulleidfaoedd yn cael eu bodloni.

**Mae 49% o gynulleidfaoedd yn sgorio Newyddion y BBC yn uchel (7-10) ar gyfer 'portread dilys o bobl fel fi'**

## Parhau i wella sut mae'r BBC yn cynrychioli ac yn portreadu cymdeithas y Deyrnas Unedig i gyd

**Mae nifer o gynlluniau ar waith gan y BBC i wella amrywiaeth ar y sgrin ac oddi ar y sgrin, ac mae'n cyhoeddi llawer iawn o ddata ar amrywiaeth.**

**Mae ein gwaith ymchwil yn dangos bod rhai grwpiau yn dal yn anfodlon â'r ffordd maent yn cael eu portreadu gan y BBC. Dylai'r BBC amlinellu sut mae'n gweithredu ar ganfyddiadau ein hadolygiad o gynrychiolaeth a phortreadu pobl a llefydd ar wasanaethau teledu'r BBC.**

**Rydym hefyd yn poeni am sut mae'r BBC yn adrodd ar amrywiaeth mewn sawl maes; yn benodol:**

1. **Yr amser mae wedi'i gymryd i baratoi adroddiad ar gydymffurfio â'i god ymarfer ar amrywiaeth**
2. **Manylder yr wybodaeth mae'n ei darparu wrth adrodd yn ôl am gynrychiolaeth a phortreadu**
3. **Mesur bodlonrwydd cynulleidfaoedd**
4. **Y ffordd mae'n cyflwyno ffigurau am ei weithlu**

**Gyda'i gilydd, mae'r elfennau hyn yn arwain at bryder cyffredinol ynghylch sut mae'r BBC yn bodloni ei ofynion amrywiaeth yn y Drwydded Weithredu. Mae hyn yn elfen allweddol i lwyddiant y BBC. Mae angen cynllun cadarn a thryloyw ar y BBC, sy'n egluro sut mae'n bwriadu sicrhau'r gwelliannau hyn.**

### Eleni mae ein gwaith ymchwil wedi dangos gwelliannau o ran argraffiadau rhai grwpiau, ond nid rhai eraill

Er bod ein gwaith ymchwil yn dangos bod argraffiadau rhai grwpiau o'r gynulleidfa ynghylch perfformiad y BBC o ran cynrychiolaeth a phortreadu yn is na'r cyfartaledd, mae wedi gwella ymhlith grwpiau eraill. (Gweler Diben Cyhoeddus 4 hefyd yn ein hadroddiad ar berfformiad).

Mae menywod 55 oed a hŷn yn dal i deimlo bod problemau o ran cynrychiolaeth a phortreadu, ac mae dynion 55 oed a hŷn hefyd yn rhoi sgôr is na'r cyfartaledd i'r BBC eleni ar gyfer portreadu, sy'n awgrymu bod problem ehangach o ran portreadu pobl hŷn. Mae pobl o grwpiau economaidd-gymdeithasol is yn dal i roi sgôr llai ffafriol i'r

BBC na'r cyfartaledd ar draws pob agwedd ar gynrychiolaeth a phortreadu, ac mae'r rheini yn y grwpiau economaidd-gymdeithasol uwch yn tueddu i fod yn fwy ffafriol tuag at y BBC yn gyffredinol o'i gymharu â chyfartaledd y Deyrnas Unedig.

Hefyd mae pobl yn yr Alban, pobl 65 oed a hŷn, yn enwedig pobl anabl yn y grŵp oedran hwn, yn dal i roi sgôr is na'r boblogaeth gyffredinol i'r BBC o ran cyflawni Diben Cyhoeddus 4.

I'r gwrthwyneb, mae dynion 16-34 oed yn fwy tebygol o feddwl bod y BBC yn cynnig amrywiaeth dda o raglenni sy'n cynnwys pobl yr un fath â nhw a lle maen nhw'n byw. Mae pobl anabl o dan 65 oed yn fwy cadarnhaol am sut mae'r BBC yn cyflawni'r Diben Cyhoeddus hwn eleni, yn ogystal â phobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig. Safbwyntiau mwy cadarnhaol ymysg y boblogaeth Asiaidd sy'n llywio hyn i raddau helaeth.

### Rydym yn pryderu am sut mae'r BBC yn adrodd ar ei amodau amrywiaeth

Dyma'r flwyddyn gyntaf i'r BBC orfod adrodd ar amrywiaeth i ni drwy nifer o amodau sydd wedi'u cynnwys yn y Drwydded Weithredu. Yn ei adroddiadau ei hun ar gydymffurfio â rheoliadau[30] dywedodd y BBC ei fod wedi bodloni pob un o amodau ei Drwydded Weithredu, ond nid oedd wedi cynnwys na chyfeirio at sut roedd wedi bodloni unrhyw rai o'r amodau yng nghyswllt amrywiaeth, portreadu a chynrychioli'r gynulleidfa. Rydym yn disgwyl gweld hyn yn cael ei gynnwys y flwyddyn nesaf. Hefyd rydym yn disgwyl i'r BBC ddatblygu ei ddull o adrodd yn ôl i ni yn unol â'i amodau amrywiaeth ac, mewn ymateb i'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn, amlinellu erbyn diwedd Mawrth 2020 sut bydd yn bodloni'r mater hwn yn fwy manwl y flwyddyn nesaf.

### Mae Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth y BBC yn adnodd pwysig i wella amrywiaeth wrth ddarlledu.

Mae'r Drwydded Weithredu hefyd yn mynnu bod y BBC yn sefydlu ac yn cydymffurfio â Chod Ymarfer Comisiynu, wedi'i gymeradwyo gan Ofcom, sy'n dweud yn glir sut mae'n ystyried amrywiaeth wrth gomisiynu cynnwys newydd. Ym mis Mawrth 2018, fe wnaethom gymeradwyo Cod Ymarfer y BBC, a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2018. Mae amod arall yn mynnu bod y BBC yn monitro ei fod yn cydymffurfio â'r cod ymarfer ac yn cyflwyno adroddiad blynyddol i Ofcom ar sut mae wedi cydymffurfio â'r cod yn ystod y Flwyddyn Ariannol flaenorol.

Rydym yn siomedig ei bod wedi cymryd cymaint o amser i'r BBC adrodd yn ôl ar yr amod hwn. Roeddem yn disgwyl i'r BBC adrodd yn ôl ar hyn ochr yn ochr â'i adroddiad blynyddol ym mis Gorffennaf, ond dim ond ar 4 Hydref y cawsom adroddiad y BBC. Byddwn yn ymgynghori ar ddiwygio'r Drwydded Weithredu er mwyn mynnu bod adroddiad ar gydymffurfio â'r cod yn cael ei gyflwyno ochr yn ochr â'i Adroddiad Blynyddol.

Mae'r ffaith fod y BBC wedi sôn am broblemau wrth gael gwybodaeth gyson a thystiolaeth ar gyfer ei adroddiad yn peri pryder i ni hefyd. Canfu nad oedd digon o dystiolaeth na deunyddiau ategol i fodloni'n llawn pob un o'r 50 o ofynion, ac roedd anghysonderau yn y gwaith adrodd a darparu tystiolaeth rhwng adrannau'r BBC. Mae'r BBC yn bwriadu canolbwyntio mwy ar wella hyn yn 2019/20.

Hefyd, wrth weithio gyda llunwyr cynnwys allanol i dynnu eu sylw at ei flaenoriaethau ar gyfer gwella amrywiaeth wrth gomisiynu, canfu'r BBC fod nifer o'r gofynion a oedd yn ymwneud â llunwyr cynnwys allanol yn dal i

gael eu datblygu. Roedd yn galonogol clywed bod y BBC yn parhau i gymryd camau ac yn gweithio'n agos gyda llunwyr cynnwys i sicrhau eu bod yn ymgysylltu'n llawn ac yn cyflawni'r cod.

Mae adroddiad y BBC yn rhoi crynodeb o weithgareddau'r BBC yn erbyn y pum egwyddor y mae wedi'u cyflwyno yn ei god ymarfer, beth mae'r BBC wedi'i ddysgu o flwyddyn gyntaf y cod, a beth yw'r camau nesaf. Wrth iddo grynhoi ei weithgareddau, rydym yn credu y gallai'r BBC fod yn gliriach am eu graddfa, eu canlyniadau a sut maen nhw'n dangos cynnydd wrth gymharu ag arferion comisiynu cyn i'r cod fod ar waith.

Roedd y BBC wedi dweud bod 33 o'r 50 o ofynion yn y cod ymarfer wedi'u cwblhau'n llawn yn y flwyddyn gyntaf. Gan fod y BBC yn gorfod monitro ei gydymffurfiaeth â'i God Ymarfer a rhoi adroddiad blynyddol i Ofcom, rydym ni'n credu y dylai'r BBC ddefnyddio'r cod yn barhaus fel adnodd pwysig i wella amrywiaeth wrth ddarlledu. Rydym yn disgwyl i'r BBC adrodd ar bob un o'r gofynion hyn mewn adroddiadau yn y dyfodol.

## Cynrychiolaeth a Phortreadu

Er mwyn dangos ei fod yn cydymffurfio ag amodau'r Drwydded Weithredu, rydym wedi mynnu bod y BBC yn sicrhau bod ei adroddiadau'n gwahaniaethu'n glir rhwng cynrychiolaeth a phortreadu, sy'n ddau fater cwbl wahanol. Roeddem wedi nodi yn y Drwydded Weithredu fod "cynrychiolaeth" yn golygu i ba raddau y mae pobl a nodweddion yn ymddangos, a bod "portread" yn golygu'r ffyrdd y caiff y bobl a'r cymeriadau hyn eu darlunio. Nid oedd ymateb cychwynnol y BBC i ni yn gwahaniaethu'n glir rhwng y ddau.

Er ei fod wedi cyflwyno rhagor o wybodaeth ynghylch sut mae'n ymdrin â chynrychiolaeth a phortreadu ers hynny, byddai'n dal yn gallu gwneud mwy. Rydym yn disgwyl gweld y BBC yn adrodd yn erbyn yr amodau sy'n ymwneud â chynrychiolaeth a phortreadu ar wahân, yn ôl yr holl is-amodau perthnasol. Nid yw'r BBC wedi cyfeirio yn ei dystiolaeth at fodloni'r amod hwn yn ei God Ymarfer (gweler uchod), sydd wedi cael ei ddylunio i sicrhau gwell cynrychiolaeth a phortreadu.

Yn ei adroddiad blynyddol ei hun, mae'r BBC wedi adrodd yn ôl ar ddata ei arolwg, sy'n dangos argraffiadau cynulleidfaoedd ynghylch pa mor effeithiol yw'r BBC am adlewyrchu 'pobl fel nhw' neu'r 'rhan o'r Deyrnas Unedig lle maen nhw'n byw'. Mae'r BBC yn credu bod y data yma'n cynnig gwybodaeth am farn rhai cynulleidfaoedd yn y Deyrnas Unedig ynghylch y ffordd mae'r BBC yn eu portreadu. O ran cynrychiolaeth, mae'r BBC wedi adrodd yn ôl ar ei ddata gwirioneddol ac ymddangosiadol ynghylch cynrychiolaeth drwy ddata Diamond y Rhwydwaith Amrywiaeth Creadigol.[31] Ond, dim ond 38% o'r holl oriau rhwydwaith sy'n cael eu cyfleu yn y data yma, a dim ond 29% o'r rheini y gofynnwyd iddynt gymryd rhan yn yr arolwg oedd wedi ymateb.

Rydym yn disgwyl i'r BBC ddarparu tystiolaeth fwy gwerthfawr o lawer ynghylch sut bydd yn cynrychioli ac yn portreadu cymunedau amrywiol y Deyrnas Unedig yn y dyfodol. Fel rhan o hyn, dylai ddweud hefyd sut mae'n mynd i'r afael â'r pryderon yn ein hadolygiad o gynrychiolaeth a phortreadu (gweler isod).

### Mesur bodlonrwydd cynulleidfaoedd

Un o amodau Trwydded Weithredu'r BBC yw'r gofyn iddo adrodd i ni ar gynulleidfaoedd nad ydynt yn fodlon â pherfformiad y BBC o ran cynrychioli, portreadu a gwasanaethu cynulleidfaoedd amrywiol. Rydym yn bryderus nad yw methodoleg y BBC ar gyfer adnabod grwpiau o gynulleidfaoedd anfodlon yn ei alluogi i adnabod grwpiau nad yw'n eu

gwasanaethu'n ddigonol. Drwy ddefnyddio'r dull gweithredu 'bodlonrwydd net' (% sy'n fodlon llai % sy'n anfodlon), mae'r BBC wedi dweud wrthym nad oes ganddo unrhyw gynulleidfaoedd anfodlon, er mai ychydig dros hanner y bobl sy'n mynegi bodlonrwydd cadarnhaol â'r ffordd maen nhw'n cael eu hadlewyrchu gan y BBC yn aml iawn. Mae data'r BBC ei hun yn dangos bod mwy nag un o bob pump o oedolion yn y Deyrnas Unedig yn credu nad yw'r BBC yn darparu cynnwys a gwasanaethau'n effeithiol, sy'n adlewyrchu'r 'rhan o'r Deyrnas Unedig lle rydw i'n byw' ac yn 'adlewyrchu pobl fel fi', er bod rhywfaint o amrywiaeth ymysg is-grwpiau o'r gynulleidfa.[32]

Mae hyn yn adlewyrchu ein data ein hunain ar farn cynulleidfaoedd, sy'n dangos bod rhai cynulleidfaoedd yn teimlo nad ydynt yn cael eu cynrychioli neu eu portreadu cystal ar draws gwasanaethau'r BBC. Roedd diffyg amrywiaeth o ran y straeon newyddion a oedd yn cael sylw gan y BBC, a'r cyflwynwyr ar y sgrin, hefyd yn bryder cryf a godwyd gan rai grwpiau cynulleidfa a gymerodd ran yn ein hadolygiad o gynnwys newyddion a materion cyfoes y BBC. Felly, nid ydym yn credu y gall y BBC sicrhau ei hun ei fod yn cyflawni gofynion Diben Cyhoeddus 4 wrth ddefnyddio'r fethodoleg hon.

Mae ein gwaith ymchwil yn dangos bod argraffiadau o'r BBC yn dal yn is na'r cyfartaledd ymysg rhai grwpiau; pobl o grwpiau economaidd-gymdeithasol is, pobl dros 65 oed, yn enwedig pobl anabl yn y grŵp oedran hwn, ac mae pobl yn yr Alban yn dal i roi sgôr llai ffafriol i ddarpariaeth y BBC na'r boblogaeth drwyddi draw. Wrth amlinellu ei gynllun mewn ymateb i'r pryderon rydym wedi'u nodi yn yr adroddiad hwn, rydym ni eisiau i'r BBC egluro'n benodol beth mae'n ei wneud i wella bodlonrwydd cynulleidfaoedd ymysg y grwpiau hyn.

Rydym yn disgwyl i'r BBC i edrych et oar sut mae'n mesur bodlonrwydd cynulleidfaoedd, ac adrodd ar unrhyw gamau dilynol y bydd yn eu cymryd i wella bodlonrwydd cynulleidfaoedd ymhlith unrhyw grwpiau anfodlon y mae wedi eu nodi erbyn diwedd Mawrth 2020. Byddwn yn ymgynghori ar ddiwygio'r Drwydded Weithredu os bydd angen.

## Adroddiadau ar amrywiaeth gweithlu'r BBC

O dan y Drwydded Weithredu, mae gofyn i'r BBC fonitro ac adrodd ar amrywiaeth yr holl staff a gyflogir mewn cysylltiad â'r gwasanaethau cyhoeddus. Wrth gydymffurfio â'r amod hwn, mae'r BBC wedi defnyddio ei Adroddiad Gwybodaeth am Gydraddoldeb ("EIR") a gyhoeddwyd fel rhan o'i adroddiad blynyddol, ac mae'n darparu llawer iawn o ddata am amrywiaeth.[33] Er nad adroddiad i Ofcom yw'r Adroddiad Gwybodaeth am Gydraddoldeb, rydym ni o'r farn ei fod yn darparu llawer o'r manylion angenrheidiol er mwyn bodloni gofynion yr amod. Nid yw'n cynnwys gwybodaeth am fath o swydd na lefel swydd gweithwyr y BBC sy'n cael eu cyflogi yng nghyswllt y gwasanaethau cyhoeddus – mae'r BBC wedi darparu'r wybodaeth hon i ni ar wahân.

Mae'r BBC yn cyhoeddi ffigurau a chanrannau sy'n seiliedig ar nifer y gweithwyr sydd wedi rhoi eu data amrywiaeth, yn hytrach na'r gweithlu cyfan. Drwy beidio â chynnwys gweithwyr nad ydynt wedi cyflwyno eu data amrywiaeth, dim ond data ar gyfer is-set o'r gweithlu cyfan y mae'r BBC yn ei ddarparu. Petai'n adrodd ar y gweithlu cyfan yn lle hynny, byddai darlun mwy cywir a mwy tryloyw o amrywiaeth gweithlu'r BBC

drwyddo draw yn cael ei gyflwyno. Yn y dyfodol, byddwn yn gofyn i'r BBC ddarparu gwybodaeth i ni ar ffurf benodol er mwyn ein galluogi ni i gyfrifo canrannau yn erbyn y gweithlu cyfan, yn unol â'n hadroddiadau ar Amrywiaeth a Chydraddoldeb (edrychwch ar dudalen 20), a byddwn yn cyhoeddi hyn fel rhan o'n Hadroddiad Blynyddol y flwyddyn nesaf. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r BBC ar wella tryloywder a chysondeb y broses o adrodd yn ôl ar amrywiaeth ei weithwyr.

### Byddwn yn edrych yn fwy manwl ar amrywiaeth y bobl sy'n gwneud rhaglenni'r BBC

Fel rydym wedi'i nodi o'r blaen, rydym yn credu bod amrywiaeth y gweithluoedd sy'n creu cynnwys y BBC yn hollbwysig. Mae BBC Studios a BBC Worldwide wedi uno, ac mae hyn wedi arwain at lai o dryloywder mewn adroddiadau am amrywiaeth BBC Studios yn y Deyrnas Unedig. Yn sgil hynny, mae amrywiaeth yn llai amlwg mewn cynyrchiadau. Byddwn yn edrych ar sut gallwn ni sicrhau mwy o eglurder i hyn.

### Ein hadolygiad o gynrychiolaeth a phortreadu

Y llynedd, fe wnaethom adolygu sut mae gwasanaethau teledu'r BBC yn cynrychioli ac yn portreadu cymunedau amrywiol y Deyrnas Unedig.[34] Dangosodd ein hadolygiad fod dilysrwydd yn golygu mwy na dim ond pwy rydym yn ei weld ar y sgrin. Gall pwy sydd y tu ôl i'r llenni ddylanwadu ar ddilysrwydd hefyd. Roedd pobl yn gallu synhwyro pan nad oedd y rheini a oedd yn creu'r cynnwys yn dod o'r un cefndir â'r rheini oedd ar y sgrin. Mae'r BBC wedi cydnabod ei bod yn bwysig gwella'r gynrychiolaeth o'r rheini sy'n gweithio oddi ar y sgrin, yn ogystal â'r rheini sydd ar y sgrin. Roedd data y llynedd gan Diamond y Rhwydwaith Amrywiaeth Creadigol (CDN) yn dangos mai pobl anabl sy'n wynebu'r heriau mwyaf sylweddol o ran gwneud gyrfa yn y diwydiant teledu. I fynd i'r afael â'r rhwystrau hyn mae'r BBC, gan gydweithio â'r Rhwydwaith Amrywiaeth Creadigol a phartneriaid eraill, wedi lansio 'Doubling Disability' – cynllun sy'n ceisio dyblu'r ganran o bobl anabl sy'n gweithio ym myd teledu yn y Deyrnas Unedig erbyn 2020. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys rhaglen ymchwil i ddod o hyd i'r rhwystrau rhag cyflogaeth, ac atebion y gellir eu rhannu ar draws y diwydiant.

Yn ein hadolygiad y llynedd, fe wnaethom ganfod bod y BBC yn gwneud yn well o ran cynrychioli a phortreadu cymysgedd ehangach o bobl, ond bod ganddo lawer mwy i'w wneud yng nghyswllt cynulleidfaoedd penodol a oedd yn teimlo eu bod yn cael eu tangynrychioli neu'n cael eu portreadu mewn ffordd annilys. Er enghraifft, teimlwyd bod cynrychiolaeth o fenywod hŷn yn gyfyngedig i is-set o rolau a genres, ac roedd rhai pobl yn teimlo bod cynnwys y BBC yn adlewyrchu bywydau grwpiau economaidd-gymdeithasol uwch yn amlach na grwpiau is. Roedd eraill, fel pobl anabl a phobl o gefndir lleiafrifoedd ethnig, yn mynegi pryderon am gael eu cynrychioli mewn ffyrdd un dimensiwn, annilys neu ystrydebol. Er bod y BBC i weld yn cymharu'n dda â darlledwyr eraill o ran cynrychioli a phortreadu'r gwledydd a'r rhanbarthau, roedd awydd iddo wneud mwy, yn arbennig ynghylch cynrychioli'r Deyrnas Unedig y tu allan i'w phrif ddinasoedd. Roedd teimlad bod y portread o bobl o wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig yn dibynnu ar stereoteipiau weithiau.

Nid yw'r BBC wedi dweud yn glir sut mae'n rhoi sylw i'r pryderon a nodwyd yng nghanfyddiadau ein hadolygiad o gynrychiolaeth a phortreadu. Wrth ymateb i'r adroddiad hwn, dylai fod yn fwy penodol ynghylch sut mae'n gweithredu i wella'r

ffordd mae'n portreadu holl gynulleidfaoedd gwledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig.

### Mae'r BBC yn derbyn bod angen iddo weithio hyd yn oed yn galetach dros ei holl gynulleidfaoedd

Yn ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2018/19, mae'r BBC yn cydnabod bod angen iddo gyrraedd ac adlewyrchu holl gymunedau'r Deyrnas Unedig i'r wlad.[35] Mae ei waith ymchwil ei hun ar ymgysylltu â'r gynulleidfa, fel sy'n cael ei nodi yn ei adroddiad blynyddol, yn egluro bod rhai cynulleidfaoedd du, cynulleidfaoedd iau a'r rheini o'r gwledydd yn pryderu am y ffordd maen nhw'n cael eu portreadu. Maen nhw'n credu y gallent gael eu cynrychioli a'u portreadu'n amlach, yn fwy dilys ac mewn ffordd fwy cynnil.[36]

### Camau gweithredu'r BBC er mwyn gwella amrywiaeth ar y sgrin ac oddi ar y sgrin

Mae'r BBC wedi rhoi mentrau fel prosiect 50:50 ar waith ar y sgrin er mwyn annog cynhyrchwyr i ystyried cyfran y gwesteion, y cyfranwyr a'r arbenigwyr sy'n fenywod ar raglenni newyddion, materion cyfoes a rhaglenni eraill sy'n trafod pynciau amserol, drwy ddadansoddi data a chystadleuaeth fewnol. Mae'r fenter hon wedi bod yn llwyddiannus dros ben, ac mae'n dal yn llwyddiannus.

Cafodd y prosiect ei lansio ym mis Ionawr 2017 ar gyfer un rhaglen yn unig, sef '*Outside Source*'. Erbyn mis Mawrth 2019 roedd dros 400 o dimau'r BBC wedi ymuno â'r prosiect, ac erbyn mis Ebrill 2019 roedd y ffigur hwn wedi cyrraedd 500. Ar draws y prosiect cyfan, roedd 57% o'r timau a oedd wedi adrodd yn ôl ym mis Ebrill 2019 wedi cyrraedd y targed 50% ar gyfer cynrychiolaeth o fenywod yn eu cynnwys. Roedd y ffigur hwn yn codi i 62% ar gyfer y timau a oedd wedi ymrwymo i 50:50 am chwe mis neu fwy, ac i 74% ar gyfer y grŵp a oedd wedi bod yn monitro data ers 12 mis neu fwy. O ran argraffiadau'r gynulleidfa, roedd un o bob tri o'r ymatebwyr yn dweud eu bod wedi sylwi ar fwy o fenywod ar raglenni'r BBC o'i gymharu â blwyddyn yn ôl. Cafodd y rhaglenni a oedd wedi cyrraedd y targed 50:50 ym mis Mai eu henwi.[37] Roedd y rhain yn cynnwys *The Andrew Marr Programme, BBC Breakfast, The One Show, Politics Live, Saturday Live* ar Radio 4 ac *Outside Source*.

Yn ei adroddiad blynyddol, roedd y BBC wedi sôn am raglenni fel *Killing Eve, Black Earth Rising* a *Doctor Who* a'r fenyw gyntaf i gyflwyno rhaglen frecwast Radio 2, sef Zoe Ball, fel enghreifftiau o gynrychioli menywod yn well mewn rolau arweiniol. Fe wnaeth gyfeirio hefyd at gyfres o raglenni Big British Asian Summer, a oedd yn adrodd straeon a phrofiadau Asiaid Prydeinig. Mae'r BBC wedi darlledu'r rhaglen ddogfen *Black and Scottish,* sy'n edrych ar straeon amrywiaeth o bobl ddu o'r Alban sy'n dod o gefndiroedd gwahanol ac amrywiol. Yn ddiweddar, cafodd y BBC ei enwi'n 'ddarlledwr y flwyddyn' yng ngwobrau blynyddol y Rhwydwaith Amrywiaeth Creadigol. Mae'r wobr yn dathlu gwaith brwd ac amlwg Darlledwr o ran yr agenda amrywiaeth. Hefyd, mae'r BBC wedi penodi June Sarpong fel Cyfarwyddwr Amrywiaeth Ddiwylliannol cyntaf y BBC. Cylch gwaith y Cyfarwyddwr yw gwella portread y BBC o dalent ar yr awyr a chomisiynu talent o'r fath.[38]

Mae gan y BBC dargedau ar gyfer gweithlu 2020, ac er ei fod wedi gwneud cynnydd tuag at gyflawni'r targedau hyn, gyda llai na blwyddyn i fynd, mae gwaith i'w wneud o hyd. Mae'r BBC yn ymwybodol o'r her yn yr elfen hon. Y tu hwnt i'w dargedau gweithlu a'i *Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant* – a gyhoeddwyd yn 2016, ac y mae'n parhau i

weithio tuag ati – mae'r BBC wedi cyhoeddi pum adroddiad ar wahân dros y flwyddyn ddiwethaf, sy'n rhoi sylw i elfen wahanol o amrywiaeth. Roedd yr adroddiadau hyn yn adolygu diwylliant a datblygiad y rheini o gefndiroedd amrywiol yn y BBC, gyda'r nod o wneud y BBC yn fwy cynhwysol. Cafodd dros 125 o argymhellion eu datblygu yn sgil yr adolygiadau hyn. Mae'r BBC wedi dweud wrthym fod 50% o'r argymhellion hyn wedi'u cwblhau bellach a bod 48% yn dal i fynd rhagddynt. Gyda chynifer o argymhellion, gellid cwestiynu a yw pob un yn ymarferol ac yn gallu cael eu gweithredu. Gan fod cymaint o argymhellion bydd gofyn cael digon o adnoddau hefyd, i wneud yn siŵr yn gyntaf bod pob un yn cael eu rhoi ar waith ac, yn bwysicach byth, bod eu heffaith yn cael ei gwerthuso.

## Canfyddiadau Ofcom yn sgil ein hadroddiadau cydraddoldeb ac amrywiaeth

Yn gynharach eleni, fe wnaethom gyhoeddi ein hadroddiadau cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn darlledu ar y radio[39] a'r teledu[40].

**Teledu:** Er mwyn helpu i adlewyrchu bywydau amrywiol pobl ledled ein cymunedau, ein gwledydd a'n rhanbarthau, rhaid i weithluoedd darlledwyr gynrychioli cymdeithas y Deyrnas Unedig wrth iddi newid.

Mae canfyddiadau ein hadroddiad diweddar ar amrywiaeth ym maes darlledu teledu yn dweud yn glir, er bod gwelliannau wedi'u gwneud yn ddiweddar o ran datblygu cynrychiolaeth a chynhwysiant ar draws elfennau penodol yng ngweithlu'r BBC yn sgil nifer o gynlluniau wedi'u targedu, mae'r gwelliannau mewn meysydd eraill wedi bod yn arafach. Er enghraifft, mae'r cynnydd o ran cynrychioli pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, yn arbennig ar lefelau uwch, yn ogystal â menywod ar lefelau uwch, wedi bod yn llai sylweddol.

Rydym yn cydnabod bod y BBC yn arwain y ffordd o ran casglu data am amrywiaeth y gweithlu yn gyffredinol, ac felly y dylai fod. Dylai hyn ei alluogi i dargedu ymyriadau'n well er mwyn gwella cynrychiolaeth ym mhob elfen o'i weithlu. Er hynny, mae rhywfaint o fylchau data o hyd yn ei ddata am y gweithlu. Mae'r BBC ar y blaen i'r pedwar prif ddarlledwr teledu arall o ran casglu data am anabledd, a data sy'n ymwneud ag amrywiaeth gymdeithasol ac economaidd, ond mae ar yr un lefel â nhw o ran casglu data am oedran a rhywedd.

Yng nghyswllt casglu data am grwpiau hiliol, mae ar yr un lefel â Channel 4 a Viacom ac mae ar yr un lefel â Channel 4 o ran casglu data am grefydd/cred. Ond, mae'r BBC y tu ôl i Channel 4 o ran casglu data am gyfeiriadedd rhywiol.

**Radio:** Gan mai'r BBC yw'r cyflogwr mwyaf yn y diwydiant radio, ac oherwydd yr arian cyhoeddus mae'n ei dderbyn a'i gylch gwaith, mae'n bwysig bod BBC Radio yn gosod esiampl drwy sicrhau bod ei weithwyr yn llwyr gynrychioli amrywiaeth y Deyrnas Unedig drwyddi draw. Er bod cryn dipyn i'w wneud o hyd i fod yn gynrychioliadol o boblogaeth y Deyrnas Unedig, mae BBC Radio ar y blaen o'i gymharu â'r sector radio masnachol o ran pennu targedau amrywiaeth ac o ran cael cynrychiolaeth amrywiol ymhlith y gweithwyr.

## Sicrhau bod ei arferion gwaith yn dryloyw

**Nid yw'r ffordd y mae'r BBC yn cyfleu ac yn esbonio penderfyniadau ei Uned Cwynion Gweithredol yn dryloyw. Rydym yn rhoi sylw i ddiffyg tryloywder y BBC yn yr elfen hon fel mater brys.**

**Mae angen i'r BBC fod yn fwy agored o lawer i ymgysylltu â thrydydd partïon i gyflawni ei ddyletswydd i ystyried effaith ei weithgareddau ar gystadleuaeth. Bydd hyn yn helpu'r BBC i ystyried effaith ei newidiadau arfaethedig i wasanaethau ar sector darlledu'r Deyrnas Unedig, a gallai leihau ymyrraeth reoleiddiol. Dylai amlinellu ei gynlluniau yn ei gynllun blynyddol yn fwy manwl, ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch ei gylch gwaith cyfan.**

**Ni lwyddodd y BBC i egluro'n gyhoeddus pam ei fod wedi cael gwared ar ei ymrwymiad, a oedd yn arwain at gynnal y llinellau busnes presennol â BBC Studios. Rydym yn ystyried a yw'r llinellau busnes newydd yn ddigon tryloyw i Ofcom ac i randdeiliaid, a byddwn yn ymgynghori ar hynny.**

### Mae diffyg tryloywder ym mhroses gwynion golygyddol y BBC

Mae tryloywder yn bwysig er mwyn i'r cyhoedd gael hyder yng ngwaith ac yn effeithiolrwydd proses gwynion y BBC. Er ein bod ni'n ystyried bod proses BBC yn Gyntaf yn gweithio'n dda ar y cyfan (edrychwch ar dudalen 51), mae achos diweddar wedi peri pryder sylweddol i ni nad yw'r ffordd y mae Uned Cwynion Gweithredol y BBC yn cyhoeddi ei phenderfyniadau yn rhoi tryloywder i'r rhan hon o'r broses gwynion a'r rhesymau pam ei bod yn gwneud y penderfyniadau y mae'n eu gwneud o ran cydymffurfio â gofynion perthynasol Canllawiau Golygyddol y BBC sy'n adlewyrchu Cod Darlledu Ofcom.

Cafodd Ofcom 18 o gwynion am raglen *BBC Breakfast* a ddarlledwyd ar 17 Gorffennaf 2019. Roedd y rhan fwyaf o'r rheini a gyflwynodd gŵyn yn gwrthwynebu'r ffaith bod Uned Cwynion Gweithredol y BBC, ar 26 Medi 2019, wedi cadarnhau'n rhannol gŵyn am y rhaglen o dan Ganllawiau Golygyddol y BBC ar y sail ei bod yn torri gofynion didueddrwydd y BBC.  Yn dilyn beirniadaeth gyhoeddus, fe wnaeth Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC wrthdroi canfyddiad yr Uned Cwynion Gweithredol ar 30 Medi 2019. Cafwyd gwrthwynebiad gan ddau berson i hynny.

Roedd Ofcom wedi asesu'r rhaglen o dan reolau didueddrwydd dyladwy'r Cod Darlledu. Ar ôl ystyried holl ffactorau'r cyd-destun yn ofalus, nid oeddem o'r farn y byddai'r rhaglen wedi torri'r rheolau didueddrwydd dyladwy. Felly, nid oeddem o'r farn ei bod yn codi materion y dylai Ofcom ymchwilio iddynt. Gan fod llawer o bryder yn gyhoeddus ynghylch yr achos hwn, fe wnaethom benderfynu ei bod o fudd i'r cyhoedd i ni gyhoeddi rhesymau Ofcom dros asesu'r rhaglen,[41] er mwyn rhoi arweiniad i'r BBC ac i ddarlledwyr eraill.

Mewn llythyrau,[42] roedd y BBC yn cwestiynu a oedd asesu'r rhaglen hon yn dod o fewn cylch gwaith Ofcom o dan Siarter a Chytundeb y BBC. Mae'n ddyletswydd ar Ofcom i weithredu'n dryloyw, felly fe wnaethom gyhoeddi'r ohebiaeth ochr yn ochr â'n hasesiad.

Ar y cyfan, rydym o'r farn bod yr achos hwn yn dangos y dylai'r BBC fod yn fwy tryloyw ynghylch y rhesymau dros ei ganfyddiadau ar gydymffurfio â gofynion perthynasol Canllawiau Golygyddol y BBC sy'n adlewyrchu Cod Darlledu Ofcom.[43] Nid yw Uned Cwynion

Gweithredol y BBC yn cyhoeddi'r rhesymau llawn dros ei phenderfyniadau, ac nid oedd wedi gwneud hynny yn yr achos hwn. Yn yr un modd, ni chafodd rhesymau'r Cyfarwyddwr Cyffredinol dros wrthdroi canfyddiad yr Uned Cwynion Gweithredol eu cyhoeddi gan y BBC. Byddwn yn rhoi sylw i ddiffyg tryloywder y BBC yn yr elfen hon fel mater brys.

## Mae angen i'r BBC fynd ati i ymgysylltu mwy â thrydydd partïon

Y llynedd, fe ddywedom fod angen i Fwrdd y BBC wneud mwy i sicrhau bod ei arferion gwaith yn dryloyw, yn arbennig wrth asesu ei effaith ar gystadleuaeth. Unwaith eto eleni, rydym wedi gweld enghreifftiau o achosion lle nad yw'r BBC wedi rhoi digon o ystyriaeth i'r angen i ymgysylltu'n allanol er mwyn asesu'n llawn oblygiadau ei newidiadau i drydydd partïon.

Er enghraifft, datblygodd y BBC ei gynlluniau ar gyfer BBC iPlayer a dod i'r casgliad nad oeddent yn sylweddol heb drafod hynny â thrydydd partïon. Fodd bynnag, roeddem ni o'r farn y gallai'r cynigion effeithio ar gystadleuaeth ac y dylai'r cyhoedd gael craffu arnynt.

Hefyd, mynegodd nifer o randdeiliaid bryderon i ni yn eu hymatebion i'n hymgynghoriad cyntaf ar y newidiadau arfaethedig i BBC iPlayer, eu bod yn anfodlon â'r broses ymgynghori ar gyfer Prawf Budd y Cyhoedd y BBC a gynhaliwyd yn gynnar yn 2019. Roedden nhw'n cwyno nad oedd digon o fanylion am natur a graddfa'r Cynigion yn ymgynghoriad Prawf Budd y Cyhoedd y BBC, ac nad oedd yn cynnwys digon o wybodaeth iddyn nhw allu ymateb yn briodol.

Ar ben hynny, mae'r BBC wedi gwneud newidiadau i'r llinellau busnes[44] y mae'n eu cynnal ac yn adrodd arnynt yn BBC Studios. Yn ddiweddarach, tynnodd y BBC ei ymrwymiad gwirfoddol yn ôl o ran y byddai llinellau busnes yn y BBC Studios newydd yn gyson â'r rhai a oedd ar waith cyn i'w weithgareddau cynhyrchu gael eu huno â BBC Worldwide ym mis Mawrth 2018.[45]

Effaith hyn oedd cyfuno'r pum llinell busnes blaenorol yn ddau (yn cynnwys uno gweithgareddau cynhyrchu a dosbarthu), gan leihau manylder yr adroddiadau ar gyfer BBC Studios. Ni wnaeth y BBC ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch effaith cael gwared ar ei ymrwymiad, a dim ond eglurhad arwynebol am y rhesymau dros y newid a gyhoeddwyd gan y BBC.

Fel rhan o'n hadolygiad o BBC Studios, byddwn yn ystyried a yw'r llinellau busnes yn ddigon tryloyw i Ofcom a rhanddeiliaid o ran perfformiad y gwahanol weithgareddau o fewn BBC Studios. Bydd hyn yn cynnwys a ddylai fod unrhyw newidiadau i'r gofynion masnachu a gwahanu a byddwn yn cyhoeddi ein safbwyntiau, er mwyn rhoi cyfle i randdeiliaid gyflwyno sylwadau, fel mater o flaenoriaeth yn yr adolygiad hwn.

## Mae'n debygol y bydd diffyg ymgysylltu yn arwain at rôl fwy ymwthiol i Ofcom

Yn unol â'r Siarter, mae gofyn i'r BBC roi sylw penodol i effaith ei weithgareddau ar gystadleuaeth, a cheisio osgoi effeithiau niweidiol ar gystadleuaeth nad ydynt yn angenrheidiol er mwyn cyflawni'r Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus yn effeithiol.[46] Roedd cynllun blynyddol diweddaraf y BBC yn cyfeirio at wasanaeth lefel uchel a newidiadau yr hoffai eu gwneud i'r amserlen. Er mwyn deall effaith y newidiadau hyn a newidiadau eraill yn llawn, a'u heffeithiau posibl ar gystadleuaeth, mae angen iddo ymgysylltu'n agored ac yn adeiladol â phartïon sydd â diddordeb, a rhoi

sylw i'w pryderon am effeithiau posibl ar y farchnad.

Er ei bod yn bosibl y byddwn yn cyrraedd yr un farn â'r BBC ynghylch cynnig yn y pen draw, mae angen proses dryloyw a thrwyadl sy'n rhoi cyfle i ystyried safbwyntiau'r partïon y mae hyn yn effeithio arnynt.

Rydym yn cydnabod y gallai fod yn anodd i'r BBC rannu cynlluniau yn gynnar yn y broses cyn i Fwrdd y BBC wneud penderfyniad terfynol. Ond bydd ymgysylltu'n gynnar â phartïon y gallai hyn effeithio arnynt, gan egluro y gall cynlluniau newid, yn galluogi'r partïon i fynegi pryderon posibl yn gynharach ac, os bydd yn briodol, yn galluogi'r BBC i roi sylw iddynt tra bydd y cynlluniau'n dal i gael eu llunio. Mae'r ymgysylltu hwn yn helpu i hwyluso'r broses reoleiddio, ac mae'n bosibl y bydd yn arwain at lai o ymyrraeth gan Ofcom hefyd. Yn ei dro, drwy beidio ag ymgysylltu'n frwd ar yr elfen hon, mae perygl y bydd y BBC yn ymestyn y broses reoleiddio, a byddai hynny'n arwain at rôl fwy ymwthiol i Ofcom.

Bydd tuedd tuag at fod yn dryloyw yn ei holl weithgareddau yn meithrin hyder allanol bod y BBC yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau rheoleiddiol, ac o ran y ffordd mae'n cyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus. Bydd ymgysylltu'n frwd â'r diwydiant ar newidiadau arfaethedig i wasanaethau'r BBC yn galluogi'r BBC i gyflawni'r ddyletswydd effaith ar y farchnad sydd ganddo yn y Siarter,[47] ac yn ei helpu i ddeall yn well yr effaith y gall ei weithgareddau ei chael ar gystadleuaeth a chynulleidfaoedd.

## Rydym wedi gweld enghreifftiau o'r BBC yn gweithio'n well ar rannu ei gynlluniau ag Ofcom, ond gallai gyflwyno gwybodaeth yn gliriach

Mae'r BBC wedi cydweithio'n adeiladol ag Ofcom ar rai o'i gynlluniau i newid gwasanaethau. Er enghraifft, bu'r BBC ac ITV yn cydweithio'n gadarnhaol â ni ynghylch y gwasanaeth SVoD arfaethedig, BritBox (edrychwch ar dudalen 45), ac ar ei asesiad o berthnasedd ar gyfer cam 1 BBC Sounds. Mae'r BBC hefyd wedi rhannu gwybodaeth â ni ar ei waith o ddatblygu Bitesize, ei gynlluniau ar gyfer cynulleidfaoedd iau a dysgu anffurfiol, ac mae hefyd wedi rhoi cipolwg cynnar i ni o'i gynigion i ddiwygio'r Drwydded Weithredu.

Ond, fel rydym yn dweud mewn man arall yn yr adroddiad hwn, mae gennym nifer o bryderon ynghylch y dystiolaeth mae'r BBC wedi'i chyflwyno i ni er mwyn cydymffurfio â'i amodau rheoleiddio, ac ynghylch ansawdd ac ehangder ei adroddiadau.

## Mae'r BBC wedi gwneud ei drefniadau llywodraethu yn fwy tryloyw

Y llynedd fe wnaethom fynegi pryderon ynghylch tryloywder trefniadau llywodraethu'r BBC, ac a oedd y ffordd yr oedd yn llywodraethu ei weithgareddau masnachol yn ddigon penodol ac ar wahân i'r ffordd yr oedd yn llywodraethu ei weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus.

Ar ôl i'r BBC adolygu ei weithgareddau masnachol[48] ym mis Rhagfyr 2018, gwnaeth Bwrdd y BBC newidiadau i gyfansoddiad y Bwrdd Daliadau Masnachol sy'n gyfrifol am lywodraethu, sicrwydd a goruchwylio is-gwmnïau masnachol y BBC. Mae hefyd wedi gwneud y Bwrdd Daliadau Masnachol yn fwy amlwg yn ei adroddiadau ac ar ei wefan.

Rydym o'r farn bod y gwelliannau hyn yn ei gwneud yn haws dod o hyd i wybodaeth am y strwythurau sy'n gwahanu'r BBC a'i gangen fasnachol (edrychwch ar dudalen 45).

## Parhau i ymrwymo i raglenni gwreiddiol yn y Deyrnas Unedig

**Mae buddsoddiad y BBC mewn cynnwys gwreiddiol o'r Deyrnas Unedig wedi cynyddu rhywfaint o'i gymharu â'r llynedd. Ond, o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol o ddigwyddiadau chwaraeon pwysig, cafwyd y ffigur isaf ar gyfer cyfanswm gwariant y BBC ar gynnwys gwreiddiol o'r Deyrnas Unedig sy'n cael ei ddarlledu am y tro cyntaf.**

**Eleni, cafodd llai o lawer o deitlau rhaglenni teledu unigol eu dangos ar y BBC o'i gymharu â 2017.**

**Mae ychydig dros hanner y cynulleidfaoedd yn credu bod y BBC yn 'cymryd risgiau ac yn darparu cynnwys sy'n newydd ac yn arloesol'.**

Y llynedd, fe wnaethom nodi bod buddsoddiad y BBC mewn cynnwys gwreiddiol o'r Deyrnas Unedig sy'n cael ei ddarlledu am y tro cyntaf wedi gostwng tua un rhan o bump ers 2010, yn debyg i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill. Fe wnaethom ddweud y dylai'r BBC barhau i ganolbwyntio ar ddangos ei fod yn wahanol i ddarlledwyr eraill drwy ddarlledu rhaglenni gwreiddiol sy'n adlewyrchu bywydau a phrofiadau yn y Deyrnas Unedig, ac wrth wneud hynny, y byddai'n bod yn fwy arloesol ac yn cymryd mwy o risgiau, gan gynnwys o ran sut mae'n creu cynnwys gwreiddiol yn y Deyrnas Unedig, a gyda phwy.

### Roedd gwariant y BBC ar gynnwys gwreiddiol o'r Deyrnas Unedig wedi cynyddu rhywfaint eleni, yn ystod blwyddyn llawn digwyddiadau chwaraeon pwysig

Yn 2018,  cafwyd cynnydd yn y gwariant ar raglenni gwreiddiol o'r Deyrnas Unedig a oedd yn cael eu darlledu am y tro cyntaf, ac yn nifer oriau cynnwys gwreiddiol o'r Deyrnas Unedig, o £1.187bn i £1.248bn, o'i gymharu â 2017. Ond, dyma oedd y ffigur isaf o ran cyfanswm gwariant y BBC ar gynnwys gwreiddiol digwyddiadau chwaraeon o bwys yn y Deyrnas Unedig a oedd yn cael eu darlledu am y tro cyntaf, ers 2010. Roedd nifer oriau rhaglenni chwaraeon a oedd yn cael eu dangos am y tro cyntaf wedi cynyddu 43% yn ystod y flwyddyn lle'r oedd Cwpan y Byd FIFA, Gemau Olympaidd y Gaeaf a Gemau'r Gymanwlad yn cael eu cynnal.  Roedd cyfanswm y gwariant ar genres mewn perygl wedi gostwng rhywfaint ers y llynedd, gan barhau â'r gostyngiad ers 2010.[49] Roedd gwariant ar rai genres wedi cynyddu, er enghraifft, rhaglenni plant, ac roedd gwariant ar genres eraill, fel rhaglenni ffeithiol arbenigol, wedi gostwng eleni.

Mae cyllid gan drydydd partïon, gan gynnwys cytundebau cyd-gynhyrchu, cyllid diffyg, a chredydau treth yn helpu tuag at wariant y BBC ar gynnwys. Er enghraifft, cyd-gynhyrchodd y BBC raglenni â darparwyr cynnwys eraill yn 2018, gan gynnwys *Peaky Blinders* gyda Netflix ac ail gyfres *Fleabag* gydag Amazon. Mae cyllid trydydd parti wedi cynyddu dros amser fel cyfran y gwariant ar gynnwys gwreiddiol o'r Deyrnas Unedig sy'n cael ei ddarlledu am y tro cyntaf ar y BBC. Drama yw'r prif genre sydd wedi elwa o'r cyllid hwn, yna cynnwys ffeithiol a chynnwys i blant.

Roedd rhaglen *Call the Midwife* y BBC yn 2018 yn gymwys ar gyfer rhyddhad treth ar gyfer rhaglenni teledu o safon uchel, o dan gynllun gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i gynnig rhyddhad treth ar gyfer cynnwys diwylliannol Brydeinig. Helpodd hyn i dalu am gostau cynhyrchu'r rhaglen. Gallai'r rhain ddod yn bwysicach i'r BBC os yw am barhau i ymrwymo i raglenni gwreiddiol yn y Deyrnas Unedig, oherwydd y pwysau ar ei gynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol, fel rydym wedi'i amlinellu.

## Dylai'r BBC wneud mwy o ran cymryd risgiau ac arloesi â'i gynnwys

Fel rhan o'n gwaith ymchwil parhaus, rydym yn gofyn i gynulleidfaoedd ddweud pa mor dda yw'r BBC am '*gymryd risgiau a darparu cynnwys sy'n newydd ac yn arloesol ar draws ei holl wasanaethau, gan gynnwys ar y teledu, ar y radio ac ar-lein'*. Nid yw argraffiadau'r gynulleidfa wedi newid ers y llynedd, a dim ond 57% sydd o dan yr argraff fod y BBC yn gwneud yn dda yma. Dyma'r sgôr isaf o'r holl gwestiynau rydym yn eu gofyn ar gyfer Diben Cyhoeddus 3, ac yma mae canran uchaf y gynulleidfa sy'n rhoi sgôr 1-4 allan o 10 i'r BBC.

Gall y BBC ddangos ei fod yn cymryd risgiau ac yn arloesi drwy chwilio am syniadau newydd. Mae'r ffaith fod y BBC wedi defnyddio 308 o wahanol gwmnïau cynhyrchu yn 2018 - y nifer uchaf ers 2012 ac i fyny o 278 y llynedd - yn dangos bod y BBC yn fodlon cymryd risgiau a chael gafael ar raglenni gan ddarparwyr newydd.

Ffordd arall o wneud hyn fyddai drwy gomisiynu teitlau rhaglenni newydd. Ond, yn 2018, roedd gostyngiad o 7% yn nifer y teitlau newydd a lansiwyd o gymharu â 2017. Roedd y gostyngiad hwn ar draws nifer o genres, gan gynnwys rhaglenni ffeithiol arbenigol, adloniant, y celfyddydau a materion cyfoes. Hefyd, fe wnaethom ganfod bod llawer iawn llai o deitlau rhaglenni teledu'r BBC o'i gymharu â 2017 (gweler tudalen 39). Roedd cyfanswm nifer y cyfresi wedi gostwng o 1,046 i 853 o wahanol deitlau rhwng 2017 a 2018.

## Mae'r BBC mewn sefyllfa unigryw ymhlith darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i ddarparu rhaglenni amrywiol a dilys gyda straeon y Deyrnas Unedig

Mae'r heriau sy'n wynebu'r BBC, fel rydym wedi'u nodi uchod, yn golygu bod gofyn iddo feddwl yn fwy arloesol os yw am gadw ei safle wrth galon y sector darlledu yn y Deyrnas Unedig a pharhau i fod yn berthnasol i'r holl gynulleidfaoedd yn y Deyrnas Unedig.

Mae'n hollbwysig, wrth i gartrefi yn y Deyrnas Unedig ddefnyddio mwy a mwy o wasanaethau SVoD, bod y BBC yn parhau i ddarparu rhaglenni dilys ac amrywiol gyda straeon y Deyrnas Unedig sy'n taro tant â holl gynulleidfaoedd y Deyrnas Unedig. Yn 2018/19 mae enghreifftiau llwyddiannus yn cynnwys straeon o'r Deyrnas Unedig sydd wedi ennill gwobrau fel *Killed by my Debt* ac *A Very English Scandal.*

Mae gofyn i'r BBC gynhyrchu'r cynnwys hwn o dan y Siarter a'r Cytundeb ac mae mewn sefyllfa unigryw oherwydd y ffordd mae'n cael ei ariannu. Mae hyn yn helpu i'w osod ar wahân i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill, yn ogystal â darlledwyr masnachol, a chyfrannu at gynnig unigryw y BBC. Mae'n arbennig o bwysig fod y BBC yn parhau i fuddsoddi mewn genres sydd mewn perygl, fel comedi.

## Adolygiad o Newyddion a Materion Cyfoes

Y BBC yw'r ffynhonnell bwysicaf ar gyfer newyddion yn y Deyrnas Unedig, ac mae tri chwarter o'r boblogaeth oedolion yn ei ddefnyddio i gael gwybod am ddigwyddiadau yn y byd. Yn 2019 rydym wedi cynnal adolygiad o gynnwys newyddion a materion cyfoes y BBC ar draws gwasanaethau teledu, radio ac ar-lein.

Roeddem wedi casglu sylwadau ar ddarpariaeth y BBC gan gynulleidfaoedd ledled y Deyrnas Unedig, yn ogystal â rhanddeiliaid yn y diwydiant. Roeddem wedi comisiynu ymchwil i roi gwybodaeth fanwl i ni ynghylch arferion pobl o ran cael gafael ar newyddion yn ogystal â dadansoddi ystod a dyfnder darpariaeth y BBC o'i chymharu â darparwyr newyddion eraill.

Rydym wedi cyhoeddi ein hadolygiad ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

Rydym wedi canfod mai'r BBC yw'r brif ffynhonnell newyddion yn y Deyrnas Unedig o hyd, gydag enw arbennig o dda am gywirdeb ac ymddiriedaeth – sef y priodoleddau pwysicaf mae ar gynulleidfaoedd eu heisiau gan ddarparwr newyddion. O ran didueddrwydd, canfu ein hymchwil fod amrywiaeth o ffactorau yn siapio safbwyntiau pobl, gyda dim ond rhai yn ymwneud yn uniongyrchol â chynnwys newyddion a materion cyfoes y BBC. Fodd bynnag, roedd rhai pobl yn credu bod y BBC yn rhoi gormod o sylw i safbwyntiau eithafol. Roedd eraill yn beirniadu 'cywerthedd ffug', lle rhoddwyd pwysau cyfartal mewn dadl i safbwyntiau nad oedd iddynt sail ffeithiol gyfartal.

Roedd ein hadolygiad hefyd wedi canfod bod rhai cynulleidfaoedd yn credu nad oedd darpariaeth newyddion y BBC yn berthnasol i'w bywydau. Roeddent yn teimlo ei bod yn canolbwyntio ar San Steffan ac yn siarad ar ran, a gyda, carfan fach o gymdeithas. Dywedodd rhai gwylwyr wrthym hefyd eu bod yn meddwl bod bwletinau teledu'r BBC yn sych ac yn gul.

Ar-lein, er mai'r BBC yw'r ffynhonnell newyddion ar-lein fwyaf poblogaidd yn y Deyrnas Unedig, mae'n wynebu her gynyddol o ran denu ac ymgysylltu â phobl iau sy'n troi mwy a mwy at gael gafael ar newyddion drwy gyfryngau cymdeithasol a gwasanaethau cyd-gasglu newyddion. Canfu ein hymchwil, pan fydd pobl yn cael gafael ar newyddion yn y ffordd hon, mai fel rheol am gyfnod byr byddant yn ymgysylltu â'r BBC a ffynonellau newyddion eraill. Ar gyfer rhai roeddem wedi siarad â nhw, dim ond "un o nifer" o ddarparwyr newyddion ar-lein yw'r BBC.

O dan Drwydded Weithredu'r BBC, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau ei fod yn darparu digon o ddolenni i ddeunyddiau ar-lein trydydd partïon, yn enwedig yn ei straeon newyddion. Fodd bynnag, roedd y dadansoddiad o gynnwys roeddem wedi'i gynnal ar gyfer yr adolygiad yn dangos y gallai'r BBC ddarparu mwy o ddolenni i gynnwys trydydd parti, allanol. Mae dolenni allanol yn cefnogi'r diwydiant ehangach ac o fudd i gynulleidfaoedd oherwydd eu bod yn rhoi mynediad at amrywiaeth ehangach o ddeunyddiau.

Ar sail y canfyddiadau hyn, mae ein hadroddiad yn rhoi pedwar argymhelliad i'r BBC.

## Rhaid i'r BBC barhau i roi'r flaenoriaeth uchaf i ddarparu newyddion cywir

Cynnal ffocws dwys ar hyn yw'r ffordd orau i'r BBC gadw a chryfhau ei enw da. Cyhyd ag y bydd pobl yn dal i droi at y BBC ar adegau pwysig, mae ganddo gyfle i ddenu a gwasanaethu'r amrywiaeth ehangaf o gynulleidfaoedd.

## Dylai fod gan y BBC fwy o hyder yn sut mae'n sicrhau didueddrwydd dyladwy

Nid yw'r rheolau darlledu yn mynnu bod y BBC neu ddarlledwyr eraill yn hollol niwtral ar bob mater mewn newyddion a materion cyfoes, ond mae'n rhaid iddynt ddangos didueddrwydd dyladwy. Mae hyn yn golygu y dylai newyddiadurwyr ystyried y cyd-destun wrth ystyried sut mae sicrhau didueddrwydd dyladwy. Dylai newyddiadurwyr y BBC deimlo eu bod yn gallu herio safbwyntiau dadleuol sydd â phrin ddim cefnogaeth neu nad ydynt yn seiliedig ar ffeithiau, gan egluro hyn i'r gwylwyr, y gwrandawyr a'r darllenwyr.

Mae ein hymchwil yn dangos bod cynulleidfaoedd yn parchu safon newyddiaduriaeth y BBC ac yn disgwyl i'w ohebwyr ymchwilio i ddigwyddiadau yn ogystal â'u dadansoddi a'u hegluro. Dylai hyn roi hyder i'r BBC fod yn fwy mentrus o ran ei ffordd o weithio.

## Dylai'r BBC gynrychioli'r DU i gyd yn well gyda chynnwys newyddion a materion cyfoes go iawn sy'n teimlo'n berthnasol ac yn ddifyr i bawb

Mae ein hymchwil yn awgrymu bod cynulleidfaoedd yn dymuno gweld mwy o newyddion am eu cymunedau, a bod y newyddion yn cael eu hadrodd gan bobl sy'n deall yr ardal yn dda. Roedd pobl o'r tu allan i Lundain yn credu y gallai'r BBC wella sut roedd yn adlewyrchu ac yn adrodd ar eu bywydau. Roedd pobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn dweud wrthym eu bod yn dymuno teimlo bod eu lleisiau'n cael eu cynrychioli. Gydag adnoddau casglu newyddion lleol a rhanbarthol heb eu hail, dylai'r BBC allu cynrychioli'r wlad i gyd mewn ffordd ddilys drwy ddefnyddio sawl arddull, tôn a phwnc.

## Wrth i fwy a mwy o bobl ddibynnu ar wasanaethau cyfryngau cymdeithasol a gwasanaethau cyd-gasglu newyddion i gael newyddion, mae angen i gynnwys ar-lein y BBC wneud mwy i sefyll allan – neu bydd mewn perygl o golli ei enw da a'i statws fel llais mae pobl yn ymddiried ynddo

Rydym yn credu y bydd tryloywder ynghylch y dull hwn yn helpu i feithrin ymddiriedaeth yn y BBC. Dylai'r BBC gyhoeddi'r camau mae'n eu cymryd i helpu pob cynulleidfa – yn enwedig pobl iau – i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas.

Byddwn yn cwrdd yn rheolaidd â'r BBC i drafod y camau y mae'n eu cymryd ym mhob un o'r meysydd rydym wedi'u nodi. Er mwyn sicrhau tryloywder, rydym yn disgwyl i'r BBC adrodd ar ei gynnydd ar bob un o'r argymhellion yn ei adroddiad blynyddol nesaf.

Mewn perthynas â'n gofynion o ran y Drwydded Weithredu, byddwn yn casglu rhagor o dystiolaeth gan y BBC i ganfod a ddylai ddarparu mwy o ddolenni at ffynonellau newyddion ar-lein allanol. Fel rhan o hyn byddwn yn edrych ar berfformiad y BBC yn yr elfen hon, ac ar eiriad cyfredol yr amod yn y Drwydded Weithredu, i benderfynu a yw'n dal yn briodol, ac ystyried y newidiadau yn y ffordd mae pobl yn cael gafael ar newyddion.



# Perfformiad y BBC

## Cyflwyniad

I sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion, rydym wedi gosod set o amodau rheoleiddio mae modd eu gorfodi yn Nhrwydded Weithredu'r BBC.

Rydym hefyd wedi gosod cyfres o fesurau perfformiad er mwyn cael darlun gwell o ba mor dda mae'r BBC yn cyflawni ei gylch gwaith, y tu hwnt i'r amodau rheoleiddio. Yn Atodiad 2 rydym yn cyhoeddi ein hasesiad o berfformiad y BBC o ran cyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus.

**Drwy ein gwaith mesur perfformiad, rydym wedi canfod bod y BBC yn parhau i gyflawni ei gylch gwaith ar gyfer cynulleidfaoedd yn gyffredinol.**

Mae'n dal i ddarparu llawer iawn o gynnwys newyddion a materion cyfoes, amrywiaeth eang o gynnwys dysgu ac addysgol, yn ogystal â chynnwys creadigol ac unigryw o ansawdd uchel i bob cynulleidfa ar draws ei wasanaethau prif ffrwd ac arbenigol. Fel y mae wedi'i nodi yn ei adroddiad blynyddol ei hun, mae'r BBC wedi cael nifer o lwyddiannau creadigol nodedig eleni. Fodd bynnag, fel y nodir ar dudalen 23, rydym yn nodi bod y buddsoddiad mewn rhai genres allweddol ym maes darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi parhau i ostwng o flwyddyn i flwyddyn.

### Sut rydym yn dal y BBC i gyfrif am ei berfformiad

O dan y Siarter, mae'n rhaid i ni osod Fframwaith Gweithredu sy'n cynnwys darpariaethau sy'n ein galluogi i reoleiddio'r BBC yn effeithiol, a Thrwydded sy'n cynnwys yr amodau rheoleiddio rydym ni'n credu sy'n briodol er mwyn mynnu bod y BBC yn –

a) cyflawni ei Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus;
b) sicrhau y darperir allbwn a gwasanaethau unigryw; a
c) sicrhau bod cynulleidfaoedd yng Nghymru, Lloegr yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael eu gwasanaethu'n dda.

Gallwn roi sancsiynau i'r BBC, gan gynnwys dirwyon, os nad yw'n llwyddo i fodloni'r amodau rheoleiddio hyn. Gallwn hefyd osod set o fesurau perfformiad er mwyn cael darlun gwell o ba mor dda mae'r BBC yn cyflawni ei gylch gwaith, y tu hwnt i'r amodau rheoleiddio. Mae angen i ni gynnal o leiaf dau adolygiad cyfnodol manwl o berfformiad y BBC, a gallwn gynnal adolygiadau ychwanegol pan fyddwn yn teimlo bod hynny'n briodol.

## Mae'r BBC yn dal i chwarae rôl ganolog ar draws llwyfannau teledu, radio ac ar-lein yn y Deyrnas Unedig, ond mae ei gyrhaeddiad yn gostwng

Mae cyrhaeddiad cyffredinol y BBC yn dal yn uchel, gyda mwy na naw o bob deg oedolyn yn defnyddio cynnwys y BBC bob wythnos. Ar gyfartaledd, rydym yn amcangyfrif bod cynulleidfaoedd yn treulio tua 2 awr a 33 munud gyda gwasanaethau'r BBC bob diwrnod. Fodd bynnag, mae hyn yn ostyngiad o ddeng munud ar gyfartaledd o 2017 ymlaen. Mae pobl rhwng 16 a 34 oed yn treulio tua 1 awr a 12 munud ar gyfartaledd ar wasanaethau'r BBC bob dydd, sydd bum munud yn llai ers 2017.[50] Mae tri chwarter y bobl yn y Deyrnas Unedig yn gwylio gwasanaethau teledu'r BBC mewn wythnos; tri phwynt canran yn llai na 2017.[51]

Mae BBC Radio yn colli gwrandawyr, yn wahanol i wasanaethau radio masnachol cenedlaethol sydd wedi gweld nifer eu gwrandawyr yn cynyddu ar draws pob grŵp oedran, wrth i gyrhaeddiad wythnosol cyfartalog gwasanaethau'r BBC ar draws y Deyrnas Unedig ostwng 2.3% o'i gymharu â 2017/18.[52] Mae'r amser a dreulir yn gwrando ar y gwasanaethau hyn wedi gostwng 42 munud dros y pum mlynedd diwethaf (i 14 awr a 24 munud yr wythnos yn Ch1 2019) o'i gymharu â gwasanaethau masnachol cenedlaethol sydd wedi gweld eu gwrandawyr yn treulio 90 munud yn fwy gyda nhw dros yr un cyfnod (naw awr a 12 munud yr wythnos ar hyn o bryd). Ar yr un pryd, mae'r gyfran o'r gynulleidfa sy'n gwrando ar radio masnachol ar draws y Deyrnas Unedig wedi cynyddu 5.9%.

Mae cyrhaeddiad ar-lein y BBC wedi aros yn sefydlog eleni, ond mae'r amser mae pobl yn ei dreulio ar safleoedd y BBC wedi gostwng tua 30% yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.[53]

## Mae'r BBC yn parhau i gynhyrchu cynnwys sy'n denu cynulleidfaoedd mawr

Roedd cynulleidfaoedd mawr wedi gwylio digwyddiadau o bwys ar y teledu yn 2018. Roedd arlwy'r BBC o Gwpan y Byd FIFA 2018 wedi denu cynulleidfaoedd mawr, gyda dros 17 miliwn wedi gwylio Lloegr yn erbyn Sweden, ac yn 2019 roedd mwy nag erioed wedi manteisio ar y ddarpariaeth o Gwpan y Byd FIFA i Fenywod, ac wedi gwylio darllediadau byw BBC Parliament wrth i Senedd y Deyrnas Unedig gynnal pleidleisiau ystyrlon ynghylch Brexit yn fyw ar y teledu[54] Roedd *Bodyguard* wedi gosod sawl record newydd ar gyfer BBC iPlayer, gyda chynulleidfaoedd mawr yn defnyddio BBC iPlayer i ddal i fyny ar y rhaglen.

## Mae bodlonrwydd cynulleidfaoedd â'r BBC yn dal yn sefydlog, ond mae bodlonrwydd rhai grwpiau o'r gynulleidfa yn dal yn is na'r cyfartaledd ar gyfer yr holl Ddibenion Cyhoeddus

Er bod ei gyrhaeddiad wedi bod yn gostwng, mae bodlonrwydd cyffredinol â'r BBC yn dal yn sefydlog. Mae'n cymharu'n dda â darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill a gorsafoedd radio masnachol, gydag oddeutu tri chwarter o'r cynulleidfaoedd yn fodlon â chynnwys y BBC ar y radio ac ar-lein, a dwy ran o dair yn fodlon â gwasanaethau teledu'r BBC. Fodd bynnag, mae ei lefelau bodlonrwydd yn is na rhai Sky a chwareuwyr ar-lein fel Netflix ac Amazon gan fod eu cynulleidfaoedd yn rhoi sgôr uwch o lawer i wasanaethau'r chwaraewyr hynny nag y mae cynulleidfaoedd y BBC yn ei rhoi i'r BBC.

Fel y dangosir ar dudalen 18, mae bodlonrwydd rhai grwpiau o'r gynulleidfa â'r BBC yn dal yn is na'r cyfartaledd ar draws y Dibenion Cyhoeddus. Pobl yn yr Alban, pobl o grwpiau economaidd-gymdeithasol is, pobl 65 oed a hŷn, yn enwedig pobl anabl yn y grŵp oedran hwn, sydd â'r cyfraddau bodlonrwydd

isaf o blith y grwpiau cynulleidfa rydym yn cadw golwg arnynt. Mae angen i'r BBC wneud mwy i sicrhau ei fod yn darparu ar gyfer pob cynulleidfa. Yn Atodiad 2, rydym yn ystyried yn fanylach berfformiad y BBC gyda gwahanol grwpiau o'r gynulleidfa.

### Unwaith eto, mae perfformiad y BBC o ran cyflawni'r Dibenion Cyhoeddus yn cael sgôr is na phwysigrwydd y Dibenion Cyhoeddus

Rydym yn cadw golwg ar farn pobl am bwysigrwydd Dibenion Cyhoeddus y BBC i gymdeithas ac iddyn nhw'n bersonol, yn ogystal â barn pobl ynghylch sut mae'r BBC yn perfformio o ran cyflawni ei Ddibenion Cyhoeddus. Mae'r bwlch rhwng argraffiadau pobl o bwysigrwydd y dibenion cyhoeddus, a barn pobl o berfformiad y BBC, yn ein helpu i ddeall i ba raddau mae'r BBC yn bodloni disgwyliadau'r gynulleidfa o ran cyflawni'r dibenion cyhoeddus.


Mae ein data yn dangos bod cynulleidfaoedd, fel y llynedd, yn rhoi sgôr uwch i bwysigrwydd y Dibenion Cyhoeddus nag i berfformiad y BBC o ran cyflawni'r Dibenion Cyhoeddus (edrychwch ar y graff uchod). Mae argraffiadau'r gynulleidfa o berfformiad y BBC o ran cyflawni pob un o'r dibenion cyhoeddus yr un fath â'r llynedd ar y cyfan, ond mae eu hargraffiadau o bwysigrwydd y dibenion cyhoeddus wedi cynyddu'n sylweddol. Erbyn hyn, mae bron i dri chwarter o oedolion yn teimlo ei bod yn bwysig i gymdeithas bod y BBC yn cyflawni pob diben.

### Cydymffurfiaeth y BBC ag amodau ei Drwydded Weithredu

Yn Atodiad 1 o'r adroddiad hwn rydym wedi egluro sut mae'r BBC wedi cydymffurfio â'n holl amodau ar gyfer ei Drwydded Weithredu yn 2018/19. I wella'r broses o asesu cydymffurfiaeth y BBC ag amodau'r Drwydded Weithredu, byddwn yn ymgynghori ar ychwanegu gofyniad at y Drwydded

## Pwysigrwydd/Perfformiad

**Barn gyffredinol y gynulleidfa am bwysigrwydd y dibenion cyhoeddus a pherfformiad y BBC**




*Ffynhonnell: Traciwr Perfformiad y BBC*

Weithredu sy’n ei gwneud yn ofynnol i'r BBC ddarparu tystiolaeth gyflawn i ni o’i gydymffurfiaeth pan fydd yn cyhoeddi ei adroddiad blynyddol. Byddwn yn gweithio gyda'r BBC drwy gydol y flwyddyn i wneud yn siŵr bod y broses hon mor effeithlon â phosibl.

Y llynedd, fe ddywedom fod y BBC wedi cydymffurfio â'r holl amodau perthnasol yn ystod cyfnod adolygiad 2017/18. Mae'r BBC wedi dweud bod amodau'r Drwydded Weithredu wedi cael eu torri ddwy waith yn 2018/19.

Mae’r cyntaf yn ymwneud ag amod 2.71, cwota cynnwys llafar o 60% yn ystod yr oriau craidd ar gyfer BBC Radio nan Gàidheal. Mae'r ail yn ymwneud ag amod 2.40.3, nifer yr oriau o gerddoriaeth fyw ar BBC Radio 2.

Wrth i ni bennu'r amod ar gyfer cynnwys llafar ar BBC Radio nan Gàidheal, ein bwriad oedd diogelu lefel y ddarpariaeth bresennol. Er na wnaeth y BBC newid ei allbwn yn 2018/19, un o ganlyniadau anfwriadol yr amod oedd bod angen cynyddu lefel y ddarpariaeth er mwyn bodloni’r amod. Nid dyna oedd bwriad y cwota. Rydym wedi ymgynghori â'r BBC, ac wedi ymgysylltu â'r partïon sydd â diddordeb mewn gwasanaethau radio yn yr iaith Aeleg, ynghylch lefel y gofyniad ar gyfer cynnwys llafar ar BBC Radio nan Gàidheal. Rydym wedi penderfynu diwygio’r gofyniad o 60% i 40% er mwyn adlewyrchu a diogelu lefel flaenorol y ddarpariaeth, sef tua 40-45%.[55]

Dywedodd y BBC ei fod dair awr yn brin o'r cwota 260 o oriau yn yr amod ar gyfer cerddoriaeth fyw ar Radio 2. Rydym yn nodi bod y BBC wedi cymryd camau i roi ar waith broses fonitro fwy trylwyr ar gyfer yr amod hwn, er mwyn sicrhau ei fod yn gallu gweithredu mewn pryd i drefnu digwyddiadau pellach os bydd angen. Rydym yn disgwyl iddo fodloni’r amod yn 2019 / 20, ac felly nid ydym yn cynnig cymryd unrhyw gamau pellach.

Fel y nodir uchod, yn dilyn ein hadolygiad o'r dystiolaeth a ddarparwyd gan y BBC ar gyfer amodau ei Drwydded Weithredu, mae gennym nifer o bryderon am y dystiolaeth mae'r BBC wedi’i darparu ar gyfer adrodd ar ei amodau amrywiaeth, yn ogystal â'r amser mae wedi'i gymryd i baratoi ei adroddiad am gydymffurfio â'i God Ymarfer ar Amrywiaeth wrth Gomisiynu. Rydym wedi nodi’r meysydd lle’r ydym yn disgwyl i’r BBC fynd ymhellach, a phan fydd angen byddwn yn ymgynghori ynghylch diwygio’r Drwydded Weithredu er mwyn sicrhau ansawdd gwell ac adrodd mwy amserol.

Er nad ydym wedi gweld bod y BBC wedi torri unrhyw un o'r amodau eraill yn y Drwydded Weithredu, roedd ein hadolygiad o allbwn newyddion a materion cyfoes y BBC yn edrych ar hyperddolenni ar ap a gwefan BBC News. O dan y Drwydded Weithredu, mae’n rhaid i’r BBC sicrhau ei fod yn darparu digon o ddolenni i ddeunyddiau ar-lein trydydd partïon, yn enwedig yn ei straeon newyddion. Roedd ein dadansoddiad o sampl o eitemau newyddion yn dangos y gallai’r BBC ddarparu mwy o ddolenni i gynnwys trydydd parti, allanol.

Byddwn nawr yn casglu tystiolaeth, gan gynnwys gofyn yn ffurfiol i’r BBC am wybodaeth, i ganfod a ddylai wneud mwy i ddarparu dolenni at ffynonellau allanol. Fel rhan o hyn byddwn yn edrych ar berfformiad y BBC yn yr elfen hon, ac ar eiriad cyfredol yr amod yn y Drwydded, i benderfynu a yw’n dal yn briodol, ac ystyried y newidiadau yn y ffordd mae pobl yn cael gafael ar newyddion.

### Adolygu'r fframwaith perfformiad a'r Drwydded Weithredu

Fel rydym wedi'i nodi uchod, sialens fawr y BBC wrth ymateb i newidiadau mewn patrymau defnyddio yw sut mae'n newid y ffordd mae'n cyflawni'r Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus pan fo darpariaeth drwy iPlayer a BBC Sounds yn dod yn fwy a mwy amlwg.

Rydym wedi dweud yn glir y bydd y Drwydded Weithredu yn datblygu dros amser. Er enghraifft, yn sgil lansio sianel BBC Scotland a newidiadau eraill mae'r BBC wedi'u gwneud i'w wasanaethau, rydym wedi gorfod newid amodau. Heddiw, rydym hefyd wedi cyhoeddi newidiadau bach ynghylch lefel y cwota ar gynnwys llafar ar gyfer BBC Radio nan Gàidheal. Rydym yn rhagweld y bydd angen i ni ystyried gwneud rhagor o newidiadau i'r Drwydded Weithredu er mwyn gofalu ei fod yn dal i gyd-fynd ag arferion gwylio a gwrando pobl, wrth i'r BBC geisio gwella sut mae'n cyflawni ei gylch gwaith.

Gan fod pethau'n newid yn gyflym o ran arferion gwylio a gwrando a darparu cynnwys, byddwn yn gwerthuso effeithiolrwydd y Drwydded Weithredu bresennol o ran dal y BBC i gyfrif a rhoi digon o hyblygrwydd iddo arloesi.[56] Fel rydym yn egluro mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn, ar hyn o bryd rydym o'r farn nad yw'r BBC yn llwyddo i ddarparu gwybodaeth sy'n dangos i ba raddau mae'n cydymffurfio â rhai amodau, yn enwedig o ran amrywiaeth. Hefyd, rydym ni o'r farn bod angen i ni weld gwell ymrwymiad i dryloywder gan y BBC, cyn y gallem ystyried diwygio'r Drwydded Weithredu i roi mwy o hyblygrwydd i'r BBC. Bydd ymrwymiad gwell i dryloywder yn mynnu bod y BBC yn datgan yn gliriach sut mae ei wasanaethau'n cyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus a rhoi mwy o bwys ar fesur ac adrodd ar ganlyniadau mewn ffordd dryloyw. Bydd angen i'r BBC fod yn fwy agored hefyd am y bylchau mewn darpariaeth a'r heriau sy'n ei wynebu.

Yn ogystal ag edrych ar y Drwydded Weithredu, mae angen i ni newid y ffordd rydym yn edrych ar berfformiad wrth i'r ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu, a'r ffordd mae cynnwys yn cael ei ddefnyddio, ddatblygu. Rydym yn edrych ar ein fframwaith mesur perfformiad ar yr un pryd.

Wrth gymeradwyo ei gynigion ar gyfer datblygu BBC iPlayer, rydym wedi mynnu bod y BBC yn gosod mesurau diwygiedig ar gyfer perfformiad (a thargedau ar gyfer y mesurau hynny pan fo'n briodol) i asesu perfformiad BBC iPlayer o ran cyflawni'r Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus. Roeddem wedi dweud ei bod yn rhaid i'r BBC ystyried y canlynol wrth lunio'r cynigion hynny: a) sut mae mynd ati'n effeithiol i fesur argaeledd, defnydd ac effaith cynnwys ar BBC iPlayer; a b) pa fesurau perfformiad ar gyfer BBC iPlayer fydd yn cael sylw ym mhob adroddiad blynyddol gan y BBC, gan ddechrau gydag adroddiad blynyddol 2019/2020.

## Perfformiad y BBC o ran cyflawni y Dibenion Cyhoeddus

Ym mis Hydref 2017, fe wnaethom gyhoeddi fframwaith ar gyfer asesu perfformiad y BBC o ran cyflawni ei Ddibenion Cyhoeddus. Roedd hyn yn cynnwys mesurau fel asesu amrywiaeth y cynnwys a'r math o gynnwys sydd ar gael ar y BBC, i ba raddau mae cynulleidfaoedd yn gwylio neu'n gwrando ar gynnwys y BBC, a barn cynulleidfaoedd ynghylch cynnwys y BBC a sut mae'n cyflawni'r Dibenion Cyhoeddus. Mae'r mesurau hyn yn ein galluogi i fonitro perfformiad y BBC. Gallant roi rhybudd cynnar ar gyfer elfennau lle gallai'r BBC fod yn tangyflawni o bosibl, a gallant fod yn sail dros

newid y Drwydded Weithredu er enghraifft, neu dros benderfynu lansio adolygiad.

Mae ein hasesiad o sut mae'r BBC yn cyflawni'r Dibenion Cyhoeddus yn seiliedig ar y fframwaith hwn, ac mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth rydym wedi'i chasglu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wrth siarad â rhanddeiliaid a phartïon eraill sydd â diddordeb.

Yn Atodiad 2 rydym yn cyhoeddi ein hasesiad o berfformiad y BBC o ran cyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus a cheir crynodeb ar y tudalennau canlynol.

## Diben Cyhoeddus 1: Darparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd i helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas

Mae'r ffordd mae pobl yn defnyddio ac yn ymgysylltu â newyddion yn newid. Yn ogystal â'r mathau o gyfryngau newyddion sy'n bodoli ers tro, mae amrywiaeth o ffynonellau ar-lein ar gael erbyn hyn, gan gynnwys gwefannau, cyfryngau cymdeithasol, apiau darparwyr newyddion a llwyfannau sy'n cyd-gasglu newyddion, ac maent yn cynnig cymysgedd amrywiol o ohebiaeth, dadansoddi a rhoi barn.

Mae'r amgylchedd cymhleth hwn yn golygu bod rôl y BBC fel darparwr diduedd o newyddion cywir yn bwysicach nag erioed. Fodd bynnag, yr her mae'r BBC yn ei hwynebu yw parhau'n ffynhonnell newyddion ddibynadwy a pherthnasol, sy'n darparu cynnwys o ansawdd uchel ar gyfer yr holl gynulleidfaoedd a gwrandawyr.

### Mae'r BBC yn dal i gyflawni Diben Cyhoeddus 1

Y llynedd, roeddem o'r farn bod y BBC yn perfformio'n dda yn yr elfen hon, ac mae ei berfformiad yn dal yn gryf mewn sawl ffordd. Y BBC yw'r darparwr sy'n cael ei ddefnyddio amlaf o hyd ar draws gwasanaethau teledu, radio ac ar-lein, a BBC One yw'r ffynhonnell newyddion bwysicaf a'r un sy'n cael ei defnyddio fwyaf yn y Deyrnas Unedig.[57]

Mae dadansoddiadau o'r gwahanol ffyrdd mae pobl yn cael gafael ar newyddion yn dangos bod llwyfannau ar-lein a'r cyfryngau cymdeithasol yn dod yn fwy a mwy cyffredin fel prif ffynhonnell newyddion pobl. Mae brand y BBC yn helpu i sicrhau mai'r BBC yw'r sefydliad newyddion sy'n cael ei ddilyn amlaf ar y safleoedd cyfryngau cymdeithasol mwyaf poblogaidd ymysg y rheini a ddywedodd wrthym eu bod yn cael gafael ar sefydliadau newyddion drwy Facebook, Twitter, Instagram a Snapchat. Ap a gwefan newyddion y BBC yw'r ffynhonnell newyddion ar-lein fwyaf poblogaidd ar-lein ymysg oedolion o hyd, ac maent yn cael eu defnyddio gan ddwy ran o dair o ddefnyddwyr newyddion ar-lein.[58]

Fodd bynnag, mae tystiolaeth yn awgrymu bod defnyddwyr sy'n cael gafael ar newyddion yn y ffordd hon yn gwneud hynny'n ddamweiniol, o ganlyniad i'r amser maen nhw'n ei dreulio ar gyfryngau cymdeithasol, gyda llai o ddefnyddwyr yn darllen y storïau y tu hwnt i'r pennawd ei hun. Mae'r twf mewn gwasanaethau cyd-gasglu newyddion yn golygu bod y BBC yn wynebu her y gallai ddod yn ddim ond 'un o blith nifer' o ffynonellau newyddion mae defnyddwyr yn eu gweld ar eu crynodebau cyfryngau cymdeithasol ac ar apiau ffonau clyfar penodol.

Y llynedd, fe ddywedom y byddem yn adolygu gwasanaethau newyddion a materion cyfoes y BBC oherwydd ei bwysigrwydd allweddol fel darparwr dibynadwy. Rydym wedi cyhoeddi'r adolygiad hwn ochr yn ochr â'r adroddiad hwn, ac wedi defnyddio ei ganfyddiadau wrth asesu perfformiad y BBC o ran cyflawni Diben Cyhoeddus 1.


**Mae darparu newyddion dibynadwy, cywir a diduedd yn hollbwysig**

Mae pobl yn dal i werthfawrogi newyddion dibynadwy a chywir gan ddarparwyr newyddion. Roedd ein hymchwil ar gyfer ein hadolygiad o wasanaethau newyddion a materion cyfoes y BBC yn dangos hyn (ar y dde), wrth ofyn i gynulleidfaoedd pa rinweddau roeddent yn eu gwerthfawrogi fwyaf mewn darparwr newyddion. Mae cynulleidfaoedd yn ystyried bod rôl y BBC i ddarparu hyn yn rhan allweddol o Ddiben Cyhoeddus 1, ac yn meddwl yn gyffredinol bod y BBC wedi perfformio'n dda yn yr elfen hon. Er hynny, canfu ein harolwg ar gael gafael ar newyddion nad oedd cynulleidfaoedd y BBC yn rhoi sgôr uwch am ymddiriedaeth neu gywirdeb yn rhaglenni teledu'r BBC na chynulleidfaoedd ar gyfer sianeli teledu ITV a Sky.[59]

Mae'n hollbwysig bod y BBC yn cyflawni o ran cywirdeb, ymddiriedaeth a didueddrwydd ar adeg pan fo pobl yn poeni pa mor ddibynadwy yw cynnwys newyddion, yn enwedig ar-lein. Mae'r BBC wedi awgrymu y bydd yn chwarae rhan fawr yn y broses o fynd i'r afael â gwybodaeth gamarweiniol yn ystod y flwyddyn nesaf.[60] Byddwn yn edrych yn ofalus ar effeithiolrwydd y gwaith hwn.

Yn ôl ein harolwg ar gael gafael ar newyddion, mae newyddion teledu Channel 4, ITV a sianel Sky News yn cael sgôr uwch gan eu cynulleidfaoedd na gwasanaethau teledu'r BBC erbyn hyn, am ddarparu newyddion diduedd.[61] Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu bod y BBC yn methu yn yr elfen hon; a dweud y gwir, nid ydym wedi gweld bod y BBC wedi torri gofynion didueddrwydd dyladwy y Cod Darlledu eleni.

***Nodweddion newyddion sy'n cael eu gwerthfawrogi gan y gynulleidfa***




*Ffynhonnell: Adolygiad Ofcom o newyddion a materion cyfoes y BBC - Ymchwil ansoddol PwC*

Mae ein hadolygiad yn awgrymu nad yw argraffiadau'r gynulleidfa o ddidueddrwydd y BBC yn gysylltiedig â chynnwys y BBC yn unig. Mae rhai cynulleidfaoedd yn cydnabod bod pobl yn craffu mwy ar y BBC nag ar sefydliadau eraill o ran bod yn ddiduedd – y cyhoedd, gwleidyddion ac eraill yn y cyfryngau. Mae ein dadansoddiad ni o'r trafodaethau am ddarpariaeth y BBC ar gyfryngau cymdeithasol yn awgrymu bod gan nifer cyfyngedig o leisiau beirniadol ddylanwad anghymesur o fawr o ran argraffiadau pobl o ddarpariaeth y BBC.

Fodd bynnag, roedd rhai cynulleidfaoedd hefyd wedi dweud wrthym nad oeddent yn meddwl bod agwedd bresennol y BBC at ddidueddrwydd yn effeithiol, gan gyfeirio at enghreifftiau o gywerthedd ffug a rhoi amlygrwydd amhriodol i safbwyntiau eithafol ar draul safbwyntiau mwy cynnil.

Mae'n bosibl mai dyma pam mai'r cynulleidfaoedd roeddem wedi siarad â nhw oedd â mwyaf o ddiddordeb mewn

newyddion gwleidyddol oedd y rhai mwyaf amheus yn aml o ddarpariaeth y BBC yn yr elfen hon. Mae cynulleidfaoedd â safbwyntiau cryf yn debygol o fod yn fwy effro i'r ffordd mae'r BBC yn delio ag unrhyw safbwyntiau maent yn anghytuno â nhw. Mewn amgylchiadau o'r fath, cynnal ffocws dwys ar ohebu'n glir a chywir yw'r ffordd fwyaf effeithiol i'r BBC gryfhau ei enw da, yn ogystal â chynyddu ymddiriedaeth cynulleidfaoedd a chyrraedd yr amrywiaeth ehangaf o gynulleidfaoedd.

Roeddem wedi cofnodi un achos arwyddocaol yn 2018/19 pan dorrwyd y gofynion cywirdeb dyladwy o dan y Cod Darlledu, pan ganfuwyd bod y BBC wedi darlledu rhaglen ffeithiol a oedd yn camarwain yn sylweddol (gweler tudalen 51, yr adran Safonau Cynnwys).

### Mae chwech o bob deg yn rhoi sgôr uchel i'r BBC am ddyfnder ei ddadansoddiadau ac am ddarparu gwahanol fath o gynnwys

Fel y dywedwyd y llynedd, mae angen i'r BBC ddarparu cynnwys a dadansoddiad manwl ac amrywiol nad ydynt ar gael yn helaeth gan ddarparwyr newyddion eraill yn y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn helpu cynulleidfaoedd i ymwneud â materion lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a byd-eang a chymryd rhan yn y broses ddemocrataidd.

Yn debyg i'r llynedd, canfu ein harolwg ar gael gafael ar newyddion fod chwech o bob deg o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau teledu'r BBC i gael newyddion yn dal i roi sgôr uchel i wasanaethau newyddion y BBC ar y teledu o ran yr elfen hon, ond mae'r BBC ar ei hôl hi o'i gymharu â sianel newyddion Sky. Mae bron i dri chwarter o gynulleidfaoedd sianel newyddion Sky yn cytuno ei fod yn darparu cynnwys a dadansoddiad manwl sydd ddim ar gael yn unman arall, o'i gymharu â 63% o gynulleidfaoedd gwasanaethau newyddion y BBC ar y teledu.[62]

### Mae cynrychioli pob rhan o'r Deyrnas Unedig yn allweddol er mwyn parhau i fod yn berthnasol

Er bod treftadaeth a hirhoedledd y BBC yn gallu ennyn ymddiriedaeth, canfu ein hadolygiad fod rhai cynulleidfaoedd yn dal i ystyried darpariaeth newyddion a materion cyfoes y BBC yn ddosbarth canol, gwyn a Llundeinig. Mae cynrychioli amrywiaeth y Deyrnas Unedig yn allweddol er mwyn creu cynnwys dilys sy'n teimlo'n berthnasol ac yn ddifyr i'r holl gynulleidfaoedd.

## Diben Cyhoeddus 2: Cefnogi dysgu ar gyfer pobl o bob oed

Rhan o gylch gwaith y BBC yw helpu pawb yn y Deyrnas Unedig i ddysgu am wahanol bynciau mewn ffyrdd a fydd yn hwylus iddynt, yn ddifyr, yn ysbrydoli ac yn heriol.

Mae'r BBC yn darparu cynnwys dysgu anffurfiol i oedolion ar draws pob llwyfan ac ar gyfer plant, yn bennaf drwy wasanaethau teledu (CBeebies a CBBC), ac mae'n cael ei ategu gan gynnwys BBC iPlayer, gwefan y BBC ac apiau penodol. Mae'n cynnig darpariaeth dysgu ffurfiol ar gyfer plant a phobl ifanc ar-lein drwy BBC Bitesize, ac mae'n cynnig adnoddau dysgu ar gyfer athrawon drwy BBC Teach.

Mae cynulleidfaoedd yn dal i roi sgôr uchel i'r BBC am ei wasanaethau addysgol a dysgu, a dyma'r diben pwysicaf un iddynt o blith yr holl ddibenion.[63]

### Roedd llai o oriau o gynnwys dysgu anffurfiol a gafodd ei ddarlledu am y tro cyntaf ar wasanaethau teledu'r BBC yn 2018, a gostyngiad yng nghyfanswm yr oriau dysgu anffurfiol ar gyfer rhai genres

Roedd cyfanswm yr oriau dysgu anffurfiol ar y teledu wedi gostwng ychydig eleni, o 5,411 i 5,354. Roedd y newidiadau o ran cyfanswm yr oriau yn amrywio ar draws y genres – er enghraifft, roedd nifer yr oriau o raglenni

dogfen wedi gostwng o 1,634 i 1,471, a'r oriau o gynnwys yn ymwneud â hanes wedi cynyddu o 698 o oriau i 807 o oriau yn 2018.[64]

Fel yr amlygwyd y llynedd, ers 2010, mae nifer yr oriau o gynnwys dysgu anffurfiol a gafodd ei ddarlledu am y tro cyntaf wedi gostwng, ac mae nifer yr oriau o ailddarllediadau wedi cynyddu. Er gwaethaf hyn, mae'r gyfran ar gyfer yr oriau o gynnwys a ddarlledwyd am y tro cyntaf wedi aros yn weddol sefydlog dros y pedair blynedd diwethaf, sef rhwng 21% a 22%.

O ran y genres sy'n cael eu hystyried yn rhai 'mewn perygl'[65] sy'n dod o dan y categori dysgu anffurfiol, roedd y celfyddydau a cherddoriaeth glasurol wedi gostwng rhywfaint o ran nifer yr oriau cyffredinol ond roedd nifer yr oriau o gynnwys a ddarlledwyd am y tro cyntaf wedi cynyddu, ac roedd cyfanswm yr oriau o gynnwys ynghylch crefydd a moeseg wedi cynyddu o 176 awr i 210 awr yn 2018.

### Mae'r BBC hefyd yn cyflawni'r diben hwn drwy bartneriaethau a chynnwys dysgu anffurfiol ar ei wefan

Mae'r BBC yn cymryd rhan mewn partneriaethau i gynnal ymgyrchoedd a chynlluniau eraill sy'n cyflawni ei ymrwymiadau, ac sy'n helpu i gyflawni Diben Cyhoeddus 2. Mae llawer o'r rhain yn canolbwyntio ar roi sylw i faterion sydd o bwys cymdeithasol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r enghreifftiau'n cynnwys *Super Movers*, partneriaeth â'r Uwchgynghrair a Chynghrair Pêl-droed Proffesiynol yr Alban gyda'r nod o gael plant i wneud ymarfer corff wrth iddyn nhw ddysgu; *The Mind Set*, cynllun hyfforddi defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n canolbwyntio ar ddelio â'r pwysau a'r straen sy'n dod gydag arholiadau; ac *Own i*t, adnodd cynghori ar-lein sy'n ceisio hybu diogelwch ar-lein i blant.

Mae cynnwys dysgu anffurfiol hefyd ar gael ar wefan y BBC, fel *Plastics Watch*, tudalen sy'n cynnwys deunyddiau ategol ar gyfer y gyfres ddogfen, *War on Plastics with Hugh and Anita*.[66] Fodd bynnag, er bod y wefan yn llawn cynnwys dysgu anffurfiol, rydym yn sylwi nad yw'n hawdd mynd i'r safleoedd dysgu anffurfiol ar y wefan o dudalen hafan y BBC. Os byddai'n haws dod o hyd i'r cynnwys hwn, byddai'n helpu i gynyddu ei werth a'i hirhoedledd. Rydym yn ymwybodol bod y BBC wedi addasu ac archifo rhai o'i safleoedd dysgu anffurfiol ar-lein yn ddiweddar.

### Mae'r BBC yn diweddaru ac yn ehangu Bitesize

Mae defnyddwyr a rhieni yn rhoi sgôr uchel i BBC Bitesize, ond fel y dywedwyd yn adroddiad y llynedd, mae BBC Bitesize yn cyrraedd llai o bobl wrth gymharu Ch1 yn 2017 â Ch1 yn 2018.[67] Mae'r BBC wedi ymateb drwy gynnal adolygiad mawr o lwyfan Bitesize drwy gydol 2018/19. O ganlyniad i'r trawsnewid, ni allwn wneud cymhariaeth ystyrlon o ran faint o bobl mae'n eu cyrraedd eleni, a bydd yn cymryd amser i ddeall effaith y newidiadau.

Mae'r broses gychwynnol o wella Bitesize wedi canolbwyntio ar ddatblygiadau technoleg i wella profiad y defnyddwyr a phersonoli. Yn 2019 mae'r BBC wedi bod yn canolbwyntio ar ehangu ei gynnwys dysgu – er enghraifft, cynnwys i bobl dros 16 oed, cynnwys ar ddewisiadau gyrfa a chefnogi myfyrwyr mewn ffyrdd eraill y tu allan i gyfnodau arholiad.

Byddwn yn monitro a yw'r newidiadau mae'r BBC wedi'u gwneud i Bitesize yn effeithio ar y broses o geisio cynyddu ei gynulleidfa unwaith eto, a chynnal argraffiadau cadarnhaol ymysg defnyddwyr wrth symud ymlaen.

### Ochr yn ochr â CBBC, mae CBeebies yn cyrraedd llai o bobl erbyn hyn

Mae cyrhaeddiad CBBC, sydd wedi'i anelu at blant rhwng chwech a 12 oed, wedi parhau i ddirywio eleni.[68] Mae hyn yn gyson â CITV gan ITV, a oedd hefyd wedi gweld ei gyrhaeddiad yn gostwng ar gyfer y grŵp oedran hwn. Ar ôl blynyddoedd lawer o sefydlogrwydd, eleni gwelodd CBeebies hefyd – sydd wedi'i anelu at blant o dan chwech oed – ostyngiad sylweddol yn ei gyrhaeddiad wythnosol cyfartalog i blant rhwng pedair a chwech oed. Roedd hyn wedi gostwng o 39% yn 2017 i 34% yn 2018. Mae cyrhaeddiad tair o'r pedair sianel plant arall a fesurir, ac sydd ar gael ar Freeview, hefyd wedi gostwng ar gyfer y grŵp oedran hwn.[69] Mae'n bosibl y byddai cynyddu cyrhaeddiad ar-lein CBBC a CBeebies yn gwrthbwyso'r gostyngiad llinol, ond dydy'r data sydd gennym ar hyn o bryd ddim yn caniatáu i ni wneud asesiad ystyrlon i weld a yw hyn yn digwydd.

Mae'r BBC yn cydnabod y dirywiad hwn, ac fel rhan o'i strategaeth plant, mae'n buddsoddi mwy mewn cynnwys i blant ac yn rhoi mwy o bwyslais ar ei wasanaethau digidol. I gefnogi'r broses o gyflawni Diben Cyhoeddus 2, mae'n cynnig darparu ei gynnwys i blant am gyfnod hirach ar BBC iPlayer.

## Diben Cyhoeddus 3: Dangos allbwn a gwasanaethau creadigol ac unigryw o'r ansawdd gorau

Mae darparu cynnwys creadigol unigryw ac sydd o ansawdd uchel yn ganolog i Genhadaeth y BBC, ac yn hollbwysig er mwyn denu cynulleidfaoedd at yr amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael gan y BBC. Er mwyn i'r BBC gyflawni hyn, a dangos ei fod yn wahanol i ddarlledwyr eraill gyda'r cynnwys a'r gwasanaethau mae'n eu darparu, mae angen iddo fod yn barod i gymryd risgiau a bod yn arloesol yn ei ffordd o weithio. Eleni, mae'r BBC wedi cael llwyddiannau anhygoel yn yr elfen hon ar draws ei sianeli teledu, gyda rhaglenni fel *Dynasties*, *Motherfatherson* a *Bros: After the Screaming Stops*.

Y llynedd roeddem o'r farn bod y BBC yn unigryw ar y cyfan ond, er mwyn parhau i fod yn unigryw yng nghanol cystadleuaeth gref am gynulleidfaoedd teledu a radio, bod angen iddo gynnal ei ymrwymiad i raglenni gwreiddiol yn y Deyrnas Unedig sy'n siarad â chynulleidfaoedd yn y Deyrnas Unedig. Rydym hefyd o'r farn bod angen iddo wneud mwy i ennyn diddordeb pobl ifanc, a bod cynulleidfaoedd yn teimlo y gallai wneud mwy i gymryd risgiau a bod yn arloesol. Rydym wedi rhoi sylw i'r rhain ym mhrif ganfyddiadau'r adroddiad hwn, a byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am hynny mewn adroddiadau blynyddol yn y dyfodol ynghylch y BBC a'n cynllun Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr.

### Mae'r BBC wedi bod yn unigryw yn 2018/19

Ar y cyfan, mae'r darlun wedi aros yr un fath eleni ac felly, yn gyffredinol, rydym yn dal o'r farn bod y BBC yn unigryw. Mae'n dal i ddarparu cynnwys o ansawdd uchel ar draws ystod o genres ar ei wasanaethau prif ffrwd fel BBC One, ei wasanaethau arbenigol fel Radio 3, a gwasanaethau nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol â darparwr arall, fel BBC Parliament a BBC Asian Network.

Dydy argraffiadau cynulleidfaoedd o Ddiben Cyhoeddus 3 ddim wedi newid, gyda'r mwyafrif (63%) o gynulleidfaoedd yn dal i roi sgôr uchel i gynnwys unigryw'r BBC. [70]Ymhlith y rheini o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, gwelwyd gwelliant sylweddol o ran y sgôr maen nhw'n ei rhoi i berfformiad y BBC yn gyffredinol o ran Diben Cyhoeddus 3, wrth i 57%-65% roi sgôr uchel i'r BBC.[71]

### Mae'r BBC yn parhau i ddarparu cynnwys ar draws amrywiaeth o genres ar ei wasanaethau


Roedd y gymysgedd o genres teledu'r BBC wedi aros yn sefydlog yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Darpariaeth newyddion sy'n dal i gyfrif am y gyfran fwyaf o oriau rhwydwaith y BBC, sef 44%, ac yna'r ddarpariaeth i blant ar 21%.[72] Yn ystod oriau brig, mae BBC One yn dal i ddarlledu mwy o amrywiaeth o genres ac amrediad mwy cyfartal o genres, na'r darparwr cymharol agosaf, sef ITV. Mae dwy ran o dair o oedolion yn rhoi sgôr uchel i'r BBC am ddarparu cymysgedd eang o wahanol fathau o raglenni a chynnwys teledu, radio ac ar-lein.[73]

Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, mae cyfanswm y gwariant ar gynnwys teledu wedi gostwng mewn termau real dros amser. Mae'r gostyngiad mewn gwariant ar gynnwys yn cael ei lywio gan y gostyngiad, dros amser, mewn gwariant ar gynnwys sy'n cael ei ddarlledu am y tro cyntaf (darllenwch ein canfyddiadau ar dudalen 24). Er bod y gwariant ar gynnwys wedi cynyddu'n gyffredinol yn 2018 o'i gymharu â 2017 i £1.324 biliwn, dyma oedd yr ail ffigur isaf ers 2010 ar gyfer cyfanswm y gwariant ar y rhwydwaith, pan roedd y gwariant yn £1.714 biliwn.

### Er bod y BBC wedi cynnal nifer ei oriau darlledu, roedd nifer y cyfresi wedi lleihau

Fel y nodwyd ar dudalen 25, mae nifer y rhaglenni teledu ar wasanaethau teledu'r BBC wedi gostwng un rhan o bump yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd nifer y cyfresi a oedd yn dychwelyd wedi gostwng mwy na nifer y cyfresi newydd (gweler y graff isod), felly mae'r cydbwysedd rhyngddynt yn fwy

**Nifer teitlau cyfresi newydd/sy'n dychwelyd a nifer yr oriau a ddarlledwyd ar deledu'r BBC 2017 vs. 2018**




*Ffynhonnell: Ofcom/BBC. Nodyn: mae'r ffigurau ar gyfer cynnwys gwreiddiol yn unig ac maent yn adlewyrchu nifer y teitlau unigol a ddarlledwyd yn 2017 a 2018 ar BBC One, BBC Two, BBC Four, CBBC a CBeebies. Mae data ar gyfer 2017 wedi cael eu hailddatgan er mwyn gallu cymharu'r ffigurau â data 2018. Nid yw'r ffigurau'n cynnwys ailddarllediadau, rhaglenni'r gwledydd/rhanbarthau na darllediadau gwleidyddol y pleidiau.*

cyfartal erbyn hyn. Roedd y BBC yn gallu cynnal nifer ei oriau darlledu, gyda chyfresi a oedd yn dychwelyd sy’n dal i gyfrif am y mwyafrif o oriau darlledu. Gellir priodoli rhywfaint o hyn i ddigwyddiadau chwaraeon a oedd yn dychwelyd, fel Gemau'r Gymanwlad a Chwpan y Byd FIFA, a oedd yn ychwanegu dros 300 awr gyda'i gilydd at gynnwys cyfresi a oedd wedi dychwelyd eleni. Crefydd a moeseg oedd yr unig genre i weld cynnydd yn nifer y rhaglenni.

### Mae BBC Radio yn dal yn unigryw

Mae'r rhan fwyaf o wrandawyr BBC Radio yn parhau i roi sgôr uchel i BBC Radio o’i gymharu â gorsafoedd eraill o ran Diben Cyhoeddus 3.[74]

Mae’r BBC yn dal i ddarparu ystod eang o gynnwys radio unigryw. Mae BBC Radio 1 a BBC Radio 2 yn dal ar y blaen i ddarparwyr masnachol allweddol o ran amrywiaeth ac ystod y gerddoriaeth sy'n cael ei chwarae. Mae’r ddwy orsaf wedi bodloni eu cwotâu ar gyfer ‘cerddoriaeth newydd’, ac roedd ein cymhariaeth enghreifftiol ni’n dangos bod gan orsafoedd masnachol cymharol gyfradd uwch o lawer o ran ailchwarae traciau yn ystod y dydd (edrychwch ar atodiad 2, t.63).

Ar ôl tair blynedd o ostyngiad cyson, mae gwariant y BBC ar gynnwys radio wedi cynyddu 3% yn erbyn 2017/18, yn bennaf oherwydd bod Radio 1, Radio 4 a sianeli radio lleol/y gwledydd wedi cael mwy o gyllid. Mae’r gwariant ar radio yn 2018/19 yn uwch nag y bu ers pedair blynedd, a dyma'r tro cyntaf ers 2014/15 i'r BBC gynyddu ei wariant ar gynnwys radio.

### Mae’r BBC yn darparu mwy o gynnwys ar-lein

Er mwyn cyrraedd cynulleidfaoedd y Deyrnas Unedig yn y ffordd orau bosibl, mae angen i'r BBC barhau i arloesi o ran y ffordd mae’n darparu ei gynnwys. Lansiodd BBC Sounds, ap a fydd yn gartref i holl gynnwys sain y BBC. Fel rhan o'r strategaeth hon, mae ap BBC iPlayer Radio wedi cael ei ddiffodd. Bydd ein hasesiad cyntaf o berfformiad BBC Sounds yn cael sylw yn adroddiad blynyddol y flwyddyn nesaf.

Mae BBC Sounds yn cynnal amrywiaeth o bodlediadau, ac o blith yr holl gyhoeddwyr podlediadau, y BBC sy’n cyrraedd y mwyaf o bobl ymysg y rheini a holwyd fel rhan o adroddiad Cyfryngau’r Genedl Ofcom 2019. Mae enghreifftiau amlwg o bodlediadau llwyddiannus gan y BBC yn cynnwys podlediadau *That Peter Crouch Podcast* a *Brexitcast* gan Radio 5 Live. I helpu pobl i ddod o hyd i gynnwys mwy amrywiol, mae'r BBC wedi cyhoeddi ei fod yn bwriadu datblygu ‘algorithm gwasanaeth cyhoeddus’ ar gyfer BBC Sounds.[75]

Mae defnyddwyr gwasanaethau ar-lein y BBC yn rhoi sgôr ffafriol ar gyfer cyflawni Diben Cyhoeddus 3, a’r sgôr ar gyfer darparu cynnwys a rhaglenni ar-lein unigryw sydd wedi cynyddu fwyaf o blith y cwestiynau rydym yn eu gofyn am Ddiben Cyhoeddus 3 yn ystod y flwyddyn flaenorol.[76]

Mae datblygiadau yn y gwasanaethau ar-lein yn cynnwys y newidiadau a gytunwyd gan Ofcom i BBC iPlayer, er mwyn sicrhau bod cynnwys y BBC ar gael am gyfnod hirach. Yn 2018/19, mae'r BBC wedi gwario 14% yn fwy ar gynnwys ar-lein y BBC, sef £214 miliwn i gyd. Mae hyn yn adlewyrchu cynnydd mewn cynhyrchu cynnwys sydd ar gael ar-lein yn unig, i'w ddosbarthu drwy BBC iPlayer a BBC Three.

## Diben Cyhoeddus 4: Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig, a chefnogi'r economi greadigol ledled y Deyrnas Unedig drwy wneud hynny

Yn dilyn ein hadolygiad o gynrychiolaeth a phortreadu, a ganfu fod rhai grwpiau yn teimlo eu bod yn cael eu tangynrychioli neu'n cael eu portreadu mewn ffordd annilys ar y teledu, roeddem wedi dweud y byddai ein canfyddiadau yn waelodlin ar gyfer asesu perfformiad y BBC yn y dyfodol mewn perthynas â Diben Cyhoeddus 4 ac y byddem yn monitro'r cynnydd eleni. Rydym yn amlinellu canfyddiadau'r adolygiad ar dudalen 18 yr adroddiad hwn. Ar dudalennau 14-20, rydym yn nodi rhai o'n pryderon cyffredinol â sut mae'r BBC yn cyflawni yn erbyn ei ofynion amrywiaeth.

### Nid yw'r perfformiad cyffredinol o ran cyflawni Diben Cyhoeddus 4 wedi newid llawer

Nid oedd barn y gynulleidfa wedi newid llawer ers y llynedd o ran sut roedd y BBC yn cyflawni Diben Cyhoeddus 4.[77]

Fodd bynnag, wrth edrych ar grwpiau penodol o'r gynulleidfa, roedd canfyddiad pobl Asiaidd/Asiaidd Prydeinig a phobl anabl dan 65 oed wedi gwella mewn perthynas â chyflawni Diben Cyhoeddus 4. Roedd pobl o grwpiau economaidd-gymdeithasol is, a phobl dros 65 oed, yn enwedig pobl anabl dros 65 oed, wedi rhoi sgôr is na'r cyfartaledd. Ar ben hynny, roedd barn ynghylch agweddau penodol ar gynrychiolaeth a phortreadu wedi disgyn ymysg y grŵp oed 55+ ond wedi gwella ymysg dynion 16-24 oed.

Ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau, roedd pobl yn yr Alban wedi rhoi sgôr is na'r cyfartaledd ar gyfer cynrychiolaeth a phortreadu pobl a lleoedd. Roedd cynrychioli Cymru yn fater o bwys i gynulleidfaoedd yng Nghymru a roddodd sgôr is na'r cyfartaledd i'r BBC. Yn groes i hynny, roedd sgôr cynulleidfa Lloegr yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer pob datganiad Diben Cyhoeddus 4 ac mae hyn wedi bod yn gyson o un flwyddyn i'r llall. Mae'r farn yng Ngogledd Iwerddon hefyd wedi bod yn gyson o un flwyddyn i'r llall.

Fel rydym wedi nodi ar dudalen 17, mae'r BBC wedi dweud wrthym nad oes ganddo unrhyw gynulleidfaoedd anfodlon. Rydym yn poeni nad yw'r fethodoleg mae'n ei defnyddio yn rhoi darlun cywir i'r BBC o'r grwpiau hynny nad yw'n eu gwasanaethu'n ddigonol. Rydym yn disgwyl i'r BBC gynnal adolygiad mwy cyflawn o gynulleidfaoedd anfodlon, ac adrodd ar unrhyw gamau y bydd yn eu cymryd i wella bodlonrwydd cynulleidfaoedd ymhlith unrhyw grwpiau anfodlon y mae wedi eu nodi yn ei Gynllun Blynyddol ar gyfer 2020/21. Os na fyddwn ni'n fodlon, byddwn yn ymgynghori ynghylch diwygio'r amod hwn yn y Drwydded Weithredu.

### Mae'r BBC yn cael sgôr uwch am gwestiynau ynghylch cynrychiolaeth nag ar gwestiynau ynghylch portreadu pobl a lleoedd

Pan ofynnwyd a yw bywyd a diwylliant amrywiaeth o gymunedau gwahanol ar draws y Deyrnas Unedig yn cael eu cynrychioli'n gywir a'u portreadu'n ddilys gan y BBC, rhoddodd cynulleidfaoedd sgôr is i'r BBC ar gwestiynau ynghylch portreadu. Roedd ychydig o dan hanner cynulleidfaoedd y Deyrnas Unedig yn teimlo bod y BBC yn gwneud yn dda o ran portreadu pobl fel nhw neu eu rhanbarth mewn ffordd ddilys.[78]

Ymysg grwpiau o'r gynulleidfa, pobl anabl dros 65 oed a chynulleidfaoedd yn yr Alban oedd â'r canfyddiad isaf ar draws y datganiadau ynghylch sut hwyl mae'r BBC yn ei gael ar bortreadu pobl.

Roedd pob sgôr gan bobl anabl dros 65 oed yn is na'r cyfartaledd, yn enwedig o ran *'portread dilys o bobl fel fi'* sef 37% a oedd wedi disgyn o 45% y llynedd.

Ar gyfer cynulleidfaoedd yn yr Alban, roedd *'portread dilys o'r rhanbarth lle rwyf yn byw'* yn arbennig o isel ac yn is na'r llynedd, ac roedd hyn wedi cael ei wthio i lawr gan bobl mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is. Roedd ychydig dros un rhan o dair o gynulleidfaoedd yn yr Alban yn rhoi sgôr uchel i hyn, ac roedd cyfran debyg yn rhoi sgôr isel iddo. Ond roedd canfyddiadau pobl ynghylch *'portread dilys o bobl fel fi'* wedi gwella, gyda'r nifer a oedd yn rhoi sgôr uchel i'r BBC yn codi o 39% i 42%.

Lansiwyd sianel newydd y BBC yn arbennig i'r Alban, BBC Scotland, ar 24 Chwefror 2019, (edrychwch ar dudalen 41) ac mae newyddion a materion cyfoes yn rhan greiddiol o gynnig y sianel. Mae'r brif raglen newyddion, *The Nine,* yn darlledu newyddion rhyngwladol, y Deyrnas Unedig a'r Alban saith noson yr wythnos.

Mae ffigurau gwylio'r sianel hyd yma yn weddol debyg i'r hyn roeddem wedi'i ragweld yn ein hasesiad.[79] Mae hi'n rhy gynnar i'n traciwr asesu effaith sianel BBC Scotland (a lansiwyd ym mis Chwefror 2019) ar safbwyntiau gwylwyr yn yr Alban. Bydd BBC Scotland yn cael sylw mwy amlwg yn ein hadroddiad nesaf, pan fyddwn ni'n adrodd ar flwyddyn lawn gyntaf y sianel o ddarlledu.

Mae pobl o grwpiau economaidd-gymdeithasol is yn parhau i roi sgôr is na'r cyfartaledd i'r BBC ar bob agwedd ar gynrychiolaeth a phortreadu. Mae hyn yn cyd-fynd â phatrymau gwylio gwasanaethau teledu a radio'r BBC, yn arbennig y rhai sy'n cael eu defnyddio fwy gan gynulleidfaoedd hŷn ac ABC1 o gymharu â darlledwyr masnachol. Mae'r bylchau mwyaf rhwng argraffiadau grwpiau economaidd-gymdeithasol uwch ac is yn ymwneud â darpariaeth y BBC o *'raglenni a chynnwys sy'n berthnasol i mi'* a darparu *'amrywiaeth dda o raglenni a chynnwys sy'n cynnwys pobl fel fi'*.

### Roedd y BBC wedi cyflawni ei gwotâu o ran cefnogi'r economi greadigol ar draws y Deyrnas Unedig

Mae'r Drwydded Weithredu yn pennu cwotâu o ran y gwariant a'r oriau y mae'n rhaid i'r BBC fuddsoddi yn economïau creadigol pob un o'r gwledydd a chyfrannu at eu datblygiad wrth gomisiynu a darparu cynnwys.

Ni fu newid mawr ers y llynedd ac roedd wedi cyflawni amodau ei Drwydded Weithredu o ran gwariant ac oriau ar gyfer cynyrchiadau rhwydwaith gwreiddiol o'r gwledydd a'r rhanbarthau, gyda 62.3% o oriau cymwys ei gynnwys rhwydwaith yn diwallu'r meini prawf. Roedd ei wariant cymwys yn is (50.7% o'i gymharu â 51.1% yn 2017), ond yn dal yn uwch na gofyniad 50% y cwota.[80]

## Meysydd gwaith eraill

Yn ogystal â'n gwaith yn monitro cydymffurfiad y BBC, rydym wedi diweddau'r Drwydded Weithredu i ystyried lansio sianel BBC Scotland ac roeddem wedi adolygu newyddion a materion cyfoes y BBC. Mae crynodeb o ganfyddiadau'r adolygiad hwn ar gael uchod ar dudalen 25.

Ochr yn ochr â'r adroddiad hwn, rydym wedi cyhoeddi ein hadroddiad perfformiad sy'n cynnwys ein hasesiad o sut y mae'r BBC wedi cyflawni'r Dibenion Cyhoeddus yn ôl y fframwaith mesur yr oeddem wedi'i gyhoeddi ym mis Hydref 2017.[81] Mae hwn yn golygu bod modd mesur perfformiad y BBC ar draws ei holl wasanaethau ac allbwn ac mae'n rhoi safbwynt cyffredinol ynghylch sut y mae'r BBC yn cyflawni ar gyfer cynulleidfaoedd.

### Diweddaru'r Drwydded Weithredu ar gyfer y sianel BBC Scotland

Ar ôl asesiad cystadleuaeth, ar 26 Mehefin 2018, gwnaethom gyhoeddi ein penderfyniad y gallai'r BBC fwrw ymlaen i lansio sianel BBC Scotland. Yna fe wnaethom ymgynghori ar newidiadau arfaethedig i'r Drwydded Weithredu i adlewyrchu effaith y sianel newydd. Cafodd y newidiadau eu rhoi ar waith ym mis Ionawr 2019 cyn lansio'r sianel ar 24 Chwefror 2019.

Mae'r newidiadau'n cynnwys gosod gofynion ychwanegol ar Sianel BBC Scotland i sicrhau'r canlynol: bod o leiaf 250 awr o gynnwys newyddion yn cael ei ddarlledu ar y sianel yn ystod y cyfnod gwylio brig; bod 75% o allbwn y sianel yn gynyrchiadau gwreiddiol; a bod o leiaf 90% o raglenni gwreiddiol sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar y sianel newydd yn cael eu gwneud yn yr Alban.

Rydym wedi cael gwared â phob cyfeiriad yn y Drwydded Weithredu at wasanaeth optio allan BBC Two Scotland, a oedd yn dod i ben yn dilyn lansio Sianel BBC Scotland; rydym wedi cadw rhai o'r amodau a oedd yn arfer bod yn berthnasol i BBC Two Scotland, er mwyn iddyn nhw fod yn berthnasol i Sianel BBC Scotland yn awr; ac rydym wedi diwygio rhai cwotâu oriau a oedd yn arfer bod yn berthnasol i'r gwasanaethau optio allan amrywiol ar BBC One a BBC Two gyda'i gilydd, ac wedi rhoi'r rhain ar waith ar gyfer y sianel newydd. Roeddem hefyd wedi nodi sut dylid trin rhaglenni sy'n cael eu comisiynu ar y cyd gan wahanol wasanaethau teledu'r BBC er mwyn ystyried cwotâu penodol sydd yn y Drwydded Weithredu.[82]

## Blaenraglen waith ar gyfer 2019/20

Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r BBC i sicrhau ei fod wedi gwreiddio ei brosesau'n llawn er mwyn monitro ei gydymffurfiad ag amodau'r Drwydded Weithredu.

Yn dilyn ein hasesiad, rydym wedi cymeradwyo cynigion y BBC i ymestyn y cynnwys sydd ar gael ar BBC iPlayer, yn amodol ar amodau a chyfarwyddyd penodol. Yn unol â'n canllawiau Asesiad Cystadleuaeth y BBC ("BCA"),[83] rydym wedi cyflwyno gofynion adrodd er mwyn ein galluogi ni i fonitro gweithredu ac effaith cynigion y BBC. Rydym wedi mynnu bod y BBC yn cynnig targedau a mesurau perfformiad diwygiedig, pan fo'n briodol, ac yn asesu perfformiad BBC iPlayer a sut mae'n cyfrannu at y genhadaeth a'r dibenion cyhoeddus. Rhaid iddo ymgynghori â ni ar ei gynigion erbyn 31 Hydref 2019 a rhoi'r mesurau perfformiad hyn ar waith erbyn 31 Rhagfyr 2019. Byddwn hefyd yn adrodd ar berfformiad iPlayer yn ein hadroddiad blynyddol y flwyddyn nesaf.

Fel y nodir uchod, rydym wedi dechrau ystyried siâp y Drwydded Weithredu yn y dyfodol er mwyn adlewyrchu ffocws cynyddol y BBC i gyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus drwy wasanaethau ar-lein. Byddwn yn parhau â'r gwaith hwn yn ystod y flwyddyn nesaf.



# Effaith y BBC ar gystadleuaeth

## Cyflwyniad

Gan fod y BBC yn sefydliad mawr sy’n cael arian cyhoeddus, sy’n gweithredu ar draws y sectorau teledu, radio ac ar-lein, mae’r BBC yn gallu effeithio ar gystadleuaeth yn sector cyfryngau’r DU. Mae’n bosibl i'r effaith hon fod yn gadarnhaol, gan ysgogi’r galw neu hybu arloesedd. Ond wrth gyflawni ei amcanion, ac fel sy’n cael ei gydnabod yn y Siarter a’r Cytundeb, gall y BBC hefyd niweidio gallu cwmnïau eraill i gystadlu’n effeithiol.

Mae angen i’r BBC ddatblygu er mwyn cyflawni ei Genhadaeth a’i Ddibenion Cyhoeddus, yn enwedig wrth ystyried datblygiadau yn y sector. Fodd bynnag, wrth wneud hynny, rhaid iddo geisio osgoi effeithiau niweidiol ar gystadleuaeth yn y Deyrnas Unedig nad ydynt yn angenrheidiol er mwyn cyflawni’r Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus yn effeithiol, fel sy'n ofynnol gan Erthygl 11 y Siarter. Mae ganddo hefyd ddyletswydd o dan Erthygl 11 i roi ystyriaeth benodol i effeithiau ei weithgareddau ar gystadleuaeth yn gyffredinol, ac ystyried hyrwyddo effeithiau cadarnhaol ar y farchnad ehangach.

Mae gan Fwrdd y BBC ac Ofcom rolau gwahanol o ran effaith y BBC ar gystadleuaeth yn y Deyrnas Unedig. Mae dyletswyddau Bwrdd y BBC yn mynnu ei fod yn ymdrechu’n barhaus i atal ei wasanaeth cyhoeddus a’i weithgareddau masnachol rhag ystumio cystadleuaeth. Rôl Ofcom yw rheoleiddio’n gadarn, yn deg ac yn annibynnol er mwyn diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol.

## Sut rydym yn rheoleiddio effaith y BBC ar gystadleuaeth

**Rôl Ofcom yw ystyried a yw gwerth cyhoeddus newid sylweddol i'w weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus sy'n cael ei gynnig gan y BBC yn cyfiawnhau unrhyw effeithiau niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.** Gallwn ystyried hyn o dan Asesiad Cystadleuaeth y BBC (BCA) neu asesiad byrrach.

Hefyd, gallwn adolygu **gweithgareddau gwasanaeth cyhoeddus parhaus** y BBC os oes gennym unrhyw bryderon y gallent fod yn cael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol, o dan Adolygiad Cystadleuaeth BBC (BCR).

Rydym wedi darparu arweiniad i sicrhau bod y BBC yn trafod trefniadau dosbarthu ar sail deg, resymol heb wahaniaethu, gan ystyried ei rwymedigaethau i gyflawni ei Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus hefyd.

Mae'n ofynnol i'r BBC sicrhau bod ei weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus yn cael eu gweithredu ar wahân i'w is-gwmnïau masnachol ac nad yw'r is-gwmnïau yn cael mantais gystadleuol annheg nac yn ystumio'r farchnad oherwydd eu cysylltiad â'r gwasanaethau cyhoeddus.

Dros gyfnod y Siarter mae'n rhaid i'r BBC gomisiynu mwy o gynnwys yn dilyn proses gystadleuol. Rhaid iddo hefyd sicrhau bod y broses hon yn deg, yn rhesymol, nad yw'n gwahaniaethu a'i bod yn dryloyw (FRNDT). Rôl Ofcom yw monitro cydymffurfiad y BBC a gorfodi'r gofynion hynny.

Yn Chwefror 2019, gwnaethon ni gyhoeddi canllawiau yn nodi'r ffactorau y bydden ni'n ystyried wrth asesu os oedd y BBC wedi cyflawni ei ymrwymiadau ynghylch comisiynu FRNDT os oedd archwiliad. Mae gennym rol i orfodi cydymffurfiaeth gan y BBC fel rhan o'i anghenion o dan y Siarter a'r Cytundeb ac rydyn ni wedi cyhoeddi canllawiau rydyn ni fel arfer yn eu dilyn pan yn gorfodi cydymffurfiaeth gan y BBC â'i anghenion cystadleuaeth.

### Tryloywder ac ymgysylltu â thrydydd partïon

Fel sy'n cael ei drafod yn ein prif ganfyddiadau, mae angen i'r BBC fod yn fwy agored o lawer i ymgysylltu â thrydydd partïon i gyflawni ei ddyletswydd i ystyried effaith ei weithgareddau ar gystadleuaeth. Ac ystyried dyletswyddau parhaus y BBC i ddiogelu cystadleuaeth, mae angen iddo ymgysylltu'n weithredol ac yn agored gyda rhanddeiliaid, yn enwedig wrth gynllunio newidiadau i'w wasanaeth cyhoeddus a'i weithgareddau masnachol.

Fel rydym yn ei egluro ar dudalen 23, mae manteision sylweddol i'r BBC yn sgil ymgysylltu â thrydydd partïon wrth ystyried gweithgareddau gwasanaeth cyhoeddus newydd neu newidiadau i'r rhai sydd eisoes yn bodoli, gan gynnwys posibilrwydd osgoi'r angen i Ofcom gamu i mewn.

Mae gan y BBC ragor o waith i'w wneud yn y maes hwn, fel y gwelwyd yn ei ddull gweithredu gyda'r newidiadau arfaethedig i BBC iPlayer, lle y dylai fod wedi ymgysylltu'n fwy effeithiol â rhanddeiliaid. Er mwyn diwallu ei ddyletswydd o dan Erthygl 11 y Siarter, mae

angen i'r BBC wybod sut y gallai newidiadau arfaethedig effeithio ar randdeiliaid ac ystyried hyn wrth ddatblygu'r cynigion hynny. Roedd rhanddeiliaid wedi codi pryderon gydag Ofcom ynghylch diffyg ymgysylltiad y BBC am ei gynlluniau ar gyfer BBC iPlayer – ar ddechrau'r broses o ystyried a oedd ei gynigion yn sylweddol, ac wedyn yn nes ymlaen yn ystod ei broses Prawf Lles y Cyhoedd (PIT).[84]

Fel sy'n cael ei amlinellu ar dudalen 22, byddai'r BBC wedi gallu bod yn fwy tryloyw ac ymgysylltu'n well gyda ni a gyda rhanddeiliaid ynghylch y newidiadau mae wedi'u gwneud i'w linellau busnes.

Mae'r BBC wedi dangos ei fod yn gallu gwella tryloywder, fel sydd wedi cael ei ddangos yn y ffordd y mae wedi delio â newidiadau arfaethedig mewn meysydd eraill. Er enghraifft, roedd y BBC wedi ymgysylltu'n gadarnhaol drwy rannu ei newidiadau i BBC Bitesize â'r sector addysg. Mae'n cynnal sesiynau briffio rheolaidd ar gyfer y diwydiant, ac mae'r rhain yn cael eu recordio ac ar gael ar-lein i'r cyhoedd.

Bu ymgysylltiad gweithredol ac agored gydag Ofcom hefyd, er enghraifft mewn perthynas â'r cynigion ar gyfer BritBox. Roedd y BBC ac ITV wedi rhannu eu cynlluniau a gwybodaeth â ni ar gam cynnar. Roedd hyn yn ddefnyddiol oherwydd roeddem yn gallu nodi ac ystyried pryderon wrth i'r cynlluniau gael eu creu, ac o ganlyniad i hynny roedd hi'n bosibl i ni gwblhau ein hasesiad yn ddiymdroi.

### Trefniadau llywodraethu ar gyfer gwasanaethau masnachol y BBC

Mae trefniadau llywodraethu effeithiol ac annibynnol ar gyfer is-gwmnïau masnachol y BBC yn bwysig er mwyn sicrhau bod y gweithgareddau masnachol yn cael eu rheoli ar wahân i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC. Mae Bwrdd y BBC a'r Pwyllgor Masnachu Teg yn gyfrifol am ei gydymffurfiad.

Roeddem wedi codi pryderon yn adroddiad blynyddol y BBC y llynedd am drefniadau llywodraethu y BBC ar gyfer ei weithgareddau masnachol. Yn benodol, mewn perthynas â chyfansoddiad y Bwrdd Daliadau Masnachol a thryloywder y trefniadau llywodraethu hyn. Ers ein hadroddiad diwethaf, mae'r BBC wedi gwella tryloywder ei drefniadau llywodraethu.

Ym mis Rhagfyr 2018, cyhoeddodd y BBC rai newidiadau i'r Bwrdd Daliadau Masnachol.[85] Yn benodol, roedd hyn yn cynnwys cyfran fwy o gyfarwyddwyr anweithredol ac y byddai'r cadeirydd yn aelod anweithredol o'r Bwrdd hefyd, yn hytrach na Chyfarwyddwr Cyffredinol y BBC.

Mae'r BBC hefyd wedi cyhoeddi gwybodaeth ychwanegol am lywodraethu ei is-gwmnïau masnachol ar ei wefan, sy'n mynd i'r afael â'n pryder ynghylch diffyg gwybodaeth yn y maes hwn. Dros y flwyddyn, bu Ofcom yn un o sesiynau'r Pwyllgor Masnachu Teg a chynhaliodd gyfarfodydd rheolaidd gyda'i gadeirydd a Chadeirydd y BBC i drafod ei waith. Mae'r cyfarfodydd hyn wedi ein galluogi i ddeall yn well sut mae'r Pwyllgor Masnachu Teg yn ceisio helpu'r Bwrdd i sicrhau bod y BBC yn cydymffurfio â gofynion masnachu a gwahanu Ofcom. Gyda chadeirydd y Pwyllgor Masnachu Teg, rydym yn parhau i ystyried elfennau lle mae'n bosibl gwneud y Pwyllgor Masnachu Teg yn fwy effeithiol.

## Meysydd gwaith eraill

### Newidiadau i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC

O dan y Siarter a'r Cytundeb, mae Bwrdd y BBC yn gyfrifol, yn y lle cyntaf, am ystyried effaith newidiadau arfaethedig i

weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC. Yn benodol, mae'n rhaid iddo ystyried a yw'r newidiadau arfaethedig yn sylweddol ac mae'n rhaid iddynt fod yn destun Prawf Lles y Cyhoedd.

Mae Prawf Lles y Cyhoedd yn ystyried a fyddai newid sylweddol arfaethedig yn cynhyrchu digon o werth cyhoeddus i gyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol ar gystadleuaeth. Os caiff Prawf Lles y Cyhoedd ei fodloni, rhaid i'r BBC gyhoeddi'r cynnig a'i gyfeirio at Ofcom ar gyfer asesiad o dan ein gweithdrefnau.

Pan fydd y BBC yn penderfynu nad yw newid yn sylweddol, mae'n cael bwrw ymlaen. Fodd bynnag, mae'r pŵer gennym i alw newid i wasanaeth i mewn os ydym yn credu ei fod yn sylweddol, a mynnu bod y BBC yn rhewi'r gweithgaredd a/neu yn cynnal Prawf Lles y Cyhoedd.

### BBC iPlayer

Ym mis Mehefin 2018, cyflwynodd y BBC gynigion i Ofcom er mwyn ychwanegu cyfresi cyfan at BBC iPlayer, ac nid oedd yn credu bod hyn yn newid sylweddol. Ar ôl asesiad, roeddem yn anghytuno â'r BBC, ac o'r farn y gallai ei gynigion gael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Roeddem felly wedi mynnu bod y BBC yn cynnal Prawf Lles y Cyhoedd ac roeddem wedi gosod cyfyngiadau dros dro ar gynnwys BBC iPlayer.

Ym mis Ebrill 2019, cyhoeddodd y BBC ganlyniad ei Brawf Lles y Cyhoedd. Roedd ei newidiadau arfaethedig i BBC iPlayer yn cynnwys darparu pob rhaglen newydd ar BBC iPlayer am 12 mis fel mater o drefn. Dywedodd y BBC fod y cynigion yn bodoli'r Prawf Lles y Cyhoedd, gan y byddai modd cyfiawnhau unrhyw effeithiau ar gystadleuaeth deg ac effeithiol drwy'r gwerth cyhoeddus y byddai'r newidiadau yn ei greu i gynulleidfaoedd.

Ar yr un pryd, roeddem wedi lansio BCA (gweler y blwch ar dudalen 45) gan ofyn am dystiolaeth gan randdeiliaid ynghylch sut byddai cynigion y BBC yn effeithio ar eu busnesau neu ar eu cynlluniau buddsoddi. Cafodd hyn ei ddilyn gan ail ymgynghoriad ym mis Mehefin pan roddem wedi ymgynghori ynghylch ein casgliadau dros dro, gan roi cyfle olaf i randdeiliaid gyflwyno sylwadau.

Ym mis Awst 2019 roeddem wedi cwblhau ein BCA drwy gyhoeddi ein penderfyniad terfynol bod gwerth cyhoeddus cynigion y BBC ar gyfer BBC iPlayer yn cyfiawnhau'r effaith debygol ar gystadleuaeth ac felly y byddai'r BBC yn cael bwrw ymlaen â'r cynigion, yn amodol ar amodau a chanllawiau.[86]

### BBC Sounds

Yn 2018 roeddem wedi ymgysylltu â'r BBC ynghylch ei asesiad o sylwedd ar gyfer cam 1 BBC Sounds, a oedd yn cynnig cyfuno gwasanaeth BBC iPlayer Radio gyda BBC Music i greu BBC Sounds, gwella'r swyddogaethau i ddefnyddwyr a chynyddu'r cynnwys a oedd ar gael y tu allan i'r amserlen. Nid oedd gennym bryderon ynghylch cynigion cam 1, a lansiodd y BBC yr ap yn swyddogol ym mis Hydref 2018.

## Comisiynau'r BBC

Mae'r Siarter a'r Cytundeb yn mynnu bod y BBC yn cynyddu faint o raglenni a deunyddiau mae'n eu comisiynu ar gyfer ei weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus drwy broses gystadleuol rhwng cynhyrchwyr. Ein rôl yw gorfodi'r gofynion hynny, ac ystyried a ddylem osod gofynion ychwanegol mewn perthynas â chomisiynu ar gyfer ei weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus i ddiogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol.

Yn dilyn adolygiad o sut mae'r BBC yn comisiynu cynnwys ym mis Chwefror eleni, fe wnaethom gyhoeddi datganiad lle'r oeddem yn penderfynu peidio â gosod unrhyw ofynion

newydd mewn perthynas â chomisiynu. Y rheswm am hyn yw bod y BBC eisoes yn rhwym wrth ofyniad i sicrhau ei fod yn comisiynu'n deg, yn rhesymol, yn dryloyw ac mewn ffordd nad yw'n gwahaniaethu (FRNDT)

Fodd bynnag, roeddem wedi cyhoeddi canllawiau'n nodi'r ffactorau y byddwn yn eu hystyried wrth asesu a yw'r BBC wedi diwallu ei ddyletswyddau o ran comisiynu mewn ffordd deg, resymol, dryloyw a heb wahaniaethu, yn enwedig petai ymchwiliad. Roeddem hefyd wedi cael ymrwymiadau gan y BBC i gyhoeddi rhagor o wybodaeth er mwyn cynyddu'r tryloywder i randdeiliaid a chaniatáu i ni gyflawni ein rôl monitro.

## Ystyried cais am adolygiad cystadleuaeth BBC

Yn 2018, roeddem wedi ystyried cais gan y Wireless Group i agor BCR (gweler y blwch ar dudalen 45) i sut mae'r BBC yn cael hawliau chwaraeon ar gyfer BBC Radio 5 Live, BBC Radio 5 live Sports Extra a Radio 4 long wave. Dywedodd y Wireless Group fod gweithgareddau'r BBC yn y maes hwn yn niweidio cystadleuaeth ar gyfer y farchnad yn is i lawr ar gyfer radio masnachol chwaraeon.

Ym mis Rhagfyr, roeddem wedi cyhoeddi ein casgliad er ei bod hi'n bosibl y gallai'r BBC effeithio'n andwyol ar y gystadleuaeth rhwng y rheini sy'n ceisio cael hawliau chwaraeon, na ddylem ddefnyddio ein disgresiwn i lansio adolygiad.[87]

## Gweithgareddau masnachol a masnachu'r BBC

Ym mis Chwefror 2019, roeddem wedi cyhoeddi gofynion a chanllawiau wedi'u diweddaru sy'n ceisio mynd i'r afael â phryderon ynghylch cystadleuaeth a allai godi yn sgil y berthynas rhwng gweithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC a'i is-gwmnïau masnachol. Roeddem wedi egluro nifer o ofynion a oedd eisoes yn bodoli ac roeddem wedi cyflwyno rhai mesurau adrodd ychwanegol i ddarparu mwy o dryloywder o ran sut mae'r BBC yn diwallu ein gofynion.[88]

### Asesiadau o sylwedd

Os yw'r BBC yn gwneud newid mawr i'w weithgareddau masnachol neu'n dechrau gweithgaredd newydd, rhaid iddo ystyried a yw'r newid yn "sylweddol". Mae hyn yn cynnwys penderfynu a oes risg sylweddol y gallai'r newid ystumio'r farchnad neu greu mantais gystadleuol annheg o ganlyniad i berthynas y gweithgaredd â gweithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC.

Mae ein gwaith ar asesiadau o sylwedd y BBC dros y flwyddyn ddiwethaf wedi cynnwys ystyried y gwasanaeth BritBox newydd a'r cytundeb UKTV. Er nad oeddem yn ystyried bod BritBox nac UKTV yn newidiadau sylweddol, roeddem yn credu ei bod hi'n bwysig bod yn dryloyw ynghylch ein penderfyniadau

### BritBox

Ym mis Chwefror 2019 cyhoeddodd ITV a'r BBC eu bod yn lansio gwasanaeth tanysgrifio fideo ar-alw yn y Deyrnas Unedig o'r enw BritBox, a fydd yn dod â rhaglenni gorau Prydain at ei gilydd.

Roeddent wedi cyflwyno eu cynlluniau ym mis Gorffennaf ac roeddem wedi cyhoeddi ein penderfyniad dros dro i gael sylwadau gan randdeiliaid a oedd yn amlinellu nad oeddem yn meddwl bod ymwneud y BBC a'r fenter BritBox yn newid sylweddol i'w weithgareddau masnachol.

Ym mis Medi, roeddem wedi cadarnhau yn ein penderfyniad terfynol nad ydym yn ystyried bod ymwneud y BBC â BritBox yn newid sylweddol i weithgareddau masnachol y BBC. Ond, roeddem wedi nodi y byddwn yn monitro datblygiadau'n ofalus (yn arbennig o ran newidiadau i'r polisi rhyddhau rhaglenni

ac unrhyw drawshyrwyddo gan y gwasanaeth cyhoeddus i BritBox) ac mae modd i ni gamu i mewn os bydd pryderon yn codi yn y dyfodol.

### UKTV

Ym mis Ebrill 2019 roedd BBC Studios a Discovery wedi cyhoeddi eu bod yn diddymu ei menter ar y cyd sef UKTV a oedd yn cynnwys deg sianel UK TV a gwasanaeth fideo ar alwad o’r enw UKTV Play. Roeddent wedi penderfynu y byddai BBC Studios yn cadw saith o’r deg sianel, UKTV Play a'r brand UKTV, ac y byddai BBC Studios yn talu tua £170m i Discovery am hynny.[89] Nid oedd y BBC yn meddwl bod y cytundeb yn newid sylweddol i’w weithgareddau masnachol. Roeddem yn cytuno nad oedd y newid yn sylweddol ac yn cadarnhau na fyddem yn cynnal asesiad cystadleuaeth ffurfiol pellach.[90]

### Monitro gweithgareddau masnachol y BBC

Er mwyn diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol, a sicrhau bod y bwlch yn ddigonol, rydym yn monitro'r berthynas rhwng gweithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC a'i is-gwmnïau masnachol (gan gynnwys sut mae’r BBC wedi gweithredu ein gofynion masnachu a gwahanu). Yn Atodiad 1rydym yn crynhoi allbynnau ein gwaith monitro yn 2018/19.

## Cwynion rheoleiddio

Yn ystod 2018/19 nid oeddem wedi derbyn unrhyw gwynion mewn perthynas â gofynion cystadleuaeth y BBC a oedd yn cyfiawnhau ymchwiliad.

Rydym yn nodi yn adroddiad blynyddol y BBC ar gyfer 2018/19 fod y BBC wedi cael dwy gŵyn ynghylch gofynion cystadleuaeth yn ystod y flwyddyn, ac yn y naill achos a’r llall canfuwyd nad oedd unrhyw un o'i rwymedigaethau wedi cael eu torri.

# Blaenraglen waith ar gyfer 2019/20

Eleni byddwn yn lansio adolygiad o esblygiad BBC Studios, gan gynnwys sut mae wedi gweithredu ein gofynion masnachu a gwahanu. Ein nod fydd cyhoeddi'r cylch gorchwyl erbyn diwedd 2019, ar sail materion a godwyd gan randdeiliaid a'r wybodaeth a gasglwyd o dan ein rhaglen monitro. Rydym yn disgwyl i’r gwaith yma barhau i 2020/21.

Fel rhan o'r adolygiad hwn, byddwn yn ystyried a yw newidiadau’r BBC i’w linellau busnes yn BBC Studios yn rhoi digon o dryloywder i randdeiliaid ac i Ofcom. Byddwn yn gofyn i randdeiliaid gyfrannu at ein gwaith.

Yn ei gynllun blynyddol ar gyfer 2019/20, soniodd y BBC am feysydd lle mae’n ystyried cyflwyno newidiadau arfaethedig i'w weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys rhagor o newidiadau i BBC Sounds. Rydym yn parhau i ymgysylltu â'r BBC ynghylch pa mor sylweddol y gallai’r newidiadau arfaethedig hyn fod. Rydym hefyd yn ymgysylltu â'r BBC ynghylch goblygiadau cystadleuaeth yr amrywiadau i’r Drwydded Weithredu y mae’n gwneud cais amdanynt, yn dilyn datganiadau yn ei Gynllun Blynyddol ar gyfer 2019-20.



# Safonau Cynnwys y BBC

## Cyflwyniad

Yn ystod ein hail flwyddyn yn rheoleiddio'r BBC, mae Ofcom wedi parhau i ddisgwyl bod cynnwys y BBC yn cyrraedd y safonau uchel y mae ei gynulleidfaoedd yn eu disgwyl. Rydym wedi gwneud hyn drwy orfodi'r Cod Darlledu, sy'n nodi'r safonau rydym yn disgwyl i'r holl ddarlledwyr rydym yn eu rheoleiddio eu cyrraedd. Yn y mwyafrif helaeth o achosion roeddem wedi'u hystyried, mae'r BBC yn cyrraedd y safonau hyn yn ei raglenni.

Mae Ofcom yn dal yn gyfrifol am reoleiddio pob rhan o safonau cynnwys y BBC, gan gynnwys cywirdeb dyladwy[91] newyddion a didueddrwydd dyladwy newyddion a materion cyfoes.[92] Rydym yn gwybod bod gwylwyr a gwrandawyr yn parhau i ddisgwyl bod darpariaeth newyddion a materion cyfoes y BBC yn gytbwys ac yn ddibynadwy, oherwydd mae'r rhan fwyaf o gwynion a gawn am y BBC yn ymwneud â honiadau o ragfarn mewn rhaglenni. Fodd bynnag, eleni daethom i'r casgliad bod y BBC wedi diwallu'r gofynion didueddrwydd dyladwy sydd yn y Cod Darlledu.

### Sut rydym yn sicrhau safonau cynnwys y BBC

O Dan Siarter a Chytundeb 2016, mae Ofcom yn dal y BBC i gyfrif yn erbyn rheolau'r Cod Darlledu ("y Cod") i sicrhau bod cynulleidfaoedd y BBC yn cael eu diogelu'n ddigonol rhag ddeunyddiau a allai achosi niwed a thramgwydd. Mae'r Cod yn rhoi sylw i feysydd sy'n cynnwys: diogelu'r rheini sydd dan 18 oed; niwed a thramgwydd; trosedd; crefydd; didueddrwydd a chywirdeb; a chyfeiriadau masnachol. Mae'r rheolau tegwch a phreifatrwydd yn sicrhau bod pobl yn cael eu diogelu rhag cael eu trin yn anghyfiawn neu'n annheg mewn rhaglenni, ac nad oes unrhyw darfu ar eu preifatrwydd mewn rhaglenni heb gyfiawnhad.

Mae rheolau'r Cod yn berthnasol i wasanaethau teledu a radio y BBC a, phan fo'n briodol, i'r BBC iPlayer.

Mae Ofcom yn sicrhau cydymffurfiad â'r Cod drwy ystyried cwynion yn bennaf. Rydym hefyd yn chwilio am achosion posibl o dorri'r rheolau ac yn ymchwilio iddynt pan fydd hynny'n briodol, drwy waith monitro wedi'i dargedu. Mae hyn yn cyd-fynd â sut rydym yn gorfodi safonau cynnwys ar gyfer yr holl ddarlledwyr rydym yn eu rheoleiddio.

## Cwynion am raglenni'r BBC

Pan fydd gan wrandawyr neu wylwyr y BBC gŵyn, mae'n bwysig bod proses deg a thryloyw ar waith er mwyn clywed eu safbwyntiau. Rydym yn credu bod system gwynion bresennol y BBC yn cyflawni hyn yn ystod camau cynnar y broses gwyno, ond mae gennym bryderon sylweddol (gweler tudalen 22) am y camau diweddarach.

Mae'r broses 'BBC yn Gyntaf' yn rhoi cyfle i'r BBC ddatrys cwynion yn effeithiol ac yn effeithlon yn y lle cyntaf, heb orfod uwchgyfeirio'r mater ymhellach. Fodd bynnag, os bydd y sawl sy'n cwyno wedi mynd drwy broses y BBC ac mae'n dal yn anfodlon â phenderfyniad terfynol y BBC, mae modd cyfeirio'r mater at Ofcom.[93] Mae gan Ofcom hefyd y pŵer i gamu i mewn ac ymyrryd yn gynharach mewn amgylchiadau eithriadol, neu i lansio ymchwiliad os na fu unrhyw gwynion, os ydym yn credu ei bod yn briodol gwneud hynny.[94]

Mae ystadegau cwynion y BBC ar gyfer 2018/19 yn dangos bod 'BBC yn Gyntaf' yn dal yn gweithio'n effeithiol ac mae'r rhan fwyaf o'r rheini sy'n cwyno yn fodlon ar ymateb terfynol y BBC i'w cwyn. Yn ystod 2018/19, cafodd y BBC 218,352 o gwynion yn ei adran Gwasanaethau Cynulleidfa (sef Cam 1); aeth 549 o gwynion golygyddol ymlaen at Uned Cwynion Gweithredol y BBC (sef Cam 2);[95,96] ac o'r rhain, roedd 236 o'r rheini a oedd wedi cwyno wedi cyfeirio eu mater ymlaen at Ofcom (gweler isod). Mae hyn yn gyfran fach o gyfanswm y cysylltiadau (dros 200,000) mae'r BBC yn delio â nhw bob blwyddyn.

Rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019, cafodd Ofcom 1,539 o gwynion ynghylch safonau cynnwys am y BBC. Fodd bynnag, o blith y rhain:

- cafodd **1,272 o gwynion** eu cyfeirio'n ôl at y BBC o dan 'BBC yn Gyntaf'. Er bod y cwynion hyn ynghylch rhaglenni'r BBC, ar ôl asesiad cychwynnol, roeddem wedi canfod nad oedd y rheini a oedd wedi cwyno wedi cwblhau proses gwyno'r BBC cyn cyflwyno eu cwyn i Ofcom; ac
- **Roedd 236 o gwynion** wedi cwblhau proses gwynion y BBC, ond nid oedd y sawl a oedd wedi cwyno yn fodlon ar y canlyniad. Ym mhob un ond dau o'r cwynion hyn nid oeddem o'r farn bod y gŵyn yn codi mater o sylwedd o dan y Cod a oedd yn cyfiawnhau ymchwiliad pellach.

2. Mae Ofcom yn cyhoeddi canlyniadau'r holl gwynion am raglenni'r BBC (a darlledwyr eraill) bob pythefnos yn ein Bwletin Darlledu Ac Ar Alw .
3. Ym mis Mai 2019 roeddem wedi cofnodi achos sylweddol o dorri'r Cod Darlledu (mae'r manylion yn y blwch i'r dde), pan ddaethpwyd i'r casgliad bod y BBC wedi darlledu rhaglen ffeithiol a oedd wedi camarwain yn sylweddol. I sicrhau bod newyddion yn cael eu darparu gyda chywirdeb dyladwy ac nad yw rhaglenni ffeithiol yn camarwain y gynulleidfa'n sylweddol, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod ystadegau'n cael eu hadrodd yn gywir o ffynonellau dibynadwy a bod camgymeriadau'n cael eu cywiro'n gyflym.
4. Mae mecanweithiau ychwanegol Ofcom ar gyfer goruchwylio cwynion y BBC wedi parhau i fod yn bwysig yn 2018/19. Mae'r adroddiadau misol rydym yn mynnu bod y BBC yn eu darparu yn caniatáu i ni asesu a gaiff yr holl gwynion a dderbynnir yng Ngham 2 eu hystyried a'u datrys yn brydlon. Mae yna adegau prin o hyd pan nad yw hyn wedi digwydd, neu pan mae materion o ran delio â chwynion wedi cael eu codi, ond mae disgwyl hyn ar gyfer system sy'n delio â chynifer o gysylltiadau. Er nad yw Ofcom yn ymyrryd mewn achosion unigol o ddelio â chwynion,

rydym yn cadw llygad barcud ar yr achosion hyn fel rhan o'n dyletswyddau goruchwylio.

### *Sunday Politics*, BBC One, 30 Ebrill 2017, 11:24

Roedd y rhaglen hon yn cynnwys cyfweliad â chyn Brif Weinidog yr Alban, Alex Salmond, o Blaid Genedlaethol yr Alban ("SNP") a gofynnodd y cyflwynydd, Andrew Neil, am record yr SNP ar addysg. Yn un o'i gwestiynau ("*Why, after a decade of SNP rule, do one in five Scots pupils leave primary school functionally illiterate?"*), roedd hi'n ymddangos bod Andrew Neil yn dyfynnu data o ffynhonnell ystadegol swyddogol i feirniadu lefelau llythrennedd y rheini a oedd yn gadael ysgolion cynradd yr Alban yn 2017.

Cynhaliwyd y cyfweliad yn ystod cyfnod yr etholiad ar gyfer etholiadau lleol 2017 yr Alban. Ym mis Tachwedd 2017, roedd Uned Cwynion Gweithredol y BBC wedi cadarnhau cwyn ynghylch y cyfweliad hwn ac wedyn roedd y sawl a oedd wedi cwyno wedi cyfeirio eu cwyn at Ofcom.

Ar ôl ymchwiliad, daeth Ofcom i'r casgliad bod cwestiwn Mr Neil wedi camliwio lefelau llythrennedd go iawn y rheini a oedd yn gadael ysgolion cynradd yn 2017 mewn ffordd sylweddol. Ym marn Ofcom, roedd yn wyriad mawr oddi wrth unrhyw ddehongliad rhesymol o'r data a oedd ar gael, i'r graddau ei fod yn camarwain y gynulleidfa mewn ffordd sylweddol. Roedd y penderfyniad a gyhoeddwyd gan Ofcom yn cofnodi bod Rheol 2.2 wedi cael ei thorri, sy'n mynnu na chaiff rhaglenni ffeithiol na phortreadau o faterion ffeithiol gamarwain mewn ffordd sylweddol.

Roeddem yn poeni'n arw am y ffordd roedd y BBC wedi delio â'r achos hwn. Ar wahanol adegau yn ystod proses y BBC o ddelio â'r gŵyn ac yn ystod ymchwiliad Ofcom, roedd y BBC wedi darparu esboniadau gwahanol ynghylch ffynhonnell y data. Roedd yr amser a gymerodd y BBC i gyfaddef nad oedd ffynhonnell ffeithiol i gefnogi sylw Mr Neil yn golygu na chafodd cywiriad ei wneud yn ystod cyfnod yr etholiadau lleol na'r cyfnod dilynol cyn Etholiad Cyffredinol y Deyrnas Unedig.

Mae Ofcom yn disgwyl i'r BBC wneud nodyn gofalus o'i wallau wrth ddelio â'r achos hwn er mwyn sicrhau na fydd gwallau o'r fath yn digwydd eto. Dylai'r BBC ystyried sut mae'n adnabod, yn blaenoriaethu ac yn datrys cwynion yn ystod cyfnodau etholiadau a refferenda. Yn benodol, dylai ystyried sut mae canfod ffynonellau datganiadau sy'n cael eu herio gan wylwyr a gwneud unrhyw gywiriadau priodol cyn gynted ag y bo modd pan fydd cynulleidfaoedd wedi cael eu camarwain mewn ffordd sylweddol – fel yn yr achos hwn – cyn i gyfnod etholiad neu refferendwm ddod i ben.

### Mae Ofcom hefyd yn ystyried cwynion ynghylch tegwch a phreifatrwydd

Mae gan Ofcom ddyletswydd i ddyfarnu ynghylch cwynion sy'n cael eu gwneud gan unigolion neu sefydliadau sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni a ddarlledir, neu a oedd yn rhan o wneud rhaglenni, neu y mae'r rhaglenni hynny'n effeithio arnynt yn uniongyrchol.[97] Cwynion Tegwch a Phreifatrwydd yw'r rhain.

Rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019 roeddem wedi delio â **42 o gwynion** yn erbyn rhaglenni'r BBC am honiadau o drin pobl neu sefydliad yn anghyfiawn neu'n annheg, neu am dresmasu ar breifatrwydd heb gyfiawnhad. O'r rhain:

- cafodd **wyth cwyn** eu cyfeirio ar gyfer ymchwiliad i benderfynu a oedd y Cod wedi cael ei dorri. Os yw'r Cod wedi cael

ei dorri, rydym yn cadarnhau'r gŵyn. O blith y cwynion y dyfarnwyd yn eu cylch yn ystod y cyfnod hwn, cadarnhawyd un.[98]

## Cwynion am ddeunyddiau ar-lein

Mae Ofcom a'r BBC wedi llunio trefniant sy'n rhoi'r cyfrifoldeb i Ofcom reoleiddio cynnwys y BBC ar ei wefan a'i apiau.[99] Mae hyn yn cynnwys testun, delweddau, fideos a chynnwys sain. Nid yw'n ymestyn i gynnwys cyfryngau cymdeithasol y BBC.[100] O dan y trefniant hwn, mae Ofcom yn gallu ystyried a rhoi 'Barn' annibynnol ynghylch a wnaeth y BBC lynu at Ganllawiau Golygyddol perthnasol y BBC yn ei ddeunyddiau ar-lein.

Rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019 roeddem wedi cael **204 o gwynion am ddeunyddiau ar-lein y BBC.**[101] O'r rhain:

- Roeddem wedi cau **37 o gwynion** oherwydd, ar ôl eu hasesu, nid oeddem yn credu bod sail i Ofcom ystyried y cwynion ymhellach na bod angen mynegi Barn.
- Cafodd **156 o gwynion** eraill eu cyfeirio'n ôl i'r BBC o dan 'BBC yn Gyntaf'.
- Roedd **13 o gwynion** y tu allan i gylch gwaith Ofcom ar gyfer deunydd ar-lein y BBC, gyda nifer o'r cwynion hyn yn ymwneud â chyfryngau cymdeithasol.

2. Mae Ofcom yn cyhoeddi canlyniad pob cwyn am ddeunyddiau ar-lein y BBC bob dau fis yn ein Bwletin ar gyfer cwynion am ddeunyddiau ar-lein y BBC.

Nid oedd Ofcom wedi dod ar draws unrhyw gwynion ar-lein newydd yn y cyfnod adrodd hwn a oedd yn mynnu bod angen i ni gyhoeddi Barn. Felly nid oes gennym unrhyw bryderon gyda'r ffordd mae'r BBC yn diwallu ei Ganllawiau Golygyddol ar gyfer deunyddiau ar-lein ar hyn o bryd.

## Sicrhau didueddrwydd dyladwy rhaglenni'r BBC

Mae gan Ofcom ddyletswydd bwysig i oruchwylio rhaglenni'r BBC i sicrhau bod newyddion y BBC yn ddigon diduedd ac yn ddigon cywir, a bod ei raglenni materion cyfoes yn ddigon diduedd ac nad ydynt yn camarwain yn sylweddol. Rydym yn cyflawni hyn drwy ddefnyddio'r un dulliau ag rydym yn eu defnyddio â darlledwyr eraill. Yn bennaf, mae safonau'n cael eu sicrhau drwy asesu cwynion (a, lle bo'n briodol, ymchwilio i gwynion) gan gynulleidfaoedd. Mae Ofcom hefyd yn defnyddio prosesau monitro wedi'u targedu, hyd yn oed os na fu unrhyw gŵyn, i asesu achosion posibl o dorri'r Cod. Yn y cyfnod adrodd presennol, nid ydym wedi gweld bod y BBC wedi torri gofynion y Cod o ran didueddrwydd dyladwy na chywirdeb dyladwy.[102]

Mae cynulleidfaoedd yn dal y BBC i safon uchel o ran bod yn ddiduedd ac yn gywir. Felly, mae Ofcom yn asesu'r amrywiaeth o dechnegau mae'r BBC yn eu defnyddio i sicrhau didueddrwydd dyladwy i weld a yw'r BBC yn gwneud pethau'n iawn, a gallwn weithredu os nad yw'n cyrraedd y safonau.

Roedd nifer y cwynion a gyflwynwyd i Ofcom am ragfarn honedig yn rhaglenni'r BBC yn dal yn uchel yn ystod 2018/19.[103] O'r cyfanswm o 1,539 o gwynion a gawsom am y BBC, roedd 525 o gwynion – neu 34% o gyfanswm y cwynion i Ofcom am y BBC – yn ymwneud â didueddrwydd. Yn benodol, rydym wedi parhau i weld nifer o gwynion am y ffordd mae'r BBC yn ymdrin â materion dadleuol yn y newyddion, a Brexit yw'r enghraifft amlycaf. Un enghraifft yw'r gŵyn ar y cyd a gawsom am ddarpariaeth Radio 4 ar gyfer Brexit (ar y dde).[104] Yn yr achos hwn, fe wnaethom gymryd y cam anarferol o gyhoeddi ein hasesiad o gŵyn nad oedd, yn ein barn ni, yn codi materion y dylid ymchwilio iddynt.

Roeddem wedi tynnu sylw at y technegau golygyddol mae'r BBC yn eu defnyddio i sicrhau didueddrwydd dyladwy, a phwysigrwydd hawl i ryddid mynegiant y BBC, a hawl y gynulleidfa i dderbyn gwybodaeth.

### *Sylw i faterion sy'n ymwneud â'r Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd, gwahanol raglenni, BBC Radio 4, 4 Hydref 2017-29 Mawrth 2018, gwahanol amseroedd*

Cafodd Ofcom gŵyn ar y cyd ynghylch cynnwys a ddarlledwyd ar BBC Radio 4 ynghylch y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd ("Brexit"), a oedd yn honni nad oedd y rhaglenni wedi llwyddo i gynrychioli'n ddigonol safbwyntiau'r rheini a oedd yn cefnogi Brexit. Nid oedd y BBC wedi cadarnhau'r gŵyn, ar y sail nad oedd o'r farn ei bod yn rhaid rhoi'r un amser ar yr awyr i'r rheini sydd o blaid Brexit ac i'r rheini sy'n gwrthwynebu Brexit, oherwydd bod y cyd-destun gwleidyddol wedi symud ymlaen ers y refferendwm ar yr Undeb Ewropeaidd.

Roedd y gwŷn yn ymdrin ag oddeutu 75 awr o gynnwys, ac roedd Ofcom wedi asesu swm cymesur o'r cynnwys hwnnw. Rhoddodd sylw i wahanol fathau o raglenni, yn benodol rhai oedd yn sôn am faterion sy'n ymwneud â Brexit.

Roedd Ofcom yn ystyried a oedd y rhaglenni'n codi materion a allai fod yn sylweddol dan Adran Pump o'r Cod, sy'n delio â didueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy. Roeddem wedi ystyried bod yr holl raglenni a aseswyd wedi cael eu darlledu rywbryd ar ôl Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd, ac ar ôl i'r Deyrnas Unedig alw Erthygl 50 i rym. Felly roedd y drafodaeth gyhoeddus wedi datblygu o fod yn drafodaeth am gwestiwn deuaidd – a ddylai'r Deyrnas Unedig 'adael' yr Undeb Ewropeaidd, ynteu 'aros' yn yr Undeb Ewropeaidd – i fod yn drafodaeth fwy cynnil sy'n cynnwys nifer o wahanol safbwyntiau ar sut y dylai'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd, a'r goblygiadau posibl i amrywiaeth o feysydd gwahanol. Roedd Ofcom o'r farn ei bod yn debygol y byddai'r gynulleidfa wedi disgwyl i'r drafodaeth am faterion Brexit adlewyrchu amrywiaeth o safbwyntiau gwahanol ar sut bydd y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd a'r goblygiadau, a sut mae'r drafodaeth gyhoeddus wedi newid a datblygu dros amser.

Ym marn Ofcom, roedd amrywiaeth o safbwyntiau gwahanol wedi cael eu cynnwys yn briodol. Roeddem wedi ystyried y defnydd o dechnegau golygyddol a oedd wedi helpu i sicrhau bod y safbwyntiau hyn yn cael eu cynrychioli'n ddigonol, er enghraifft: cyflwynwyr yn cyflwyno safbwyntiau gwahanol neu'n herio safbwyntiau gwesteion; cynnwys cyfweliadau ag amrywiaeth o wleidyddion sydd â safbwyntiau gwahanol ar Brexit; gohebwyr arbenigol sy'n cynnig gwybodaeth, dadansoddiadau a chyd-destun ychwanegol; a thargedu'n ddychanol amrywiaeth o ffigurau sy'n cynrychioli gwahanol agweddau ar faterion sy'n ymwneud â Brexit.

## Tryloywder 'BBC yn Gyntaf'

Roedd Ofcom wedi rhoi cyfarwyddyd i'r BBC wneud ei ystadegau am gwynion golygyddol yn fwy amlwg, er mwyn bod yn fwy tryloyw ac atebol. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r BBC wedi gorfod cyhoeddi gwybodaeth bob pythefnos am y cwynion golygyddol y mae'n eu cael, gan gynnwys:

- **cyfanswm nifer y cwynion am raglenni, gyda gwybodaeth ychwanegol am y rhaglenni a gafodd nifer uwch o gwynion (dros 100);**

- **gwybodaeth am gwynion golygyddol sy'n cael eu cyfeirio at Uned Cwynion Gweithredol y BBC a chanlyniadau'r cwynion hynny; a**
- **chanran y cwynion yr ymatebwyd iddynt o fewn y cyfnod perthnasol.**

Ym mis Hydref 2018, ar ôl i'r gofynion newydd fod ar waith am flwyddyn, fe aeth Ofcom ati i adolygu eu heffeithiolrwydd. Fe wnaethom ofyn i'r BBC sut roedd y gofynion wedi effeithio arno. Dywedodd y BBC bryd hynny nad oedd y gofynion newydd wedi achosi problemau sylweddol iddo.

Mae Ofcom yn ffyddiog bod y drefn bresennol o gyhoeddi ystadegau am gwynion golygyddol bob pythefnos yn un ffordd effeithiol i'r BBC fod yn dryloyw ac yn atebol i'w gynulleidfaoedd. Fodd bynnag, fel y nodir ar dudalen 22, rydym ni'n credu y dylai'r BBC fod yn fwy tryloyw ynghylch y rhesymau dros ganfyddiadau'r Uned Cwynion Gweithredol ynghylch cydymffurfio â gofynion perthnasol Canllawiau Golygyddol y BBC sy'n adlewyrchu Cod Darlledu Ofcom. Byddwn yn rhoi sylw i ddiffyg tryloywder y BBC yn yr elfen hon fel mater brys.

Rydym hefyd wedi cael gwybod bod y BBC wedi delio â nifer bach o "achosion difrifol o dorri'r cod golygyddol" yng nghyfnod adrodd 2018/19[105] nad oeddem yn ymwybodol ohonynt cyn hynny. Mae Ofcom yn credu ei bod yn bwysig ein bod yn cael gwybod am achosion o'r fath. Mae hyn yn sicrhau bod cynulleidfaoedd yn gallu bod yn hyderus bod y drefn 'BBC yn Gyntaf' yn effeithiol ac yn dryloyw. Rydym felly'n trafod y mater hwn â'r BBC i benderfynu a oes mesurau ychwanegol y gellir eu cymryd i sicrhau tryloywder yn y maes hwn.

Rydym yn cydnabod ei bod hi'n bwysig hefyd bod y broses ar gyfer cwyno am un o raglenni'r BBC yn dal yn glir ac yn syml. Mae Ofcom a'r BBC yn diweddaru ein gwefannau cwynion eleni, gyda'r nod o wneud proses BBC yn Gyntaf yn haws ei deall, a lleihau nifer y bobl sy'n cysylltu ag Ofcom i gwyno heb sylweddoli bod angen iddyn nhw gwyno wrth y BBC yn gyntaf. Mae'r BBC hefyd wedi cynllunio nifer o newidiadau technegol i'w system cwynion ar gyfer 2019/20, ac rydym yn croesawu hynny. Dylai'r rhain ei gwneud hi'n haws symud cwyn ymlaen yn y BBC.

## Y rhaglen waith ar gyfer 2019/20

Mae Ofcom yn disgwyl, yn yr un modd â gyda darlledwyr eraill, y bydd cwynion gan y gynulleidfa yn un o'r prif bethau a fydd yn sbarduno'r rhan fwyaf o waith Ofcom ar safonau golygyddol cynnwys y BBC. Byddwn yn parhau i asesu cwynion sydd wedi cwblhau proses y BBC ei hun ac yn defnyddio'r rhain i sicrhau bod y BBC yn diwallu ei safonau cynnwys ar draws ei wasanaethau, fel y nodir yn y Cod Darlledu (ar gyfer cwynion am gynnwys ar-lein) a Chanllawiau Golygyddol y BBC.

Byddwn yn cymryd camau pellach ar frys i fynd i'r afael â diffyg eglurder y BBC mewn rhai rhannau o'i broses gwyno, gan gynnwys ystyried cyfarwyddiadau pellach i sicrhau lefelau priodol o dryloywder ac atebolrwydd ar gyfer ei gynulleidfaoedd a'i randdeiliaid.

# Ôl-nodiadau

[1] Mae'n ofynnol bod Ofcom yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol sy'n nodi sut rydym wedi cyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio, ac yn asesu a yw'r BBC wedi cydymffurfio â'r gofynion rheoleiddiol a roddwyd iddo. Rhaid i ni hefyd gyhoeddi adroddiad ar berfformiad y BBC yn erbyn ein mesurau perfformiad. Mae hwn ar gael yn Atodiad 2 yr Adroddiad Blynyddol.

[2]Mae'r Siarter yn cyflwyno'r amcanion eang y mae'n rhaid i'r BBC eu cyflawni ar ffurf Cenhadaeth a phum Diben Cyhoeddus. Mae'n cael ei hategu gan Gytundeb rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol a'r BBC, sy'n cynnwys rhagor o ddyletswyddau.

[3] Daeth y Drwydded Weithredu i rym ar 1 Ionawr 2018, ond nid oedd rhai amodau'n dod i rym tan 1 Ebrill 2018. Yn ein hadroddiad blynyddol cyntaf ar y BBC, dim ond asesu cydymffurfiaeth y BBC â'r amodau a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2018 roeddem ni'n ei wneud, a'r rhai a oedd wedi'u gosod fesul diwrnod, wythnos neu'n barhaus.

[4] *Darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn yr oes ddigidol*; *Dyfodol Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus*; *Adroddiad Cyfryngau'r Genedl 2019*

[5] *Dyfodol Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus*, Ofcom, 4 Gorffennaf 2019

[6] Y BBC, *Television Licence Fee Trust Statement for the Year Ending 31 March 2019*.

[7] Mae TouchPoints 2019 yn dangos bod 93% o oedolion yn gwylio'r BBC, yn gwrando arno neu'n ei ddefnyddio bob wythnos.

[8] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC.

[9] *BBC iPlayer Public Interest Test: Audience Research Debrief*

[10] Ffynhonnell: BARB. Cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog (15+ munud yn olynol) ymysg pobl rhwng 16 a 24 oed fesul darlledwr, 2018 o'i gymharu â 2017

[11] *Cynrychiolaeth a phortread ar deledu'r BBC 2018*.

[12] Cynrychiolaeth a phortread ar deledu'r BBC, 2018, t.12

[13] Llythyr at y BBC, 23 Hydref 2018

[14] *Adroddiad blynyddol Ofcom ar y BBC*, 25 Hydref 2018, t.11

[15] *Cynigion BBC iPlayer: Ymgynghoriad Prawf Budd y Cyhoedd*, y BBC, Ebrill 2019, t.19

[16] *Cynllun Blynyddol y BBC 2019/20*, t.7

[17] Ffynhonnell: BARB

[18] ibid

[19] Ffynhonnell: Modelu Ofcom gan ddefnyddio BARB, RAJAR, comScore, data GfK SVOD a Touchpoints ar gyfer modelu PVR yn erbyn BBC iPlayer ac amcangyfrifon o bodlediadau'r BBC

[20] Ffynhonnell: BARB, TouchPoints 2019

[21] Ffynhonnell: BARB

[22] Gwybodaeth y mae'r BBC wedi'i rhannu ag Ofcom

[23] Mae ein methodoleg wedi'i nodi yn Atodiad 2: Adroddiad Perfformiad

[24] Ffynhonnell: RAJAR

[25] *Adroddiad Cyfryngau'r Genedl Ofcom 2019*, t.78

[26] Comscore Mobile Metrix, BBC Sounds: Radio a Phodlediadau (Ap Symudol) a Spotify (Ap Symudol), Oedran: 18+, Mawrth 2019, y Deyrnas Unedig

[27] Ymchwil Populus, Mawrth 2019. Cyhoeddwyd yn *Adroddiad Cyfryngau'r Genedl Ofcom 2019*

[28] Ac eithrio ar set deledu

[29] *Children and parents: media use and attitudes,* Ofcom, 29 November 2017

[31] *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Grŵp y BBC 2018/19*, t.143-148

[31] Mae Diamond (Diversity Analysis Monitoring Data) – a gafodd ei greu gan y Rhwydwaith Amrywiaeth Creadigol, darlledwyr yn y Deyrnas Unedig a Pact – yn system fonitro ac adrodd sy'n darparu gwybodaeth am amrywiaeth yn y diwydiant.

[32] *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Grŵp y BBC 2018/19*, t.35
[33] *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Grŵp y BBC 2018/19*, t.258-283
[34] *Cynrychiolaeth a phortread ar deledu'r BBC 2018*.
[35] *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Grŵp y BBC 2018/19, t.34*
[36] *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Grŵp y BBC 2018/19, t.64*
[37] *Prosiect 50:50 y BBC*, y BBC, Mai 2019
[38] datganiad newyddion, y BBC, 4 Hydref 2019
[39] *Amrywiaeth a chyfleoedd cyfartal yn y diwydiant radio,* 31 Gorffennaf 2019
[40] *Amrywiaeth a chyfleoedd cyfartal yn y diwydiant teledu*, 18 Medi 2019
[41] *Bwletin Darlledu ac Ar Alw Ofcom*, rhifyn 388
[42] Llythyr Ofcom at y BBC, 30 Medi 2019
[43] Mae hyn yn cynnwys canfyddiadau sy'n ymwneud â chynnwys sydd wedi cael ei ddarlledu, gan gynnwys mewn gwasanaeth rhaglenni ar-alw, yn ogystal â chanfyddiadau am ddeunydd ar-lein.
[44] Mae 'llinellau busnes' yn cyfeirio at y gwahanol grwpiau yn yr is-gwmnïau masnachol y mae'r BBC yn eu defnyddio i drefnu ei weithgareddau masnachol ac yn adrodd arnynt ar wahân.
[45] *Ymrwymiadau'r BBC ar gyfer uno BBC Studios-Worldwide, fersiwn 2*, diweddarwyd 27 Medi 2019.
[46]Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 11 y Siarter.
[47] ibid
[48] *Adolygiad Masnachol y BBC*, y BBC, Rhagfyr 2018
[49]Mae genres mewn perygl yn cynnwys genres sy'n cyfrannu'n benodol at y Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus, sydd ddim yn cael eu darparu'n ddigonol neu sy'n dirywio ar draws darlledu gwasanaeth cyhoeddus, fel y nodir yn Atodlen 2 y Cytundeb.
[50] Ffynhonnell: Modelu Ofcom gan ddefnyddio BARB, RAJAR, comScore, data GfK SVOD a Touchpoints ar gyfer modelu PVR yn erbyn BBC iPlayer ac amcangyfrifon o bodlediadau'r BBC
[51] Ffynhonnell: BARB
[52] Ffynhonnell: RAJAR
[53] Ffynhonnell: comScore
[54] Ffynhonnell: BARB
[55] *Trwydded Weithredu'r BBC*
[56] Mae'r holl fersiynau blaenorol o amodau'r Drwydded Weithredu ar gael ar ein gwefan yma: https://www.ofcom.org.uk/cymru/tv-radio-and-on-demand/information-for-industry/bbc-operating-framework/operating-framework
[57] Ffynhonnell: Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2019
[58] ibid
[59] ibid
[60]*Cynllun Blynyddol y BBC 2019/20*
[61] Ffynhonnell: Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2019
[62] ibid
[63] Ffynhonnell: Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC
[64] Ffynhonnell: Ofcom/y BBC
[65] O ran dysgu anffurfiol i oedolion, mae hyn yn cynnwys y celfyddydau, crefydd a rhaglenni ffeithiol arbenigol eraill.
[66] Mae gan y BBC hefyd dudalennau dysgu anffurfiol ar ei wefan, fel BBC Culture, BBC Capital, BBC Earth, BBC Future a BBC Travel sy'n cael eu hariannu'n fasnachol yn hytrach na gan ffi'r drwydded.
[67] Ffynhonnell: Data gweinydd mewnol gan y BBC, yn seiliedig ar Bitesize Virtual Site kl-bitesize sy'n cynnwys y Bitesize newydd (previously.co.uk/education now .com/bitesize), yr hen Bitesize (.co.uk/bitesize ; .co.uk/schools), y Deyrnas Unedig, yn wythnosol Ch1 2017 a Ch1 2018.
[68] Ffynhonnell: BARB. Y meini prawf ar gyfer cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog yw gwylio am 15+ munud yn olynol.

69 Ffynhonnell: BARB. Y meini prawf ar gyfer cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog yw gwylio am 15+ munud yn olynol. Mae'r cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog ar gyfer plant 4-6 oed ar Pop, Tiny Pop, a CITV wedi gostwng eleni. Mae POP Max wedi dangos cynnydd bach o 1 pwynt canran ers 2017.
70 Ffynhonnell: Ofcom/y BBC
71 Ffynhonnell: Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC
72 Ffynhonnell: Ofcom/y BBC
73 Ffynhonnell: Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC
74 ibid
75 *Changing to stay the same*, James Purnell, Radio Festival 2019, 13 Mai 2019
76 Ffynhonnell: Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC
77 ibid
78 ibid
79 Ofcom, *Asesiad Cystadleuaeth BBC Scotland: y penderfyniad terfynol*, 26 Mehefin 2018
80 Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol Grŵp y BBC 2018/19, t146
81 Mae hyn yn cynnwys ein hegwyddorion mesur craidd sef hyblygrwydd, cymesuredd, ymarferoldeb, tryloywder, cadernid a chymharedd. Ofcom, Dal y BBC i gyfrif am gyflawni ar gyfer ei gynulleidfaoedd Hydref 2017.
81 I weld rhestr lawn o'n penderfyniadau ynghylch y newidiadau i'r Drwydded Weithredu, edrychwch ar: https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0017/135161/bbc-scotland-operating-licence-statement.pdf
83 Canllawiau BCA
84 Cytundeb, atodlen 8
85 datganiad newyddion, y BBC, 17 Rhagfyr 2018
86 Ofcom, *Asesiad Cystadleuaeth BBC iPlayer: Penderfyniad Terfynol*, Atodiad 2: Amodau BBC iPlayer, 1 Awst 2019
87 *Dogfen penderfyniad BCR, Rhagfyr 2018*
88 Yn Atodiad 1 rydym yn adrodd ar gydymffurfiad y BBC gyda'n gofynion gweithgareddau masnachol a masnachu a'n gwaith monitro yn ystod y flwyddyn.
89 *Discovery and BBC sign major global content partnership and agree on future of UKTV channels*, BBC, 1 Ebrill 2019
90 Edrychwch ar ein datganiad ynghylch y cytundeb UKTV, 5 Mehefin 2019
91 Y tu allan i newyddion, rhaid i gynnwys darlledu a chynnwys ffeithiol ar-alw y BBC beidio â chamarwain y gynulleidfa'n sylweddol
92 Mae 'materion cyfoes' yn cyfeirio at unrhyw raglen sy'n rhoi sylw i faterion gwleidyddol neu ddiwydiannol sy'n destun dadl a materion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol. O dan y Cod, mae'n rhaid i raglenni newyddion y BBC fod yn briodol gywir. Rhaid i holl raglenni ffeithiol y BBC nad ydynt yn newyddion sicrhau nad ydynt yn camarwain y gynulleidfa'n sylweddol.
93 Mae cwynion hefyd yn gallu dod at Ofcom os ydynt yn meddwl, ar ôl i'r BBC ddatrys cwyn, y gallai sancsiwn gan Ofcom fod yn briodol, neu os yw'r BBC wedi methu datrys cwyn yn y cyfnod a nodir yn ei weithdrefnau.
94 Mae Ofcom wedi gosod a chyhoeddi gweithdrefnau ar gyfer trin a datrys cwynion am y BBC a sut rydym yn ystyried gosod sancsiynau ar y BBC, sydd wedi bod yn berthnasol ers mis Ebrill 2017.
95 Mae'r BBC yn diffinio cwyn olygyddol fel un sy'n awgrymu bod eitem benodol a gafodd ei darlledu neu ei chyhoeddi ar wasanaethau'r BBC wedi bod yn is na'r safonau a fynegir yng Nghanllawiau Golygyddol y BBC. Mae cwynion sy'n codi materion sy'n ymwneud â safonau golygyddol ond nad ydynt yn ymwneud ag eitemau penodol yn cael eu trin gan y BBC o dan eu Gweithdrefn Cwynion Cyffredinol. Edrychwch ar https://ssl.bbc.co.uk/complaints/forms/assets/complaintsnew/resources/BBC_Complaints_Framework.pdf i weld pob un o weithdrefnau cwynion y BBC.
96 Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol Grŵp y BBC 2018/19, t.134
97 Nid yw'r drefn BBC yn Gyntaf yn berthnasol i gwynion Tegwch a Phreifatrwydd, ac yn wahanol i gwynion am safonau cynnwys y BBC, mae modd cyfeirio'r rhain at Ofcom yn y lle cyntaf.
98 Edrychwch ar Bwletin Darlledu ac Ar Alw Ofcom, Rhifyn 372
99 Trefniant Ofcom a'r BBC sy'n ymwneud â deunyddiau ar-lein

[100] ibid

[101] Dechreuodd Ofcom ystyried cwynion am ddeunyddiau ar-lein y BBC pan ddaeth Deddf Economi Ddigidol 2017 i rym ar 27 Ebrill 2017, gan roi'r pŵer i ni ystyried cwynion o'r fath.

[102] Fodd bynnag, fe wnaethom ganfod bod rheol 2.2 (camarwain sylweddol) wedi cael ei thorri.

[103] Mae didueddrwydd yn golygu peidio â ffafrio un ochr yn fwy nag un arall. Mae'r cysyniad 'dyladwy' yn golygu bod yn ddigonol neu'n briodol i destun a natur y rhaglen. Felly nid yw 'r cysyniad 'didueddrwydd dyladwy' yn golygu bod rhaid rhoi'r un amser ar gyfer pob barn, neu fod rhaid cynrychioli pob dadl.

[104] Bwletin Darlledu ac Ar Alw Ofcom, Rhifyn 372

[105] *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Grŵp y BBC 2018/19*, t.135